

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol: 54/2025

Dyddiad Cyhoeddi: 17/06/2025

Gwerthusiad ffurfiannol o Twf Swyddi Cymru+: adroddiad terynol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-83715-843-0

Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru+:

adroddiad terfynol

Awduron: Jakob Abekhon, Oliver Allies, Paula Gallagher, Katy Simms, a Sarah Usher



Adroddiad Ymchwil Llawn: Allies, O; Abekhon, J; Gallagher, P; Simms, K; Usher, S. (2025). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 54/2025.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-ffurfiannol-o-twff-swyddi-cymru-plws-adroddiad-terfynol>

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Eloise Gowing

Uwch Swyddog Ymchwil ar gyfer Addysg a Sgiliau Ôl-16

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000253214

E-bost: KASEmployabilityandSkillsResearch@gov.wales

Tabl cynnwys

Rhestr tablau.....	2
Rhestr ffigurau	3
Geirfa	5
1. Cyflwyniad	7
2. Dull methodolegol	10
3. Cyd-destun polisi	18
4. Dyluniad y rhaglen a'i gweithredu	32
5. Cynnydd a pherfformiad TSC+	42
6. Barn am y model cyflenwi	70
7. Canlyniadau / effeithiau'r cymorth.....	98
8. Crynodeb o'r canfyddiadau ac argymhellion	117
Cyfeiriadau.....	125
Atodiad 1: Data sy'n gysylltiedig â'r mapiau.....	128
Atodiad 2: Offer ymchwil	134

Rhestr tablau

Tabl 2.1: Ymatebion targed ac ymatebion wedi'u cwblhau yn erbyn newidynnau ffrâm sampl (arolwg craidd)	13
Tabl 2.2: Cyfraddau canlyniadau cadarnhaol yn ôl ffynhonnell ddata	17
Tabl 3.1: Data cyrchfannau Blwyddyn 11 dros amser, 2017 i 2023	28
Tabl 4.1: Lotiau Rhanbarthol.....	33
Tabl 4.2: Model cyflenwi TSC+ yn ôl llinyn.....	36
Tabl 4.3: Model ariannu taliadau TSC+ yn Ebrill 2022 (lansio'r rhaglen)	38
Tabl 5.1: Amcangyfrifon NEET data'r SFR – 2022 a 2023.....	43
Tabl 5.2: Cyfranogwyr unigryw TSC+ yn ôl ethnigrwydd – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	48
Tabl 5.3: Oedran ar adeg cofrestru â TSC+ – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	49
Tabl 5.4: Statws diweithdra adeg cofrestru fesul darparwr	50
Tabl 5.5: Nifer y cofrestriadau yn ôl rhanbarth – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	51
Tabl 5.6: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl cofrestriadau a chyfranogwyr unigryw o ddata'r rhaglen (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)	58
Tabl 5.7: Amcangyfrifon o ganlyniadau cadarnhaol dan ddylanwad symud llinyn yn ôl darparwr – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	59
Tabl 5.8: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl cofrestriadau a chyfranogwyr unigryw o ddata'r rhaglen (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)	60
Tabl 5.9: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl nodweddion personol cyfranogwyr unigryw (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)	64
Tabl 5.10: Costau'r rhaglen.....	67
Tabl 6.1: Cyfrwng (iaith) cynnal gweithgareddau dysgu TSC+ – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	86
Tabl A.1: Cyrhaeddiad marchnad yn ôl awdurdod lleol Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	128
Tabl A.2: Canran yr unigolion a gofrestrodd mewn gweithgareddau Bydd Barod/Get Ready yn ôl awdurdod lleol Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	129
Tabl A.3: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn ôl ardal awdurdod lleol Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	130
Tabl A.4: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi cael cyflogaeth lawn amser neu ran-amser yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	131

Rhestr ffigurau

Ffigur 1.1: Model tri llinyn TSC.....	8
Ffigur 3.1: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, 2010 i 2023.....	24
Ffigur 3.2: Cyfraddau NEET yn ôl diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru, 2010 i 2023	25
Ffigur 3.3a a b: Cyfraddau NEET yn ôl diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru yn ôl rhyw, 2010 i 2023.....	26
Ffigur 3.4: Cymharu cyfraddau diweithdra ymhlith pobl 16 i 19 oed yng Nghymru a Lloegr, Ebrill 2019 i Medi 2024	27
Ffigur 3.5: Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yng Nghymru, 2010 i 2024	28
f36.....	30
Ffigur 5.1: Nifer cofrestriadau TSC+ bob mis – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	43
Ffigur 5.2: Cofrestriadau, ymadawiadau a llwyth achosion TSC+ dros amser yn ôl cyfranogwyr unigryw – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	44
Ffigur 5.3: Hyd cyfartalog ar y rhaglen yn ôl nifer y cofrestriadau a mis cofrestru – Mai 2022 i Mawrth 2024	46
Ffigur 5.4: Y nifer sy'n cofrestru ar raglen TSC+ bob mis yn ôl oedran – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	49
Ffigur 5.5: Canran cyfranogwyr unigryw gweithredol a phoblogaeth pobl ifanc 16 i 19 oed – 2023.....	52
Ffigur 5.6: Cyrhaeddiad marchnad yn ôl awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	53
Ffigur 5.7: Cyfran cofrestriadau ar y rhaglen yn ôl mis a llinyn – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	54
Ffigur 5.8: Canran math gweithgaredd o'r holl weithgareddau – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	56
Ffigur 5.9: Canran y canlyniadau cadarnhaol yn ôl mis cofrestru – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	58
Ffigur 5.10: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	61
Ffigur 5.11: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi cael cyflogaeth lawn amser neu ran-amser yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.....	62

Ffigur 5.12: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ sy'n chwilio am waith neu sy'n ddi-waith (wedi'i ddiffinio fel canlyniad negyddol) yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	63
Ffigur 6.1: Sut daethoch chi i glywed gyntaf am raglen TSC+?	71
Ffigur 6.2: Nifer yn dechrau ar weithgareddau Bydd Barod bob mis – Ionawr 2023 i Gorffennaf 2024	74
Ffigur 6.3: Canran yr unigolion a gofrestrodd mewn gweithgareddau Bydd Barod yn ôl awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	75
Ffigur 6.4: Pan ymunoch chi gyntaf â TSC+, a oedd unrhyw un o'r pethau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant?	77
Ffigur 6.5: Pa elfennau o TSC+ wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan ynddo?	80
Ffigur 6.6: Ar gyfer beth wnaethoch chi ddefnyddio'r lwfans?	81
Ffigur 6.7: Cyfran y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys darpariaeth Gymraeg fesul mis – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	87
Ffigur 6.8: Pa fath o gymorth a gawsoch gan TSC+?	90
Ffigur 6.9: Canran o weithgareddau dysgu gweithredol TSC+ yn ôl disgrifiad - Mawrth 2022 i Gorffennaf 2024	91
Ffigur 6.10: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi cwblhau oriau mewn gweithle yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024 ...	93
Ffigur 7.1: Pa rai o'r sgiliau cyflogaeth hyn, os o gwbl, y mae TSC+ wedi eich helpu â nhw?	99
Ffigur 7.2: Pa rai o'r ffyrdd hyn, os o gwbl, wnaeth TSC+ eich helpu?	101
Ffigur 7.3: Newid yn iechyd meddwl a lles dysgwyr craidd cyn ac ar ôl cymryd rhan yn TSC+	103
Ffigur 7.4: Math o gontract sydd gan ddysgwyr cyflogedig ôl gadael rhaglen TSC+	109
Ffigur 7.5: Statws hunanadroddedig dysgwyr nad ydynt bellach wedi cofrestru yn TSC+ ..	110
Ffigur 7.6: Siart Sankey yn dangos teithiau asesu ar ôl chwe mis gan gymharu cyrchfan dysgwyr yn syth ar ôl gadael ac yna eu cyrchfan chwe mis ar ôl gadael (n=61)	111
Ffigur 7.7: Cyrchfannau Addysg a Hyfforddiant ymadawyr TSC+ fel canran o gyfanswm y cyrsiau a wnaed – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	113
Ffigur 7.8: Mathau o addysg a hyfforddiant a ddechreuwyd gan ymadawyr TSC+ - Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	114

Geirfa

AAD

Anawsterau ac/neu anableddau dysgu

APS

Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

ARR

Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio

ARWAP

Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

CAMHS

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

CDU

Cynllun Dysgu Unigol

CFW

Cymunedau am Waith

CFW+

Cymunedau am Waith a Mwy

CQFW

Fframwaith Cymwysterau a Chredydau Cymru

CWFW

Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru

DWP

Adran Gwaith a Phensiynau

EPC

Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd (*Engagement and Progression Coordinator*)

ILO

Y Sefydliad Llafur Rhyngwladol

LLWR

Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

NEET

Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

OCA

Oriau Cyswllt dan Arweiniad (*Guided Contact Hours*)

PACE

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth

RAG

Grŵp Cyngori ar Ymchwil

SFR

Cyfres datganiadau ystadegol cyntaf

SPF

Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

TPAP

Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi

TSC+

Twf Swyddi Cymru+ (*Jobs Growth Wales+/JGW+*)

UD

Uned Dysgu

WEMWBS

Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin

YEPF

Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid

YPG

Y Warant i Bobl Ifanc

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru+ (TSC+) yn darparu hyfforddiant, datblygiad a chymorth cyflogadwyedd unigol i bobl ifanc 16 i 18 oed^[Troednodyn 1] yr asesir eu bod yn NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) ar yr adeg yr oeddent wedi dechrau ar raglen TSC+.
- 1.2 Lansiodd y rhaglen ym mis Ebrill 2022, i redeg tan 31 Mawrth 2026. Cynlluniwyd TSC+ gyda'r bwriad o ddatblygu elfennau gorau'r ddwy raglen gyflogadwyedd flaenorol:
 - Hyfforddeiaethau, a oedd yn cefnogi pobl ifanc 16 i 18 oed NEET i ennill sgiliau, cymwysterau a phrofiad i'w galluogi i symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch neu i gyflogaeth, gan gynnwys prentisiaeth.
 - Twf Swyddi Cymru 2 (TSC 2), a oedd yn cefnogi pobl ifanc ddi-waith 16 i 24 oed trwy roi profiad gwaith iddynt am gyfnod o chwe mis. Roedd yn rhaid i'r lleoliad profiad gwaith dalu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'n uwch a hynny am rhwng 25 a 40 awr yr wythnos (gyda Llywodraeth Cymru yn talu hyd at 50 y cant o'r cyflog am gyfnod y lleoliad hwnnw).
- 1.3 Penodwyd pum Prif Gontractwr^[Troednodyn 2] i ddarparu gwasanaethau cymorth drwy raglen TSC+ ar draws pedair ardal ranbarthol yng Nghymru.
- 1.4 Yn dilyn lansio'r rhaglen, ar y dechrau roedd TSC+ yn gweithredu drwy system atgyfeirio yn unig drwy Cymru'n Gweithio (wedi'i redeg gan Gyrfa Cymru). Ar ôl sawl mis, fodd bynnag, addaswyd y model i ganiatáu atgyfeiriadau uniongyrchol gan Gontractwyr, gan Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) a chan y dysgwyr eu hunain yn ogystal â thrwy Cymru'n Gweithio.
- 1.5 Rhoddir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, mewn Canolfannau Gwaith Lleol, yn swyddfeydd Contractwyr, neu mewn lleoliadau allgymorth cymunedol yn ogystal â thros y ffôn ac ar-lein.
- 1.6 Mae cynghorwyr yn helpu drwy nodi rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cael mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn seiliedig ar amgylchiadau a dyheadau unigolion, mae cynghorwyr gyrfa hyfforddedig yn nodi'r ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn i symud ymlaen.
- 1.7 Ar ôl i berson ifanc gael eu hatgyfeirio i TSC+, mae natur a maint eu rhwystrau yn sail i ba llyn (Ymgysylltu, Datblygu neu Gyflogaeth) o raglen TSC+ y cânt eu rhoi ynddo (Ffigur 1.1).
- 1.8 Mae tri llynyn TSC+ yn adlewyrchu lefelau gwahanol yr ymyriadau sydd ar gael i ateb gwahanol anghenion unigolion, a'r llynynnau hynny yn gysylltiedig â'u pellter o addysg brif ffrwd neu gyflogaeth fel yr aseswyd ar adeg eu hatgyfeirio.

[1] Estynnwyd y grŵp oedran oedd yn gymwys ar gyfer TSC+ i'r rhai 19 oed ym mis Ionawr 2023.

[2] ACT Training, Grŵp Llandrillo Menai (GLIM), ITEC, Coleg Sir Benfro, Coleg Cambria.

Ffigur 1.1: Model tri llinyn TSC



Y gwerthusiad

- 1.9 Ym mis Gorffennaf 2022, comisiynodd Llywodraeth Cymru gwmni Wavehill i gynnal gwerthusiad ffurfiannol o TSC+, sef yn benodol i:
- Olrhain a chofnodi nifer y rhai a oedd ar y rhaglen rhwng Ebrill 2022 ac Ebrill 2024 (gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig — i'w hadrodd yn flynyddol).
 - Cynnal asesiad blynyddol ar ganlyniadau'r rhaglen, gan gymharu canlyniadau yn ôl grwpiau nodweddion gwarchodedig a'r iaith Gymraeg.
 - Cynnal gwerthusiad ar broses y rhaglen.
 - Sefydlu fframwaith ar gyfer gwerthuso effaith y rhaglen.^[Troednodyn 3]
- 1.10 Gwnaed y gwerthusiad mewn tri cham:
- Cam cwmpasu cychwynnol rhwng Awst a Rhagfyr 2022.
 - Cam interim a gynhaliwyd drwy gydol 2023 oedd â'r nod o roi gwybodaeth amserol a chadarn i Lywodraeth Cymru am y broses a'r nifer a fanteisiodd ar raglen TSC+ yn y flwyddyn gyntaf (2022/23) a'r ail flwyddyn (2023/24) er mwyn cefnogi'r gwaith parhaus o fireinio'r rhaglen wrth i'r ddarpariaeth fynd rhagddi.
 - Cam olaf y gwerthusiad (y cam hwn), wedi'i ddechrau yng ngwanwyn 2024, a oedd yn rhoi'r cyfle i ddadansoddi cyflawniadau a llwyddiant TSC+ dros gyfnod hwy o amser. Mae'r cam terfynol wedi rhoi modd cynnal dadansoddiad mwy trylwyr o deithiau cyfranogwyr a'r canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt, gan fod â mwy o bwyslais (o'i gymharu â'r camau blaenorol) ar ymgysylltiad cyfranogwyr.

[3] Mae asesiad o effaith TSC+ i'w gynnal yn ddiweddarach, fel rhan o gontract ar wahân.

1.11 Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- Mae **Pennod 2** yn nodi dull methodolegol y gwerthusiad ac yn pwysu a mesur y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn.
- Mae **Pennod 3** yn crynhoi'r cyd-destun polisi a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ar gyfer TSC+ a fersiynau blaenorol y rhaglen.
- Ym **Mhennod 4** ceir trosolwg o ddyluniad rhaglen TSC+, gan ystyried sut y'i gweithredwyd, ac yn manylu ar addasiadau a wnaed i'r model cyflenwi ym mis Ionawr 2023.
- Mae **Pennod 5** yn adolygu cynnydd a pherfformiad rhaglen TSC+ dros amser.
- Ym **Mhennod 6** ceir dadansoddiad o farn cyfranogwyr TSC+, rhanddeiliaid a chyflogwyr am y model cyflenwi.
- Dadansodda **Pennod 7** y canlyniadau a'r effeithiau yr adroddodd cyfranogwyr amdanynt a oedd yn deillio o'r cymorth.
- Mae **Pennod 8** yn crynhoi canfyddiadau cam hwn y gwerthusiad ac yn rhoi cyfres o argymhellion.

2. Dull methodolegol

- 2.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r dulliau a'r gweithgareddau ymchwil a gynhaliwyd yng ngham olaf y gwerthusiad. Yn ogystal, mae'n adfyfrio ar y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r dulliau a ddefnyddiwyd.

Dadansoddi dogfennau'r prosiect

- 2.2 Mae cam olaf y gwerthusiad wedi cynnwys adolygu amryw o ddogfennau, a hynny'n cynnwys achos busnes y rhaglen, asesiad effaith integredig, costau cynnal y rhaglen, ymchwil gysylltiedig a gyhoeddwyd ers cyhoeddi'r gwerthusiad interim, a fersiwn ddiweddaraf o fanyleb y rhaglen.

Cyfweliadau â rhanddeiliaid

- 2.3 Ar gyfer cam olaf y gwerthusiad, cynhaliwyd cyfweliadau â thri grŵp o rhanddeiliaid, sef:
- Staff Llywodraeth Cymru (n=10) a oedd wedi bod yn rhan o ddylunio, rheoli a monitro cytundebau'r rhaglen yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â pholisi cyflogadwyedd.
 - Cynrychiolwyr y Contractwyr a'r Is-contractwyr (n=31) sy'n ymwneud â rheoli a chynnal y rhaglen.
 - Cynrychiolwyr awdurdodau lleol — gan amlaf y rheiny sydd yn rôl y Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd (sydd fel arfer yn darparu arweinyddiaeth weithredol ar gyfer y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid^[Troednodyn 4] ar lefel awdurdod lleol). Cyfwelwyd cyfanswm o 29 o gynrychiolwyr awdurdodau lleol o 17 (o'r 22) ardal awdurdod lleol yng Nghymru, a gwahoddwyd pob awdurdod lleol i gymryd rhan.
- 2.4 Cynhaliwyd cyfweliadau yn rhithwir ac archwiliwyd dylanwad ac effaith yr asesiadau i'r model cyflenwi a'r cymorth amrywiol a gynigir trwy bob llinyn. Roedd y cyfweliadau wedi trafod strwythurau rheoli a llywodraethu'r rhaglen yn ogystal â theithiau pobl ifanc drwy'r rhaglen, gan gynnwys ystyried patrymau a thueddiadau sy'n gysylltiedig â rhwystrau i bobl ifanc a'r mathau o ganlyniadau y mae pobl ifanc yn eu cyflawni. Gellir gweld y canllawiau trafod ar gyfer yr holl gyfweliadau yn Atodiadau 2C i I.

Gwaith maes â chyfranogwyr

- 2.5 Yn rhan o gam olaf y gwerthusiad, cynhaliwyd dau arolwg gyda chyfranogwyr gan ddefnyddio manylion cyswllt cyfranogwyr a gafwyd (yn unol â phrotocolau GDPR) gan bedwar o'r pum Prif Contractwr. Dyma'r ddau arolwg:

[4] Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yn fecanwaith systematig i nodi ac ymateb i bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET, sydd yn NEET ac/neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae'r Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yn trefnu partneriaeth leol sy'n eu cynorthwyo i ystyried darlun cyffredinol y ddarpariaeth a sut y gallant gydweithio'n llwyddiannus i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn ardal eu hawdurdod lleol.

- 2.6 Arolwg **'craidd'** i gyfranogwyr presennol a'r rhai a gwblhaodd/'ymadawodd' TSC+ yn ddiweddar ac a oedd wedi cofrestru ar TSC+ rhwng 1 Hydref 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ac a arhosodd ar y rhaglen tan o leiaf 1 Mai 2024 (n=158).
- 2.7 Arolwg **'ar ôl chwe mis'** i gyfranogwyr a gofrestrodd ar TSC+ rhwng 1 Hydref 2023 a 1 Ebrill 2024 ac a oedd wedi gadael y rhaglen dros chwe mis yn ôl cyn cymryd rhan yn yr arolwg (sef gadael cyn 1 Mai 2024) (n=62).
- Arolwg craidd
- 2.8 Yn sgil y paramedrau a amlinellwyd uchod, cafwyd sampl gymwys a oedd yn gyfanswm o 2,419 o gysylltiadau. Tynnwyd 17 o gyfranogwyr o'r sampl gan fod eu cofnodion LLWR yn dangos bod ganddynt 'anawsterau dysgu dwys a lluosog' neu 'anawsterau dysgu difrifol', gan adael sampl gymwys o 2,402 o gysylltiadau.
- 2.9 Roedd y penderfyniad i dynnu'r 17 o bobl ifanc yr oedd data gwybodaeth reoli yn dangos bod ganddynt 'anawsterau dysgu dwys a lluosog' wedi digwydd yn sgil pwysu a mesur yn ofalus ystyriaethau moesegol, materion yn ymwneud â dilysrwydd ac ymarferoldeb yn erbyn yr awydd i gynnal ymchwil cynhwysol i sicrhau bod pob llais yn cael ei adlewyrchu. I'r rheiny ag anawsterau dysgu dwys a lluosog, teimlwyd ei bod yn amhriodol eu cynnwys yn yr ymchwil am sawl rheswm. Yn bennaf, roedd pryderon yn gysylltiedig â sicrhau mesurau diogelwch a chefnogaeth ddigonol ac effeithiolrwydd ymgysylltu â'r unigolion hyn dros y ffôn. Yn ogystal â'r ffaith fod amserlen dynn yn cyfyngu ar y gwaith maes, teimlwyd, ar y cyfan, mai'r peth gorau fyddai eu tynnu o'r sampl.
- 2.10 Cynhaliwyd yr arolwg craidd dros y ffôn yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2024. Yn nyluniad methodolegol gwreiddiol y gwerthusiad, cynigiwyd y byddai 150 o gyfranogwyr yn cael eu cynnwys drwy gydol y gwerthusiad cyfan (yn y gwaith maes interim a'r cam olaf ill dau). Trwy'r ymarfer cwmpasu ar gyfer y gwaith maes penderfynwyd y byddai dyblu maint y sampl yn ddefnyddiol i gynhyrchu corff tystiolaeth mwy o faint, ac felly, i gael tystiolaeth gadarnach ar gyfer dadansoddi ymateb yn ôl Prif Gontractwr.^[Troednodyn 5] Yn ogystal, yn sgil yr awydd i ddadansoddi ymatebion y cyfranogwyr yn erbyn sawl maes thematig (gan gynnwys hygyrchedd a chynhwysiant), cytunwyd y byddai angen rhoi hwb pellach i'r sampl darged. O ganlyniad, targedwyd 150 o gyfranogwyr fel rhan o'r gwerthusiad interim gyda 180 o gyfranogwyr pellach yn cael eu targedu yn y cam olaf hwn o'r gwerthusiad.
- 2.11 Crëwyd ffrâm sampl gymwys fel a ganlyn:
- Wedi'i haenu yn ôl Prif Gontractwr — sef cyfranogwyr ym mhedwar o'r pum Contractwr yn gymesur â'r proffiliau cyfredol (nid oedd Coleg Cambria wedi gallu darparu sampl ar gyfer yr arolwg [gweler cyfyngiadau ar y fethodoleg isod]). Cymhwyswyd cwota (gweler Tabl 2.1 dros y dudalen) i bob haen iad i sicrhau bod o leiaf pump o ymatebwyr o bob Prif Gontractwr. Sicrhawyd dim

[5] Y rhain oedd y prif Gontractwyr ym mhob un o'r pum rhanbarth a oedd yn goruchwyllo neu'n arwain y gwaith cyflawni drwy amrywiaeth o bartneriaid wedi'u his-gontractio ac a oedd yn gyfrifol am adrodd ar gyflawni TSC+ i Lywodraeth Cymru.

mwy na 68% o gyfranogwyr gweithredol (ar 31 Gorffennaf 2024) (dim dyddiad ymadael wedi'i gofnodi), gyda'r gweddill yn cael eu hystyried yn gyfranogwyr sydd wedi cwblhau (dyddiad gorffen wedi'i gofnodi ar eu cyfer ar ôl 1af Mai 2024, sy'n golygu, ym mis Hydref 2024, ei bod hi wedi bod yn llai na chwe mis ers iddynt adael y rhaglen).

- I'r rhai a oedd wedi cwblhau, aethpwyd ar ofyn tua 40% o gyfranogwyr lle mae'r canlyniad a gofnodwyd ar eu cyfer naill ai'n niwtral^[Troednodyn 6] neu'n negyddol^[Troednodyn 7] i adlewyrchu dosbarthiad cyfrannol y canlyniadau niwtral a negyddol ymhlith y rhai sydd wedi cwblhau dros y cyfnod cyflawni hwnnw.

2.12 Yna monitryd ymatebion yr arolwg i sicrhau bod yr ymatebion yn gynrychioliadol o broffil cyffredinol y cyfranogwyr, yn benodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyfran y cyfranogwyr oedd yn datgan bod ganddynt 'anabledd ac/neu anhawster dysgu'.
- Cyfran y cyfranogwyr a ddisgrifiai eu hethnigrwydd fel unrhyw beth heblaw 'gwyn'.

2.13 Ar ôl cymhwyso'r paramedrau hyn i boblogaeth y cyfranogwyr, roedd y sampl gymwys gyfan yn cynnwys 2,402 o gysylltiadau. Cysylltodd ein hymchwilydd â 1,222 o unigolion o'r sampl o 1,604 o alwadau a wnaed. Llwyddiant oedd ymgysylltu â chyfranogwyr dros y ffôn, gyda 158 o gyfranogwyr wedi'u cyfweld (7% o'r sampl gymwys), a hyn yn unol â'r targedau. Roedd dau ffactor pwysig wedi dylanwadu ar y diffyg yn erbyn y targed o 180:

- Peidio â gallu cael manylion cyswllt ar gyfer y rhai a gefnogir gan Goleg Cambria (yr oedd 14 o gyfranogwyr wedi'u dyrannu ar eu cyfer).
- Yr angen i ailddyrannu adnoddau gwaith maes i'r arolwg ar-ôl-chwe-mis i helpu i hybu cyfraddau ymateb i'r arolwg hwnnw (manyion pellach isod).

[6] Ceir canlyniad niwtral pan fo cyfranogwr wedi gadael i fynd i waith gwirfoddol, i ddysgu pellach ar lefel is neu ar yr un lefel ag y maent eisoes wedi'i chyflawni, cyflogaeth o lai nag 16 awr yr wythnos neu lle mae eu cyrchfan wedi'i ddosbarthu i fod yn "arall".

[7] Cofnodir canlyniad negyddol pan gofnodir bod unigolyn yn chwilio am waith/yn ddi-waith ar ôl gadael y rhaglen neu pan fo'r cyrchfan o fewn pedair wythnos i adael yn parhau i fod yn anhysbys.

- 2.14 Mae Tabl 2.1 isod yn dosbarthu'r ymatebion yn ôl Contractwr ac yn erbyn nodweddion pwysig eraill a lywiodd y ffrâm sampl. Mae'n dangos bod y dosbarthiad i raddau helaeth yn adlewyrchu targedau cytundebau. Roedd y prif amrywiad yn erbyn targedau yn ymwneud â chydbwysedd y cyfranogwyr a gofnodwyd fel rhai a gwblhaodd TSC+ o'i gymharu â'r rhai a oedd yn parhau i fod yn weithredol ar adeg yr ymgysylltu. Roedd y newid hwn yn rhannol yn adlewyrchu'r angen i flaenoriaethu'r arolwg ar-ôl-chwe-mis yng nghamau olaf y gwaith maes gan fod hyn erbyn hynny yn cael ei ystyried i fod y prif lwybr i archwilio canlyniadau ac effeithiau a godai yn sgil y gefnogaeth.
- 2.15 Roedd yr amrywiaeth yn statws cyfranogwyr o ran targedau rhaglen TSC+ yn ymwneud yn bennaf â'r ffaith ei fod yn ddangosydd anodd i fonitro perfformiad yn ei erbyn, gan nad oedd yn bosibl gwybod statws ymatebydd arolwg hyd nes y cysylltid â nhw. Roedd hyn yn debyg i darged cyfradd y canlyniadau cadarnhaol, gan nad oedd yn bosibl rhagweld cyn ymgysylltu beth oedd natur y canlyniadau a gyflawnwyd gan y cyfranogwyr hynny, heblaw am y rheiny a oedd wedi gadael y rhaglen rhwng 1^{af} Mai a 31^{ain} Gorffennaf.

Tabl 2.1: Ymatebion targed ac ymatebion wedi'u cwblhau yn erbyn newidynnau ffrâm sampl (arolwg craidd)

Categori	Cyfanswm targed	Wedi'u cwblhau
Contractwr		
ACT Training	85	80
GLIM	14	13
ITEC	53	50
Coleg Sir Benfro	14	15
Coleg Cambria	14	0
Cyfanswm	180	158
Statws (ar 31 Gorffennaf 2024)		
Wedi cwblhau TSC+	63	37
Yn dal yn weithredol ar TSC+	117	121
Canlyniadau		
Canlyniad cadarnhaol	60	43
Proffil cyfranogwyr		
Ddim yn wyn	25	13
Anabledd ac/neu anhawster dysgu	43	34

Ffynhonnell: yr arolwg chwe-mis-ar-ôl-gadael

- 2.16 Mae'r arolwg chwe-mis-ar-ôl-gadael yn arolwg cryno sy'n casglu ymatebion meintiol a chaeedig yn unig a'i nod oedd deall sefyllfaoedd cyfranogwyr o leiaf chwe mis ar ôl iddynt adael rhaglen TSC+.
- 2.17 Recriwtiodd Prime Cymru, ein partneriaid ar gontract y gwerthusiad, Grŵp Cyngori ar Ymchwil (RAG) oedd â phobl ifanc yn aelodau arno i adlewyrchu'r garfan cyfranogwyr er mwyn cynghori ar yr ymchwil. Argymhellodd y Grŵp y dylai ymgysylltiad ar ôl y rhaglen fod ar-lein, wedi'i anfon i ffonau symudol trwy neges destun (yn hytrach na thrwy e-bost) er mwyn cynorthwyo â chyfraddau ymateb. O ganlyniad, dosbarthwyd yr arolwg i bob un o'r 597 o gysylltiadau cyfranogwyr a oedd wedi cofrestru ar TSC+ rhwng 1 Hydref 2023 a 1 Ebrill 2024 ac a oedd wedi gadael y rhaglen dros chwe mis cyn hynny (sef gadael cyn 1 Mai 2024), gyda 590 o negeseuon atgoffa wedi'u hanfon drwy neges destun.^[Troednodyn 8] Gan mai cyfyngedig oedd y llwyddiant, treialwyd hefyd anfon yr arolwg drwy e-bost. Arweiniodd y cyfuniad o'r dulliau hyn at chwe ymateb (cyfradd ymateb o 1%).
- 2.18 Er mwyn helpu i gynyddu nifer yr ymatebion, cysylltwyd â chyfranogwyr dros y ffôn. O'r 583 o gysylltiadau oedd ar gael, cysylltodd ein hymchwilydd â 414 ohonynt (71%). Cynhaliodd y tîm 441 o alwadau ac roeddent wedi gallu sicrhau 56 o ymatebion ychwanegol (cyfradd ymateb o 8%). Cyfanswm y nifer o arolygon a gwblhawyd (gan gyfuno'r rhai a gynhaliwyd dros y ffôn â'r rhai a gynhaliwyd ar-lein) oedd 62 (10% o'r sampl gyfan).

Gwybodaeth reoli

- 2.19 Cafwyd gafael ar wybodaeth reoli ar gyfer y gwerthusiad o ddwy ffynhonnell: sef oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy set ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ac oddi wrth y Prif Gontractwyr.
- Set ddata LLWR
- 2.20 Roedd set ddata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) yn rhoi manylion 11,972 o gofrestriadau, yn ymwneud â 10,008 o gyfranogwyr unigryw, a oedd wedi ymuno â'r rhaglen rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024. Rhoddwyd y data mewn pedair set ddata wahanol, sef Dysgwr, Rhaglen Ddysgu, Gweithgaredd Dysgu a'r Dyfarniad.^[Troednodyn 9]
- Gwybodaeth reoli gan y Prif Gontractwyr
- 2.21 Ym mis Hydref 2024, rhoddodd pob un o'r Contractwyr wybodaeth reoli i Wavehill am gyfranogwyr y rhaglen mewn perthynas â chyfranogwyr a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen rhwng Ebrill 2022 (lansiad y rhaglen) a Gorffennaf 2024. Roedd y data a

[8] Nid oedd rhifau ffôn ar gael ar gyfer saith o'r cyfranogwyr.

[9] Mae set ddata'r Dysgwr (LN) yn cynnwys gwybodaeth am y dysgwr megis enw, dyddiad geni, tarddiad ethnig, a rhyw, mae set ddata'r Rhaglen Ddysgu (LP) yn rhoi gwybodaeth am y rhaglen ddysgu y mae'r dysgwr yn ei gwneud ac unrhyw nodweddion a all newid dros amser; mae set ddata'r Gweithgaredd Dysgu (LA) yn casglu data ar y gweithgareddau neu'r cyrsiau unigol y mae'r dysgwr yn eu gwneud ar eu rhaglen ddysgu, ac mae set ddata'r Dyfarniad (AW) yn rhoi gwybodaeth am y dyfarniadau y mae'r dysgwr wedi'u cofrestru ar eu cyfer a'r rhai a gyflawnwyd.

ddarparwyd yn ymwneud â'r holl gyfranogwyr a oedd wedi cofrestru ar y rhaglen ers ei lansio ym mis Ebrill 2022 ac fel rheol rhoddwyd y wybodaeth mewn dau set ddata.

- 2.22 Roedd un set ddata i raddau helaeth yn ategu'r hyn a gynigiwyd gan LLWR, sef manylion am gefndir demograffig, nodweddion gwarchodedig, a theithiau a chanlyniadau cyfranogwyr.
- 2.23 Roedd yr ail set ddata wedi casglu tystiolaeth yn gysylltiedig â chynlluniau dysgu unigol (CDU), gan roi cipolwg manwl ar y mathau o weithgaredd dysgu a wnaed a'r rhwystrau a nodwyd i gyfranogwyr.
- 2.24 Mae'r dadansoddi a wnaed ar wybodaeth fonitro ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnig manylion ychwanegol i'r hyn a gyflwynwyd mewn data cyhoeddedig ar berfformiad. Mae'n cynnig manylder ychwanegol mewn perthynas â phatrymau ymgysylltu daearyddol yn ogystal â pherfformiad dros amser ac mae'n defnyddio data mwy diweddar na'r datganiad ystadegol diweddaraf (data perfformiad cyhoeddedig) sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hwn (hyd at fis Gorffennaf 2024 o'i gymharu â diwedd mis Mawrth 2024). Ar gyfer y rhan fwyaf o'r adrodd, mae canrannau wedi'u talgrynnu i'r rhif cyfan agosaf. Mae natur y data a gasglwyd trwy wybodaeth reoli hefyd wedi bod yn sail i ddyluniad y fframwaith drafft ar effaith ar gyfer TSC+. ^[Troednodyn10]

Cyfngiadau methodolegol

Grŵp Cynghori ar Ymchwil

- 2.25 Yng ngham interim y gwerthusiad, cymerodd y Grŵp Cynghori ar Ymchwil ran mewn nifer o weithdai a oedd yn ymdrin â'r materion canlynol:
- Sylwadau ar ba mor berthnasol a phriodol oedd marchnata Llywodraeth Cymru ar raglen TSC+, gan gynnwys y wefan a chynnwys fideo.
 - Adolygiad o amserlenni cyfweld cyfranogwyr i gynghori ar eirio ac amcanion cwestiynau wedi'u diwygio, gan arwain at fireinio'r arolygon a ddefnyddir yn y gwaith maes.
 - Sylwadau ar brofiad pobl ifanc o'r farchnad lafur a'r cyfleoedd swyddi sydd ar gael.
 - Adolygiad a sylwadau ar y canfyddiadau yn codi o'r cyfweiliadau â'r cyfranogwyr er mwyn cefnogi dadansoddi a dehongli'r canfyddiadau.
- 2.26 Arweiniodd y rhain at rai newidiadau i'r offer ymchwil a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad yn dilyn sylwadau ar eiriad y cwestiynau neu ba mor berthnasol oedd yr opsiynau ymateb i bobl ifanc sy'n debygol o fod yn ymgysylltu â'r rhaglen. Cyfeiriwyd y sylwadau a gafwyd ar farchnata'r rhaglen at staff Llywodraeth Cymru,

[10] Wavehill (2025) Fframwaith effaith- Gwerthusiad ffurfiannol o Jwf Swyddi Cymru Plws, Llywodraeth Cymru (aethpwyd iddo: 17 June 2025)

gan sôn am adborth cadarnhaol ar y cynnwys yn ogystal ag awgrymiadau ynghylch defnyddio opsiynau fideo amgen ar gyfer marchnata yn y dyfodol.

2.27 Ar gyfer cam olaf y gwerthusiad, cynigiwyd y byddai'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil (RAG) yn cynnal gweithgaredd ymchwil â'u cyfoedion fel rhan o'r gwerthusiad. Wrth wneud hynny, byddai hyn yn meithrin eu sgiliau a'u dealltwriaeth o ymchwil wrth weithio gyda'u cyfoedion. Ar ôl adfyfrio, teimlwyd bod y dull hwn yn esgor ar ormod o risgiau i'r gwerthusiad oherwydd:

- Natur fregus y grŵp cyfranogwyr, o ran eu hanghenion a'u hoedran.
- Pryderon ynghylch diogelu, o ystyried natur sensitif y cwestiynau a ofynnir a'r risg y gallai datgelu gwybodaeth benodol olygu bod angen camau dilynol at ddibenion diogelu yn ogystal â chyfeirio at gymorth ar ôl cymryd rhan.
- O bosibl byddai'r hyfforddiant a'r gofynion ar aelodau'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil mewn cyfnod byr o amser, ar ben cynnal yr ymchwil ei hun, yn peri risg o orlwytho'r Grŵp, nad oedd wedi ymrwymo i gymryd rhan i'r fath raddau.
- Materion cyfreithiol a moesegol yn gysylltiedig â chytundebau rhannu data, trefniadau cytundebol, a chyfrinachedd.
- Risgiau yn ymwneud â dilysrwydd data, gan nad yw safon y cyfweiliadau yn debygol o fodloni safonau cyfwelwyr cymwys ac, felly, byddai ei ddefnyddioldeb yn gyfyngedig.

2.28 Wedi myfyrio ar y risgiau hyn, ac ar y gwerth ychwanegol cyfyngedig y gellid ei gael drwy'r Grŵp Cyngori ar Ymchwil yn y cam olaf (nid oedd unrhyw farchnata pellach wedi'i gynllunio, roedd offer ymchwil eisoes wedi'u cynllunio i raddau helaeth, ac er bod y Grŵp yn adlewyrchu demograffeg cyfranogwyr TSC+, nid oeddent yn adlewyrchu sefyllfa cyfranogwyr TSC+ mewn perthynas â theithiau trwy addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth), cytunwyd yn y pen draw na fyddai unrhyw waith pellach yn cael ei wneud gyda'r Grŵp ar gyfer cam olaf y gwerthusiad.

Proffiliau'r cyfranogwyr

2.29 Rhannodd pedwar o'r pum Prif Contractwr yr holl fanylion cyswllt ar gyfer eu cyfranogwyr ar y rhaglen (o fewn yr amserlenni cofrestru cymwys a amlinellwyd yn gynharach). Fodd bynnag, nid oedd un Contractwr (Coleg Cambria) wedi gallu rhannu manylion cyswllt, gan olygu cynrychiolaeth is i adborth cyfranogwyr gan y rhai sy'n byw yn y Gogledd Ddwyrain a dim cynrychiolaeth gan y rhai a gefnogir gan Goleg Cambria.

Ymgysylltiad awdurdodau lleol

2.30 Nid yw pob awdurdod lleol wedi ymwneud â'r gwerthusiad, gan arwain at fylchau daearyddol ym marn awdurdodau lleol am y rhaglen yn yr ardaloedd canlynol: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Casnewydd, Powys, a Rhondda Cynon Taf. Dylid nodi, ar wahân i Rhondda Cynon Taf, nad yw'r awdurdodau lleol hyn wedi ymgysylltu yn y naill gam na'r llall o werthusiad TSC+, gan arwain at fethu cael safbwyntiau allanol mewn rhai ardaloedd daearyddol yng Nghymru ar gyfer y gwerthusiad cyfan.

Gwybodaeth reoli

- 2.31 Nid yw gwybodaeth reoli sy'n gysylltiedig â chynlluniau dysgu unigol yn cael ei chadw mewn modd cyson gan ddarparwyr dan gontract ac fe'u cesglir mewn amrywiol ffyrdd gan ddefnyddio terminoleg sy'n benodol i'r Contractwr. I rai Contractwyr, mae'r wybodaeth yn cael ei chipio ar ffurf ansoddol, naratif ac yn cael ei chadw y tu allan i'w system gwybodaeth reoli TSC+. Llwyddodd tri o'r pum Contractwr i rannu gwybodaeth gynhwysfawr yn ymwneud â'r rhain, gan fod yn sail i'n hasesiad o gymhlethdod yr anghenion ymhlith cyfranogwyr TSC+. Dylid cydnabod, fodd bynnag, fod yr asesiad hwn yn gyfyngedig o ran pa mor gynhwysfawr ydyw, gan ei fod cynrychioli 30% o gyfranogwyr TSC+.

Rhagfarn yr arolwg

- 2.32 Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon mewn perthynas â'r arolwg craidd ac fel y dangosir yn Nhabl 2.2 isod, roedd cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg craidd yn llai tebygol o fod wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol nag yr adroddwyd yn y data perfformiad cenedlaethol ar gyfer y garfan gymwys. Mae'r dadansoddiad a gyflwynir yn adrannau 6 a 7 yr adroddiad yn dangos patrwm tebyg ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-ôl-chwe-mis. Gall hyn arwain at ragfarn negyddol yn yr adborth a geir gan gyfranogwyr, yn enwedig o ran ychwanegedd canfyddedig y gefnogaeth.

Tabl 2.2: Cyfraddau canlyniadau cadarnhaol yn ôl ffynhonnell ddata

Ffynhonnell	Canran canlyniad cadarnhaol
Perfformiad TSC+ (Ebrill 2023 i Mawrth 2024)	60.1%
Ymatebwyr arolwg craidd y gwerthusiad	42.4%
Ymatebwyr arolwg ar-ôl-chwe-mis y gwerthusiad	47.2%

3. Cyd-destun polisi

Cyflwyniad

- 3.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi'r cyd-destun polisi a'r cyd-destun economaidd-gymdeithasol ar gyfer TSC+ a fersiynau blaenorol y rhaglen.

Cyd-destun polisi

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (TPAP) a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPF)

- 3.2 Yn y cyfnod cyn rhaglen gyntaf Twf Swyddi Cymru, roedd Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012–16) Llywodraeth Cymru wedi nodi tri amcan allweddol, sef: atal tldi, helpu pobl i wella eu sgiliau a'u cymwysterau, a lliniaru effaith tldi. Rhan allweddol o'r cynllun hwnnw oedd ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Yn fuan ar ôl lansio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun gweithredu ar gyfer Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid (YEPF). Roedd y fframwaith yn nodi dull newydd o gefnogi pobl ifanc (11 i 18 oed) sydd yn NEET neu sydd mewn perygl o ddod yn NEET, a cheisiodd ymateb i bryderon eang bod diffyg cydgysylltu rhwng gwasanaethau ar gyfer y grŵp targed hwn neu eu bod yn methu â rhoi anghenion pobl ifanc yn gyntaf. Roedd chwe elfen allweddol i'r fframwaith:

- nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio
- gwell broceriaeth a chydgyssylltu o ran cymorth
- prosesau olrhain a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc
- sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc
- atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth
- gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.

- 3.3 Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid oedd y prif elfennau sylfaenol a oedd yn sail i gyflenwi'r rhaglenni Hyfforddeiaethau a dau iteriad blaenorol Twf Swyddi Cymru (a TSC+ wedi pwysu'n helaeth arnynt). Dylanwadodd cefndir dirwasgiad y DU 2008–2009 ar gynllun rhaglen wreiddiol TSC hefyd, a thystiolaeth wedi dangos bod y dirwasgiad (a'r effeithiau cysylltiedig) wedi cael effaith anghymesur ar bobl ifanc o gymharu â grwpiau oedran eraill, ac erbyn 2012 roedd bron i chwarter o'r rheiny rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith.^[Troednodyn 11]

[11] Ipsos MORI, Wavehill & Wiserd (2016) Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru – Adroddiad Terfynol, Llywodraeth Cymru (aethpwyd iddo: 1 Rhagfyr 2024).

- 3.4 Yn 2017 cyflwynodd y strategaeth genedlaethol Ffyniant i Bawb y nod i adeiladu Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, unedig a chysylltiedig. Roedd y strategaeth Ffyniant i Bawb yn nodi cyfres o gamau gweithredu sy'n sail i'r thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu, gan gynnwys "datblygu cynllun cyflogadwyedd newydd i Gymru gan ganolbwyntio ar yr anghenion amrywiol sydd gan unigolion, ac ymateb i'r anghenion penodol sydd gan bob rhan o'r wlad o ran sgiliau."
- 3.5 Amlinellodd Cynllun Cyflogadwyedd 2018 sut roedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu cymorth cyflogadwyedd mewn ffordd ddoeth a chydgyssylltiedig drwy'r canlynol:
- Dull sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn.
 - Pwysleisio cyfrifoldeb cyflogwyr i uwchsgilio eu gweithwyr, cefnogi eu staff a darparu gwaith teg.
 - Ymateb i'r bylchau presennol o ran sgiliau a'r bylchau a ragwelir.
 - Paratoi ar gyfer newid sylfaenol ym myd gwaith.

COVID-19

- 3.6 Ar 23 Mawrth 2020, mewn ymateb i bandemig COVID-19, cafodd y cyhoedd ym Mhrydain gyfarwyddyd gan y Prif Weinidog i aros gartref heblaw at ddibenion penodol. Dros y cyfnod dilynol o 15 mis, gweithredwyd cyfyngiadau ar symud a phellter cymdeithasol, er bod y rheoliadau'n amrywio ar gyfnodau gwahanol ac yn y gwahanol wledydd datganoledig.
- 3.7 Cyhoeddwyd tystiolaeth o effeithiau negyddol y pandemig gan lechyd Cyhoeddus Cymru yn eu hadroddiad lechyd Cyhoeddus Cymru (2022) 'Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir: Dull Asesu Effaith Lles Meddyliol'. Roedd hwn wedi tynnu sylw at y gydnabyddiaeth y bydd effeithiau negyddol COVID-19 ar ieuchyd corfforol ac ieuchyd meddwl yn cael effaith fwy parhaol, yn enwedig ar bobl ifanc a'r rhai mewn cyflogaeth ansicr ac ar gyflog isel.
- 3.8 Mae'r Cynllun Adnewyddu a Diwygio Ôl-16 a Phontio (2023) yn nodi'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gyda darparwyr addysg ôl-16 i gefnogi dysgwyr y tu hwnt i bandemig COVID-19 fel rhan o'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio: sef cefnogi lles a dilyniant dysgwyr. Amlinella'r cynllun hwn y dull a ddefnyddia'r Llywodraeth dros y tair blynedd nesaf i lunio a gweithredu cymorth. Mewn cydweithrediad â'r prosiect Dysgwyr sy'n Agored i Niwed ac o Dan Anfantaïs, bydd y cynllun pontio yn helpu'r grwpiau hynny a oedd eisoes dan anfantaïs ond a gafodd eu heffeithio'n anghymesur ymhellach yn sgil y tarfu ar addysg a hyfforddiant ôl-16 oherwydd COVID-19. Arweiniodd y cynllun at addasiadau i fodel cyflawni TSC+ a archwilir ymhellach yn adran 4.

Gwarant i Bobl Ifanc

- 3.9 Yn y Cynllun Cyflogadwyedd ym mis Mawrth 2022 nododd Llywodraeth Cymru y byddai TSC+ yn fecanwaith allweddol ar gyfer gwireddu'r Warant i Bobl Ifanc (YPG) yn ogystal â chyflawni'r Garreg Ffilltir Genedlaethol berthnasol.^[Troednodyn 12]
- 3.10 Y Warant i Bobl Ifanc yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru y gall pawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru gael lle mewn addysg neu hyfforddiant a chymorth i gael gwaith neu ddod yn hunangyflogedig. Ei nod yw lleddfu'r pontio anodd i'r farchnad lafur y gall pobl ifanc eu hwynebu yn dilyn pandemig COVID-19, gan fod hwnnw wedi effeithio ar addysg, sgiliau ac iechyd a llesiant pobl ifanc.
- 3.11 Mae hefyd yn ceisio creu model a llwybr cyflogadwyedd clir, syml a chynaliadwy ar gyfer pobl ifanc Cymru yn y blynyddoedd i ddod er mwyn sicrhau economi decach a mwy cynhwysol i bawb. Mae dulliau cymorth cyflogadwyedd ochr yn ochr â TSC+ yn cynnwys:
- adnoddau ar wefan Gyrfa Cymru
 - pwynt mynediad diduedd drwy Cymru'n Gweithio
 - olrhain/adrodd i'r rheiny sy'n defnyddio'r Warant trwy Cymru'n Gweithio
 - cymorth i ddod o hyd i brentisiaeth
 - rhaglenni cyflogadwyedd cymunedol (gan gynnwys Cymunedau am Waith a Mwy)
 - cymorth â hunangyflogaeth — Busnes Cymru/Syniadau Mawr Cymru
 - rhaglenni partner, gan gynnwys rhai gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ac awdurdodau lleol
 - Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cynnal gweithgaredd penodol sy'n cefnogi sgiliau pobl ifanc yn ogystal â mynediad i addysg a chyflogaeth.^[Troednodyn 13]
- 3.12 Cyhoeddwyd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid diwygiedig ym mis Medi 2022 a'r fframwaith wedi'i gryfhau gyda'r nod o sicrhau:
- bod rhagor o bobl ifanc yn symud ymlaen i gyrchfan sy'n iawn iddynt hwy ar ôl gadael yr ysgol, boed hynny i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

[12] Mae hwn yn cyfeirio at Garreg Ffilltir 22, sef bod o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050. Gweler Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru [HTML] | LLYW.CYMRU i gael rhagor o wybodaeth am y cerrig milltir a'u cyd-destun.

[13] Mae hyn yn cynnwys creu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Penodol i Bobl Ifanc; datblygu Mapiau Ffordd Sgiliau/Canllawiau Llwybrau Dysgwyr; sut i ganfod Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaoedd; cronfeydd data Profiad Gwaith; cynnal uwchgynadleddau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc; a chysylltu ysgolion a cholegau a chynnal sesiynau ymgysylltu amrywiol gyda phobl ifanc ar eu profiadau bywyd.

- bod pobl ifanc yn cael eu hatal rhag dod yn ddigartref
- bod gan bobl ifanc iechyd meddwl a lles emosiynol cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd sy'n ystyrlon iddynt hwy, a lle maent yn teimlo eu bod ar y llwybr cywir.

Cyd-destun strategol

- 3.13 Ceir cyd-destun strategol allweddol pellach ar gyfer y gwerthusiad yn Rhaglen Lywodraethu 2021–2026 ac yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 3.14 Mae Rhaglen Lywodraethu 2021–2026: diweddariad yn cynnwys yr ymrwymiad i ddarparu swyddi da, sgiliau perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi newydd. Mae'r diweddariad yn nodi tair carreg filltir cyflogadwyedd^[Troednodyn 14] i'w cyflawni erbyn 2050:
- cael o leiaf 90% o'r rhai 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant .
 - dileu'r bwlch rhwng cyfradd gyflogaeth Cymru a chyfradd y DU, gan ganolbwyntio ar waith teg a chynyddu nifer y bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol sydd yn y farchnad lafur; a
 - dileu'r bwlch cyflog o ran rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.
- 3.15 Mae'r rhaglen hefyd yn cyd-fynd â'r saith nod llesiant cenedlaethol a rennir a ddeddfwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Un o'r saith nod hyn yw Cymru Lewyrchus (sy'n anelu at ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith gweddus). Felly, bydd yn bwysig i'r gwerthusiad asesu'r aliniad strategol hwn a chyfraniadau'r rhaglen i'r nodau hyn.
- 3.16 Mae Cymru Can yn nodi strategaeth ar gyfer 2023–2030 a'r weledigaeth hirdymor, sef bod Cymru yn lle gwell i fyw ynddi a bod ganddi ddyfodol disglair ac optimistaidd – yn ffyniannus, yn gynhwysol ac yn wyrdd. Wrth gyflawni'r weledigaeth hon mae pum gweledigaeth gan gynnwys creu economi llesiant sy'n rhoi pobl a'r blaned yn gyntaf.
- 3.17 Disgwylir y bydd TSC+ yn creu amodau ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg ac, felly, yn cyd-fynd â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, sef Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr. Nod graidd yn y strategaeth yw "datblygu darpariaeth addysg ôl-orfodol sy'n cynyddu cyfraddau dilyniant ac yn cefnogi pawb, ni waeth pa mor rhugl eu Cymraeg, i ddatblygu sgiliau yn yr iaith i'w defnyddio'n gymdeithasol ac yn y gweithle" (Cymraeg 2050: 32).
- 3.18 Mae'n nodi tair thema strategol ar gyfer gwireddu'r weledigaeth a nodir yn y strategaeth, sef:

[14] Gweler Dangosyddion cenedlaethol a cherrig milltir cenedlaethol i Gymru i gael rhagor o fanylion am y cerrig milltir a'u cyd-destun.

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg (gan gynnwys yn y gweithle).
- Creu amodau ffafriol — isadeiledd a chyd-destun (gan gynnwys cymuned ac economi).

- 3.19 Roedd Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) i Gymru wedi amlinellu nifer o nodau cyflogadwyedd i'w cwblhau erbyn Ebrill 2023 mewn perthynas â gwell hygyrchedd, gwell canlyniadau i grwpiau lleiafrifoedd ethnig, a chynnig amgylchedd diogel, cadarnhaol a chynhwysol i'r holl staff a myfyrwyr, lle eir i'r afael ag aflonyddu hiliol a gwahaniaethu.
- 3.20 Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ARWAP) yn nodi gweledigaeth o "Gymru sy'n wrth-hiliaeth" erbyn 2030, gan adeiladu ar Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol (REAP) ac mae'n anelu at wneud newid mesuradwy i fywydau pobl o leiafrifoedd ethnig drwy fynd i'r afael â hiliaeth. Canolbwyntia'r cynllun ar chwe maes lle mae pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn profi hiliaeth, sef bywyd bob dydd, darpariaeth gwasanaethau, y gweithle, swyddi a chyfleoedd, diffyg modelau rôl gweladwy mewn safleoedd o rym, a bod yn ffoadur neu'n geisiwr lloches. O ran cyflogadwyedd a sgiliau, cydnabu'r cynllun yr angen i gymryd camau pellach i fynd i'r afael â hiliaeth strwythurol a systemig sy'n atal pobl rhag cael mynediad at y rhagolygon sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n bodoli yng Nghymru.
- 3.21 Mae'r ymdrechion hyn tuag at gydraddoldeb a chynhwysiant yn cael eu hatgyfnerthu ymhellach gan ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i Fodel Cymdeithasol o Anabledd ar draws polisiau a darpariaeth gwasanaethau drwy fynd i'r afael â'r rhwystrau i bobl anabl rhag cael mynediad i'w rhaglenni cyflogadwyedd a chymryd rhan ynddynt.
- 3.22 Mae anabledd yn nhermau model cymdeithasol yn canolbwyntio'n ehangach ar yr anghydraddoldeb, anfantais, dadrymuso neu wahaniaethu y gall pobl ag amhariadau eu profi oherwydd rhwystrau i fynediad a chynhwysiant ond sydd yn wahanol i'w hamhariad. Os caiff y rhwystrau eu dileu, yna caiff yr anabledd ei ddileu.
- 3.23 Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19, sy'n ymchwilio i effaith COVID-19 ar bobl anabl yng Nghymru ac yn galw am weithredu ar unwaith i ailddatgan yr ymrwymiad i Fodel Cymdeithasol o Anabledd.
- 3.24 Ym mis Mai 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026, a oedd yn amlinellu agenda strategol i ddatblygu a gweithredu polisi anabledd dysgu ar gyfer tymor y llywodraeth hyd at 2026. Mae'n cynnwys ymrwymïadau penodol ynghylch addysg, cyflogaeth a sgiliau,^[Troednodyn 15] gan geisio sicrhau mynediad i bobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol at

[15] Gweler Themâu Allweddol 5 a 6 yng Nghynllun Gweithredu Strategol Anabledd Dysgu 2022 i 2026 [\[HTML\]](#) | [LLYW.CYMRU](#).

wasanaethau a chymorth, a hynny'n cynnwys prentisiaethau â chymorth fel rhan o fecanwaith ar gyfer cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anabledd dysgu.

Tueddiadau yn nifer y bobl ifanc sy'n NEET

3.25 Defnyddir tair prif ffynhonnell ddata i ddeall nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru, sef:

- Cyfres datganiadau ystadegol cyntaf (SFR).
- Cyfres yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS).
- Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru.

3.26 Ystyria Llywodraeth Cymru mai cyfres SFR sy'n rhoi'r amcangyfrifon mwyaf cadarn o bobl ifanc NEET.^[Troednodyn 16] Mae'r amcangyfrifon a gyhoeddir yn yr SFR yn fesur o gyfran y bobl ifanc NEET ar ddiwedd y flwyddyn galendr ac maent yn deillio o gyfuno ystod o ffynonellau:

- Cyfrifiadau cofrestriadau ysgol ar gyfer:
 - ysgolion a chweched dosbarth o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) (Llywodraeth Cymru).
 - colegau addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith o Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) (Llywodraeth Cymru).
 - addysg uwch o Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Brifysgol Agored.^[Troednodyn 17]
- Amcangyfrifon poblogaeth ar ddiwedd y flwyddyn galendr (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a Llywodraeth Cymru).
- Yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a ddefnyddir i amcangyfrif statws marchnad lafur y rheiny sydd mewn addysg llawn amser, statws y farchnad lafur y rhai mewn addysg ran-amser, cyflogaeth llawn amser a rhan-amser y rhai mewn dysgu seiliedig ar waith sy'n cael eu cyflogi, a hyfforddiant 'i ffwrdd o'r gwaith' a noddir gan gyflogwyr i'r rhai mewn cyflogaeth.

Data cyfres Datganiadau Ystadegol Cyntaf (SFR)

3.27 Mae Ffigur 3.1 isod yn cyflwyno dadansoddiad o ddata cyfres yr SFR dros amser (ers 2010) ac mae'n dangos, er gwaethaf cynnydd sydyn (anomaledd) yn 2021, bod cyfran y dynion 16 i 18 oed sy'n NEET wedi gostwng yn raddol dros amser o 14.4 y cant yn 2011 i 10.8 y cant yn 2022 (er bod cynnydd dilynol yn ôl i 13.6%, yn seiliedig ar ddata dros dro yn 2023).


3.28 Ymhlith menywod, roedd cyfraddau'r rheiny sy'n 16 i 18 oed ac yn NEET yn dilyn yr un duedd â dynion rhwng 2011 a 2016 ond wedyn yn cynyddu rhwng 2016 a 2022 o

[16] Gweler Deall y gwahanol ffynonellau ystadegau ar bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yng Nghymru i gael rhagor o fanylion.

[17] Ibid.

8.2% i 13.9%. Yna bu gostyngiad sylweddol yn seiliedig ar ddata dros dro ar gyfer 2023 i 6.2%. O ran newid mewn niferoedd, mae hyn yn cyfateb i oddeutu 7,200 o fenywod 16 i 18 oed a oedd yn NEET yng Nghymru yn 2022 o'i gymharu â 4,200 yn 2016 (cynnydd o 3,000). Fodd bynnag, mae'r data dros dro ar gyfer 2023 yn awgrymu bod 3,300 o fenywod 16 i 18 oed yn NEET. Mae hyn yn awgrymu gostyngiad dros dro o 3,900 o fenywod 16 i 18 oed sy'n NEET mewn dim ond un flwyddyn (rhwng 2022 a 2023). Ar draws y ddau ryw, amcangyfrifir bod 11,000 (yn seiliedig ar ddata dros dro) o bobl ifanc 16 i 18 oed yn NEET yn 2023, sydd ychydig yn uwch na'r isafswm o 10,600 a gafwyd yn 2017.


Ffigur 3.1: Amcangyfrif o ganran y bobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, 2010 i 2023



Ffynhonnell: data'r SFR yn deillio o Amcangyfrifon Canol Blwyddyn ONS o'r Boblogaeth a'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth (APS), dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Gyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (PLASC) a data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR)

3.29 Mae Ffigur 3.2 isod yn cyflwyno dadansoddiad o dueddiadau ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET, wedi'u dadansoddi yn ôl a ydynt yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar (ac eithrio'r rheiny sy'n economaidd anweithgar oherwydd eu bod yn fyfyrwyr). Dengys y dadansoddiad hwn fod cyfraddau NEET cyfunol wedi gostwng o fwy nag un o bob saith (14.1%) o'r holl bobl ifanc 16 i 18 oed a oedd yn NEET yn 2021 i un o bob 10 (10.1%) yn NEET yn 2023. Gostyngiad yng nghyfraddau anweithgarwch economaidd (o 9.7% i 4.9%) dros y cyfnod hwnnw a ysgogodd y gostyngiad cyffredinol hwn yng nghyfraddau NEET, gyda chyfraddau diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn amrywio, ond ni welwyd unrhyw dueddiadau clir dros yr un amserlen.

Ffigur 3.2: Cyfraddau NEET yn ôl diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16 i 18 oed yng Nghymru, 2010 i 2023




Ffynhonnell: Pobl 16 i 18 oed a amcangyfrifir gan gyfres yr SFR nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran

- 3.30 Mae Ffigurau 3.2a a 3.2b yn cyflwyno'r proffiliau yn ôl rhyw. Maent yn dangos sut y bu gostyngiad cyson ymhlith dynion yn y gyfran ohonynt sy'n ddi-waith o bron i 9.7% yn 2011 i 2.7% yn 2020. Ers hynny cododd cyfraddau diweithdra ILO i 8.1% yn 2023. I'r gwrthwyneb, cynyddodd anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) yn raddol o 4.7% yn 2011 i 8.4% yn 2020 cyn syrthio i 5.5% yn 2023. Ymhlith menywod, er bod cyfraddau NEET wedi gostwng yn gyffredinol rhwng 2011 a 2016, cafwyd cynnydd cyson mewn cyfraddau NEET gan godi o 8.1% yn 2016 i 13.0% yn 2020. Dylanwadwyd ar y cynnydd hwnnw'n bennaf (mewn modd tebyg i gynnydd dynion dros y cyfnod hwnnw) gan anweithgarwch economaidd. Mae gostyngiad amlwg mewn anweithgarwch economaidd yn amlwg yn nata 2023, wrth i gyfraddau ostwng bron i ddwy ran o dair o 12.3% yn 2022 i 4.2%, yn seiliedig ar ddata dros dro, ar gyfer 2023.
- 3.31 Gyda'i gilydd, mae'r siartiau hyn yn dangos bod anweithgarwch economaidd (ac eithrio'r rhai sy'n fyfyrwyr) yn gynyddol gyffredin ymysg dynion a menywod rhwng 16 ac 18 oed ers 2011. Mae cyflyrau iechyd hirdymor gan gynnwys iechyd meddwl gwael yn achos cynyddol dros yr anweithgarwch hwn ymhlith y grŵp oedran hwn. [Troednodyn 18] Mae data dros dro, fodd bynnag, yn awgrymu gostyngiadau amlwg mewn anweithgarwch economaidd ar draws y ddau ryw yn 2023.

[18] Gweler gwaith a wnaed gan Sefydliad Resolution sy'n tynnu sylw at gynnydd yn lefelau iechyd meddwl gwael ymysg pobl 16–24 oed ([We've only just begun • Resolution Foundation](#)) yn ogystal â diweddariadau ar y farchnad lafur gan y Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth ([Labour Market Briefing March 2024](#)).

Ffigur 3.3a a b: Cyfraddau NEET yn ôl diweithdra ac anweithgarwch economaidd (ac eithrio myfyrwyr) ymhlith pobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru yn ôl rhyw, 2010 i 2023



Ffynhonnell: Amcangyfrifiad yr SFR o bobl 16 i 18 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran

Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth


- 3.32 Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) yn arolwg parhaus ar aelwydydd ledled y DU ac, felly, mae'n rhoi modd cymharu cyfraddau diweithdra / anweithgarwch economaidd yn erbyn y gwledydd cartref eraill. Cafwyd heriau â chyfraddau ymateb sy'n gysylltiedig â'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (ac, yn fwy penodol, yr Arolwg o'r Llafurlu). Dros y blynyddoedd diwethaf, bu gostyngiad yng nghyfraddau ymateb yr APS ac nid yw'r arolwg wedi'i ailbwysoli i'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf.^[Troednodyn 19] O ganlyniad, ym mis Hydref 2024, bu i'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR) ohirio dros dro statws yr APS fel 'ystadegyn swyddogol achrededig' a'i ail-ddynodi'n 'ystadegyn swyddogol'. Er bod yr ystadegau hyn yn dal yn briodol i'w defnyddio, mae mwy o ansicrwydd ynghylch amcangyfrifon sy'n deillio o'r arolwg hwn, yn enwedig wrth ystyried daearyddiaethau llai neu is-grwpiau yn y boblogaeth.^[Troednodyn 20]
- 3.33 Mae Ffigur 3.4 isod yn cymharu'r gyfradd ddiweithdra ar gyfer pobl 16 i 19 oed yng Nghymru a Lloegr dros amser. Mae diweithdra yn ymwneud â'r rhai nad ydynt mewn gwaith ond sy'n chwilio am waith. Gwelwyd tueddiadau tebyg yn y ddwy wlad, sef gostyngiadau cyson yn y cyfraddau diweithdra ymhlith y grŵp oedran targed hyd at fis Rhagfyr 2023. Yn y data diweddaraf, fodd bynnag, mae arwyddion clir o ostyngiad mwy sylweddol yn y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru, tra bod

[19] Yn wreiddiol, pwysolwyd ymatebion yr APS i ragolygon poblogaeth yn seiliedig ar 2018, gan adlewyrchu tueddiadau cyn y pandemig. Er mwyn ystyried newidiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, ailbwysoliodd yr ONS ddata APS ar 9 Medi 2021 gan ddefnyddio cyfraddau twf gwybodaeth amser real (RTI) CThEM. Mae'r addasiad hwn, a gymhwyswyd o'r flwyddyn yn dod i ben ym mis Mawrth 2020 ymlaen, yn gwella amcangyfrifon cyfraddau a lefelau wrth leihau rhagfarn mewn crynhoadau lefel uchel.

[20] Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn [OSR's statement on the Labour Force Survey-derived estimates and Annual Population Survey-derived estimates](#).

Lloegr wedi gweld cynnydd. Er bod rhaid trin data'r APS yn ofalus, mae gwahaniaeth i'w weld yn y tueddiadau ar gyfer yr un garfan yn Lloegr.

Ffigur 3.4: Cymharu cyfraddau diweithdra ymhlith pobl 16 i 19 oed yng Nghymru a Lloegr, Ebrill 2019 i Medi 2024




Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

- 3.34 Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd ar gael ar gyfer y garfan oedran 16 i 18 oed (yn benodol pan fo'n eithrio'r rheiny sy'n economaidd anweithgar oherwydd eu bod yn fyfyrwyr) hyd at 2022. Mae anweithgarwch economaidd yn ymwneud â'r rheiny nad ydynt mewn gwaith ond nad ydynt yn chwilio am waith (gall gynnwys myfyrwyr, ond maent wedi'u heithrio o'r dadansoddiad hwn oherwydd nad yw'r rheiny sydd mewn addysg ar adeg cofrestru yn gymwys ar gyfer TSC+).^[Troednodyn 21] Gellir categorïddio cyfranogwyr TSC+ fel rhai economaidd anweithgar neu ddi-waith yn dibynnu ar linynt TSC+ a'u statws chwilio am waith.
- 3.35 Fel y nodwyd uchod, mae'r gostyngiad yn y cyfraddau ymateb i'r Arolwg Blynyddol o Boblogaeth wedi golygu y dylid bod yn ofalus wrth drin amcangyfrifon mwy diweddar (o chwarter 1, 2022). Mae Ffigur 3.5 isod yn dangos darlun cymharol sefydlog; fodd bynnag, yn debyg i ddadansoddiad yr SFR, mae arwyddion o ostyngiad cyson ymhlith y rhai 16 i 18 oed sy'n NEET.

[21] Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin / Commons Library (2024) [Understanding statistics on employment, unemployment and earnings](#) (aethpwyd iddo: 24 Tachwedd 2024).

Ffigur 3.5: Canran y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET yng Nghymru, 2010 i 2024



Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. * Nodwyd i fod yn ddata o ansawdd cyfyngedig oherwydd eu bod yn seiliedig ar rhwng 25 a 40 o ymatebion.

Cyrchfannau disgyblion o ysgolion yng Nghymru

3.36 Mae arolwg cyrchfannau Blwyddyn 11 yn rhoi cipolwg ar gyrchfan pobl ifanc dros amser o ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Cynhelir yr arolwg blynyddol ddiwedd mis Hydref ac mae'n rhoi dealltwriaeth o gyrchfan cyntaf pobl ifanc yn yr Hydref ar ôl iddynt adael Blwyddyn 11. Mae Tabl 3.1 isod yn cyflwyno patrymau cyrchfannau dros amser. Mae'r rhan fwyaf yn gymharol sefydlog; fodd bynnag, mae'n nodedig bod y ffigur NEET wedi codi 0.5 pwynt canran yn 2022 o 1.6% i 2.1% gyda gostyngiad ymylol yn unig yn y ffigur hwn yn 2023.


Tabl 3.1: Data cyrchfannau Blwyddyn 11 dros amser, 2017 i 2023

Blwyddyn	Parhau mewn addysg (llawn amser a rhan-amser)	Hyfforddiant sy'n seiliedig ar waith – statws cyflogedig ac anghyflogedig	Cyflogedig – arall	Gwyddys eu bod yn NEET	Dim ymateb i'r arolwg	Wedi gadael yr ardal
2023	87.2%	5.8%	3.2%	2.0%	1.2%	0.5%
2022	88.4%	4.4%	3.4%	2.1%	1.0%	0.7%
2021	88.9%	5.0%	2.8%	1.6%	1.1%	0.5%
2020	90.5%	4.4%	2.0%	1.7%	0.9%	0.5%
2019	88.4%	5.7%	2.5%	1.8%	1.1%	0.6%
2018	86.6%	5.5%	2.3%	1.6%	3.5%	0.5%
2017	88.5%	6.4%	2.3%	1.6%	0.5%	0.7%

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru (2017 i 2023) Hynt Disgyblion (aethpwyd iddo: 26 Tachwedd 2024).
Noder bod hyfforddiant seiliedig ar waith yn y tabl yn cynnwys prentisiaethau a mathau eraill o ddysgu sy'n seiliedig ar waith.

- 3.37 Cyflwynir dadansoddiad o arolwg cyrchfannau Blwyddyn 11 ar lefel awdurdod lleol yn Ffigur 3.6 isod. Mae'n dangos bod cyfraddau'r ymatebwyr y gwyddys eu bod yn NEET ar eu huchaf yn ardaloedd awdurdodau lleol Ynys Môn, Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent yn 2023. Er bod rhai ardaloedd, fel Ynys Môn a Chonwy, wedi gweld cynnydd amlwg yn eu cyfraddau o'i gymharu â 2022, cafodd eraill, fel Blaenau Gwent a Chastell-nedd Port Talbot, ostyngiadau mawr.

Ffigur 3.6: Canran yr ymatebwyr i arolwg cyrchfan Blwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET fesul awdurdod lleol (2022 a 2023)



Crynodeb o'r adran

- Mae ffocws clir a chyson ym mholisi Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru.

- Mae data sy'n gysylltiedig â phobl ifanc NEET yn cyflwyno darlun cymysg, gyda chyfraddau pobl ifanc NEET yn arolwg cyrchfannau Blwyddyn 11 yn cyflwyno darlun sefydlog, tra bod data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS) a data'r gyfres datganiadau ystadegol cyntaf (SFR) am y ddarpariaeth yn awgrymu y gallai cyfraddau NEET ymhlith pobl ifanc yng Nghymru fod wedi dechrau gostwng.
- Yn wir, er bod rhywfaint o anwadalrwydd yn gysylltiedig â'r data, mae cyfraddau diweithdra ar gyfer pobl ifanc 16 i 19 oed a data'r SFR ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 oed wedi dangos gostyngiadau amlwg yng Nghymru yn ddiweddar. Mae data'r APS hefyd yn awgrymu gwahaniaeth yn dod i'r golwg wrth gymharu â thueddiadau ar gyfer yr un garfan oedran yn Lloegr.

4. Dyluniad y rhaglen a'i gweithredu

Cyflwyniad

- 4.1 Mae'r adran hon yn adolygu dyluniad TSC+ a sut y'i gweithredwyd yn ogystal ag yn archwilio'r addasiadau a wnaed i'r rhaglen ers ei lansio ym mis Ebrill 2022.

TSC+

- 4.2 Ceisiodd TSC+ ddefnyddio elfennau gorau rhaglenni Hyfforddeiaethau a Thwf Swyddi Cymru i gynnig arlwy cyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, neu hunangyflogaeth i bob person ifanc y mae'n gweithio â hwy yn ogystal â phecyn cymorth cyfannol, penodol a chyfranogol ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET. Mae'n ceisio darparu cynnig cyflogadwyedd i bobl ifanc yng Nghymru yn unol â'r Warrant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid.
- 4.3 Daeth rhaglen TSC+ i rym ar gyfer cofrestriadau newydd ar 1af Ebrill 2022. I ddechrau arni, roedd y rhaglen wedi elwa o drosglwyddo cyfranogwyr presennol y Rhaglen Hyfforddeiaethau i TSC+, ac mae dadansoddi gwybodaeth reoli yn awgrymu bod tua 1,800 o bobl ifanc wedi trosglwyddo i'r rhaglen o Hyfforddeiaethau.^[Troednodyn 22]
- 4.4 I ddarparu gwasanaethau, cafodd y rhaglen ei chaffael drwy Lotiau Rhanbarthol (gweler Tabl 4.1 isod). Ar draws y pedwar Lot Rhanbarthol hynny, caiff y rhaglen ei chynnal gan bum darparwr gwasanaeth (Prif Gontractwyr) a'r rhain wedi'u penodi ar sail pedair blynedd ac un mis, o 1 Mawrth 2022 i 31 Mawrth 2026. Yna dyfernir Comisiynau Rhaglen Blyneddol o dan bob cytundeb sydd wedi'u cyfraddio'n gymesur yn ôl cyfran y cyfranogwyr yn y rhanbarth. Mae Prif Gontractwyr, i raddau amrywiol, wedi isgontractio gwahanol elfennau'r rhaglen; gan amlaf, mae hyn wedi cynorthwyo targedu daearyddol, recriwtio, ymgysylltu, sefydlu/ymgynefino a chefnogaeth arbenigol.

[22] Yn seiliedig ar nifer y cyfranogwyr a gofrestrodd yn y rhaglen ar 1af Ebrill 2022 ar draws yr holl Gontractwyr.

Tabl 4.1: Lotiau rhanbarthol

Lot Rhanbarthol	Rhanbarth	Ardaloedd awdurdodau lleol sydd yn y rhanbarth	Prif Gontractwyr darparu	Canran darged y cyfranogwyr	Canran cyfanswm poblogaeth pobl 16–19 oed
Lot 1	Y Gogledd	Conwy, Gwynedd, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn	ACT, GLIM, a Choleg Cambria	12%	20%
Lot 2	Y De-orllewin a'r Canolbarth	Abertawe, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Powys, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin	Coleg Sir Benfro, ACT, ac ITEC	25%	29%
Lot 3	Canol y De	Bro Morgannwg, Caerdydd, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf	ACT ac ITEC	38%	33%
Lot 4	Y De-ddwyrain	Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy, Torfaen	ACT ac ITEC	25%	17%

Ffynhonnell: Manyleb rhaglen TSC Fersiwn 1.4

4.5 Disgwylir i gontractwyr gyrraedd trothwyon perfformiad gofynnol ar gyfer pob llinyn yn y rhaglen:

- **Llinyn Ymgysylltu a Datblygu** — 60% neu uwch yn mynd ymlaen i ddysgu ar lefel uwch; neu symud ymlaen i gyflogaeth, llawn amser a rhan amser (gan gynnwys hunangyflogaeth); neu Brentisiaeth (gan gynnwys Prentisiaeth hunangyflogaeth)
- **Llinyn Cyflogaeth** — 75% neu uwch yn mynd ymlaen i gyflogaeth (llawn amser neu ran-amser), gan gynnwys hunangyflogaeth; neu Brentisiaeth (gan gynnwys Prentisiaeth hunangyflogaeth)

Model cyflenwi TSC+

Atgyfeirio i TSC+

- 4.6 Pan gafodd ei lansio'n wreiddiol ym mis Ebrill 2022, roedd TSC+ yn gweithredu system atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio (wedi'i gynnal gan Gyrfa Cymru), sef y pwynt mynediad ledled Cymru gyfan i gael cymorth cyflogadwyedd. Ar y pryd, nid oedd unrhyw lwybrau atgyfeirio eraill i'r rhaglen yn bosibl. Y rhesymeg y tu ôl i'r model atgyfeirio oedd ei fod yn galluogi darpar gyfranogwyr i siarad â chynghorwyr gyrfa hyfforddedig ynghylch cyflogaeth a sgiliau, eu nodau a'u dyheadau, ac unrhyw heriau y maent yn eu hwynebu rhag cael gwaith neu fynd i addysg neu hyfforddiant ac aros ynddynt.
- 4.7 Rhoddir cyngor ac arweiniad wyneb yn wyneb yn swyddfeydd Gyrfa Cymru, mewn Canolfannau Gwaith Lleol, neu leoliadau allgymorth cymunedol yn ogystal â thros y ffôn ac ar-lein.^[Troednodyn 23]
- 4.8 Mae cynghorwyr yn helpu drwy nodi rhwystrau sy'n atal unigolyn rhag cael mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Yn seiliedig ar amgylchiadau a dyheadau unigolion, mae cynghorwyr hyfforddedig ar yrfa oedd yn nodi'r ddarpariaeth fwyaf addas sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn.
- 4.9 Mae'r gwaith o nodi rhwystrau ac anghenion y bobl ifanc yn cael ei gofnodi yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio (ARR) sydd – gan ddefnyddio arweiniad a chanllawiau – yn defnyddio 'asesiad categorïau' am amgylchiadau unigolyn, ynghyd â'u rhwystrau, i ddangos addasrwydd atgyfeirio i TSC+ (yn hytrach na llwybrau cyflogadwyedd eraill).
- 4.10 Ymhellach, mae'r asesiad hefyd yn mesur pellter unigolyn o'r farchnad lafur a'r cymorth tebygol sydd ei angen i hwyluso'r broses o drosglwyddo i waith. Mae'r dangosyddion hyn (e.e. hyd diweithdra, cyfrifoldebau gofalu, statws o ran cartref) yn seiliedig ar ymchwil academiaidd.^[Troednodyn 24] Os caiff y person ifanc ei atgyfeirio i TSC+, bydd yr asesiad hwn yn rhoi gwybod i ba llyn (Ymgysylltu, Datblygu neu Gyflogaeth) y caiff ei roi ynddo.
- 4.11 Mae tri llyn TSC+ yn adlewyrchu lefelau gwahanol yr ymyriadau sydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol yr unigolion a'r ymyriadau hynny yn gysylltiedig â'u pellter o addysg brif ffrwd neu gyflogaeth fel yr aseswyd wrth eu hatgyfeirio.
- 4.12 Ym mis Mai 2022 cafwyd peilot ar gyfer atgyfeiriadau uniongyrchol i'r Contractwyr a hynny'n golygu y gallai pobl ifanc 16-18 oed cymwys (a ehangwyd i 19 oed o Ionawr 2023) gael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r rhaglen heb ymwneud â Cymru'n Gweithio i gael eu hasesu ar gyfer mynediad i'r rhaglen (atgyfeiriadau uniongyrchol). Gwnaed hyn i wella mynediad i TSC+ ar gyfer y bobl ifanc hynny oedd 'anoddaf eu cyrraedd' ac nad oeddent yn ymgysylltu drwy wasanaeth Cymru'n

[23] Fel y nodwyd uchod, nid gan Gyrfa Cymru/Cymru'n Gweithio yn unig y daw cyngor.

[24] I gael crynodeb defnyddiol, gweler Brown, C., Rueda, P., Battle, I. & Sallán, J. (2021) Introduction to the special issue: a conceptual framework for researching the risks to early leaving, Journal of Education and Work, 34:7–8, 723–739.

Gweithio. Caiff yr atgyfeiriadau uniongyrchol hyn eu hasesu gan Gontractwyr sy'n defnyddio eu hoffer eu hunain i asesu anghenion, sef offer wedi'i lunio yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau asesiad cyson ac effeithiol. Cadwyd y newid hwn yn y model a'i ffurfioli ddechrau 2023 ar ôl cael cynnydd amlwg mewn atgyfeiriadau.

- 4.13 Defnyddir yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio (ARR) ledled yr holl gontractwyr a gan Cymru'n Gweithio fel rhan o'r broses atgyfeirio ar gyfer TSC+ a disgwylir i'r adroddiad hwn nodi:
- anghenion dysgu ac/neu anghenion datblygu'r person ifanc.
 - unrhyw rwystr(au) sy'n atal y person ifanc rhag cymryd rhan mewn dysgu pellach ac/neu symud ymlaen i gyflogaeth a'r rheiny sydd i gael sylw pellach fel rhan o'u Cynllun Dysgu Unigol (CDU).
 - tystiolaeth allweddol o angen y mae'n rhaid i Gontractwyr TSC+ ei hystyried wrth greu CDU y person ifanc ac adolygiadau cynnydd dilynol.
- 4.14 Ar gyfer llinynnau Ymgysylltu a Datblygu'r rhaglen (sef y llinynnau y mae mwyafrif helaeth y cyfranogwyr yn eu gwneud) mae angen hysbysiad gan Gontractwr sy'n cynnig (os yw'n gymwys) ddyddiadau arfaethedig ar gyfer cyfarfod cyn-dechrau a dyddiad dechrau.
- 4.15 O fewn 15 diwrnod gwaith i'r cyfarfod cyn-dechrau, rhaid i'r Contractwr ddechrau'r person ifanc ar y rhaglen (dyddiad dechrau) ac o fewn 20 diwrnod gwaith rhaid cytuno ar Gynllun Dysgu Unigol (CDU) wedi'i gwblhau a'i lofnodi ynghyd â chwblhau asesiad Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST).
- 4.16 Rhaid i ryw fath o weithgarwch dysgu a datblygu ddechrau o fewn 20 diwrnod gwaith i'r dyddiad dechrau, tra bod rhaid i o leiaf un cymhwyster (pan fo'r rhain yn rhan o'r Cynllun Dysgu Unigol) fod wedi'i sicrhau o fewn wyth wythnos i'r dyddiad dechrau.
- 4.17 Ceir dull tebyg yn y llinyn Cyflogaeth o ran amseru'r ymgysylltu gyda'r disgwyliad y bydd cyflogwr cefnogol wedi'i ganfod o fewn 10 wythnos i ddechrau. Ar draws pob llinyn, disgwylir i adolygiadau cynnydd ddigwydd (o leiaf) bob wyth wythnos.
- 4.18 Pan fo person ifanc yn gadael y rhaglen, rhaid i'r Contractwr hysbysu Cymru'n Gweithio o fewn pum niwrnod gwaith.
- 4.19 Yn Nhabl 4.2 isod, ceir trosolwg o'r model cyflenwi ar gyfer pob llinyn TSC+.

Tabl 4.2: Model cyflenwi TSC+ yn ôl llinyn

	Llinyn Ymgysylltu	Llinyn Datblygu	Llinyn Cyflogaeth
Yn addas ar gyfer pobl ifanc sydd:	• angen cadarnhau/rhoi cyd-destun i ffocws galwedigaethol er mwyn cefnogi mynediad i ddysgu pellach neu gyflogaeth (gan gynnwys prentisiaeth); ac/neu • sydd â rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn astudiaethau ar Lefel 1	• sydd â ffocws galwedigaethol; ac • yn gallu dilyn rhaglen astudio sy'n arwain at gymhwyster Lefel 1 neu Lefel 2 ond wedi'i asesu i fod yn rhywun nad yw'n gallu astudio i Lefel 3 neu uwch	• sydd â ffocws galwedigaethol; ac • yn barod am swydd
Cefnogaeth gweithiwr arweiniol yn darparu:	• Cymorth wedi'i deilwra i edrych ar rwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Gweithgareddau cefnogi dysgu a datblygu fel y rhestrir yn y CDU, gan gynnwys: ○ Cyfleoedd dysgu yn lleoliad darparwr TSC+ ○ Treialon gwaith byr ○ Lleoliadau gwaith lleol (hyd at bedair wythnos) ○ Prosiectau cymunedol ○ Gwaith gwirfoddol. • Cynnig cymwysterau sy'n berthnasol i'r llinyn Ymgysylltu	• Cymorth wedi'i deilwra i edrych ar rwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Gweithgareddau cefnogi dysgu a datblygu fel y rhestrir yn y CDU, gan gynnwys: ○ Cyfleoedd dysgu yn lleoliad darparwr TSC+ ○ Lleoliadau/treialon gwaith yn lleol ○ Prosiectau cymunedol ○ Gwaith gwirfoddol • Cynnig cymwysterau (CQFW Lefelau 1 a 2 a chymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru hyd at Lefel 3) sy'n berthnasol i'r llinyn Datblygu • Caiff y cyfranogwyr eu hasesu i'w galluogi i fynd yn eu blaenau i'r llinyn Cyflogaeth.	• Cymorth wedi'i deilwra i edrych ar rwystrau a nodwyd yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio • Cefnogi dysgu a datblygu mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith er mwyn symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy • Cyfleoedd cyflogaeth sydd â chymhorthdal cyflog. Bydd cyfranogwyr wedi dod o hyd i gyflogwr cefnogol o fewn 10 wythnos i ymuno â'r llinyn hwn.
Presenoldeb (isafswm oriau bob wythnos)	• Dim isafswm oriau presenoldeb bob wythnos	• Presenoldeb o leiaf 16 awr yr wythnos	• Presenoldeb o leiaf 16 awr yr wythnos dros gyfnod treigl o bedair wythnos

Llywodraethu

- 4.20 Penodir Rheolwr Contract o Lywodraeth Cymru i bob Contractwr a hwnnw i fod yn bwynt cyswllt penodol iddynt hwy. Rôl y Rheolwr Contract yw adolygu perfformiad y Contractwr a sicrhau herio a chymorth priodol i alluogi rhoi cymorth effeithiol i gynnal rhaglen TSC+. Cynhelir Cyfarfodydd Adolygu Contractau bob chwarter.
- 4.21 Er bod y model rheoli contractau wedi'i gynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth, roedd hefyd yn ceisio bod yn sail i waith partneriaeth cydweithredol rhwng Contractwyr ar draws darpariaethau'r rhanbarthau. Ceisiodd Llywodraeth Cymru osgoi unrhyw gystadleuaeth drwy ddylunio contractau o amgylch dyraniadau cyllid i gyrraedd eu targedau priodol. Ategwyd hyn drwy gyflwyno cytundebau cydweithio, a'r rhain wedi'u llunio rhwng pob grŵp rhanbarthol o Gontractwyr i gefnogi cydweithio cadarnhaol ym mhob rhanbarth (Lot).
- 4.22 Cynhelir cyfarfodydd gan rwydwaith y contractwyr yn rheolaidd, yn aml bob 4 i 6 wythnos fel arfer, lle rhennir arferion da a heriau. Roedd dileu natur gystadleuol contractau yn fwriadol yn ceisio annog y bartneriaeth hon a gweithgarwch cydweithredu ymhlith y Contractwyr.

Model cyllido

- 4.23 Roedd y costau cychwynnol (ac felly'r dyraniad cyllid) a amcangyfrifwyd i gynnal rhaglen TSC+ wedi deillio o ddata hanesyddol ar y nifer a oedd wedi manteisio ar ddarpariaeth rhaglenni Hyfforddeiaethau a Twf Swyddi Cymru ar draws rhanbarthau Cymru ar gyfer 2017i 2018 a 2018 i 2019.
- 4.24 Ar ddechrau pob blwyddyn gontract, hysbysir pob Contractwr o'u dyraniad ariannol, a rhaid iddynt broffilio'r dyraniad hwnnw yn gategorïau ar gyfer Cyflenwi, Cymorthdaliadau Cyflog, a Chostau Cynnal dros y flwyddyn.
- 4.25 Mae taliadau i Gontractwyr yn bennaf seiliedig ar Oriau Cyswllt dan Arweiniad (OCA), sef nifer yr oriau cyswllt yn addysgu, hyfforddi neu asesu ar gyfer gweithgaredd dysgu penodol (mae ffi hefyd yn gysylltiedig ag ymsefydlu a chynefino cyfranogwr). Mae Uned Dysgu (UD) yn fesur a ddefnyddir yn y model ariannu taliadau ar gyfer cyfrifo taliadau yn seiliedig ar faint o OCA a gynhaliwyd. Mae model ariannu gwreiddiol y rhaglen wedi'i nodi yn Nhabl 4.3 isod. Mae cyllid ychwanegol (cynnydd o 25% yng ngwerth yr Uned Dysgu) ar gael ar gyfer darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 4.3: Model ariannu taliadau TSC+ yn Ebrill 2022 (lansio'r rhaglen)

Llinyn	Ymsefydlu a chynefino cyfranogwyr	Darpariaeth bob mis	
		Mewn canolfan	Mewn gweithle
Ymgysylltu	3 Uned Dysgu	1 Uned Dysgu am bob 3 awr o OCA	1 Uned Dysgu am bob 8 awr o OCA
Datblygu	3 Uned Dysgu	1 Uned Dysgu am bob 4 awr o OCA	1 Uned Dysgu am gyflogaeth sydd â chymhorthdal cyflog am bob 13 awr o OCA
Cyflogaeth			

Ffynhonnell: Manyleb rhaglen Twf Swyddi Cymru+, fersiwn 1.2 (Ebrill 2022)

Cymhorthdal cyflog am gyflogi

- 4.26 Pan fo cyfranogwr wedi sicrhau cyflogaeth drwy llinyn Cyflogaeth TSC+, bydd cyflogwyr yn cael ad-daliad cymhorthdal cyflog ar gyfer cyfranogwyr TSC+ sy'n gyfwerth â chwe mis (26 wythnos) ar 50 y cant o'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol.

Addasiadau i fodel cyflenwi TSC+ oherwydd cymhlethdod yr anghenion

Atgyfeirio uniongyrchol

- 4.27 Ym misoedd cyntaf y rhaglen bu llai o atgyfeiriadau na'r disgwyl gan Cymru'n Gweithio i TSC+. Nodwyd na fyddai llawer o'r bobl ifanc oedd â'r lefelau angen uchaf o reidrwydd yn mynd at Cymru'n Gweithio'n uniongyrchol eu hunain, ac yn aml mae angen cymorth ac allgymorth mwy gweithredol i wneud y cysylltiad cyntaf â Cymru'n Gweithio. O'r herwydd, ers mis Mai 2022, gall Contractwyr ymgysylltu â chyfranogwyr, asesu a ydynt yn gymwys ai peidio, ac yna eu hatgyfeirio yn uniongyrchol i'r rhaglen.
- 4.28 Mae tystiolaeth yn y wybodaeth reoli sy'n rhoi syniad o lwybrau atgyfeirio; fodd bynnag, mae hyn fel arfer yn dod gan gyfranogwyr ac, felly, yn dibynnu ar atgofion cyfranogwyr TSC+ ynghylch eu llwybrau atgyfeirio ar adeg cofrestru. Awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod atgyfeiriadau uniongyrchol wedi dod yn fwyfwy cyffredin ymhlith y llwybrau i mewn i'r rhaglen. Credir bellach eu bod yn cynrychioli'r llwybr ymgysylltu mwyaf cyffredin, er bod gwahaniaeth mawr wedi'i adrodd yn nifer yr achosion o atgyfeirio uniongyrchol rhwng un Prif Contractwr a'r llall.

Adnewyddu a dwygio

- 4.29 Gwnaed addasiadau pellach i fodel cyflenwi TSC+ ym mis Ionawr 2023 wrth ehangu'r gefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r cynllun Adnewyddu a Diwygio a oedd yn ceisio helpu'r grwpiau hynny sydd eisoes dan anfantais ac sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur ymhellach gan yr aflonyddu ar addysg a hyfforddiant ôl-16 oherwydd COVID-19. Roedd yr ehangu wedi digwydd mewn ymateb i adborth gan Gontractwyr yn dilyn rhoi'r rhaglen ar waith. Roedd hyn yn cynnwys pryderon ynghylch lefelau anghenion ymhlith pobl ifanc oedd yn uwch nag a ragwelwyd yn ystod dylunio'r rhaglen.
- 4.30 Teimlwyd fod gan ymgeiswyr anghenion a rhwystrau llawer mwy cymhleth nag a ragwelwyd, a'r Contractwyr a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn cytuno bod hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r effeithiau andwyol ar bobl ifanc yn sgil cyfyngiadau symud COVID-19 yn ogystal â'u mynediad cyfyngedig i leoliadau addysgol ffurfiol yn ystod y cyfnodau hynny.

Ehangu 'gweithgareddau cyfoethogi'

- 4.31 Gwnaed addasiadau i'r model cyflenwi gyda'r bwriad o roi mwy o hyblygrwydd i Gontractwyr i gefnogi pobl ifanc sydd eisoes yn ymwneud â rhaglen TSC+ yn benodol mewn perthynas â rhoi cymorth lles ac iechyd meddwl. Gallai hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ddarparu cyllid i gefnogi gweithgarwch meithrin tîm, gwydnwch iechyd meddwl a lles, gweithgarwch corfforol, a gweithgareddau hwyliog fel gweithgareddau awyr agored a datrys problemau.
- 4.32 Y bwriad wrth ddwysáu'r cymorth hwn oedd cefnogi lles, a helpu ymgysylltiad y bobl ifanc ac i'w cymell i aros yn y rhaglen neu symud ymlaen â'r rhaglen ddysgu pan allent fod mewn perygl o ymddieithrio neu roi'r gorau iddi.

'Bydd Barod/Get Ready'

- 4.33 Yn sgil addasiad pellach aethpwyd ati i ehangu gweithgarwch ymgysylltu cyn y rhaglen 'Bydd Barod' y tu hwnt i fisoedd yr haf (lle cafodd ei dreialu'n wreiddiol) i fod ar gael drwy gydol y flwyddyn. Cynigir Bydd Barod i bobl ifanc y mae'r Contractwr wedi'u hasesu eu bod:

- angen cyflwyniad llai ffurfiol i ddysgu, ac
- angen cymorth i symud ymlaen i ddysgu mwy ffurfiol.

- 4.34 Ni ddylai gweithgarwch Bydd Barod bara mwy na 12 wythnos a gall gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) meithrin tîm, gwydnwch iechyd meddwl a lles, gweithgareddau corfforol, a gweithgareddau hwyliog fel gweithgareddau awyr agored a datrys problemau.

Ymestyn yr oedran i 19 oed

- 4.35 O 1af Rhagfyr 2022, ymestynnwyd yr ystod oedran y mae pobl ifanc yn gymwys i gofrestru â'r rhaglen fel bod y rhai 19 oed yn gymwys i gofrestru ar y rhaglen a gallant barhau ar y rhaglen tan y diwrnod cyn eu pen-blwydd yn 20 oed.

Ymestyn y cymwysterau a ganiateir

- 4.36 Ymestynnwyd y cymwysterau a ganiateir ar gyfer llinyn Datblygu TSC+ i ganiatáu derbyn cymwysterau Lefel 2 Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru (CWW) (yn ychwanegol at gymwysterau Lefel 1 y Fframwaith Credydau a Chymwysterau [CQFW]). Deallir bod yr estyniad yn adlewyrchu'r ffaith mai cymwysterau Lefel 2 oedd y gofynion mynediad ar gyfer rhai cyrchfannau hyfforddi/dysgu.

Yr argyfwng costau byw

- 4.37 Roedd pryderon hefyd ymhlith Contractwyr ynghylch yr hinsawdd economaidd a'r argyfwng costau byw ac effaith y rhain ar gyfranogwyr. Pryderai Contractwyr y gallai'r ffactorau hyn roi pwysau ychwanegol ar gyfranogwyr cymwys i ddod o hyd i waith cyflogedig yn syth (neu ffyrdd eraill o ennill incwm, weithiau ffyrdd anghyfreithlon) oherwydd y pwysau ariannol ar eu haelwydydd eu hunain.
- 4.38 Mewn ymateb i'r problem hon, gwnaed yr addasiadau canlynol i gyfradd y Lwfans Hyfforddi a rhoddwyd terfyn ar y gofyniad i ddysgwyr dalu cyfraniad tuag at gostau teithio:
- Ar gyfer llinynnau Ymgysylltu, Datblygu, a Chyflogaeth (pan nad ydynt eto wedi dechrau cyflogaeth â chymhorthdal cyflog), cânt lwfans hyfforddi llawn o £60 pan fo cyfranogwyr wedi mynychu am o leiaf 30 awr mewn unrhyw gyfnod o saith diwrnod (bydd unrhyw bresenoldeb sy'n llai na 30 awr ar sail pro rata). Roedd hyn yn ddyblu ar y lwfans hyfforddi ar gyfer y rhai yn y llinyn Ymgysylltu ac yn bum punt yr wythnos yn fwy i'r rheiny yn y llinynnau eraill.
 - Darparu pryd o fwyd am ddim am fynychu diwrnod neu ran o ddiwrnod hyd at uchafswm o £3 y diwrnod.

Ad-daliad contractwyr

- 4.39 Yn sgil y cymhlethdodau a'r rhwystrau ychwanegol ac annisgwyl ymhlith y grŵp targed ar gyfer TSC+, ynghyd â dechrau'r argyfwng costau byw, bu'n rhain ailystyried y tâl i Gontractwyr am ddarparu gwasanaethau. Fel yr amlinellwyd yn gynharach yn yr adran hon, telir Contractwyr yn erbyn gweithgaredd yn seiliedig ar Unedau Dysgu. Gwnaed addasiad i'r contract er mwyn cynyddu cyfradd yr Unedau Dysgu sy'n daladwy am y Ffi Sefydlu ar gyfer y llinyn Ymgysylltu.

- 4.40 Yn sgil yr addasu, byddai gan Gontractwyr hawl i 12 Uned Dysgu fesul cyfranogwr fesul sesiwn sefydlu ar gyfer y llinyn Ymgysylltu. Cyn y cynnig hwn (ond yn dilyn cyhoeddi'r fanyleb TSC+ wreiddiol) roedd y gyfradd ar gyfer cofrestru i bob llinyn wedi cynyddu o dair Uned Dysgu i chwe Uned Dysgu am bob sesiwn sefydlu cyfranogwr. Felly, o'i gymharu â'r fanyleb wreiddiol, roedd hyn yn cynrychioli cynyddu'r gost bedair gwaith fesul sesiwn sefydlu fel y'i nodir ym manyleb Ebrill 2022 (o dair Uned Dysgu i 12 Uned Dysgu) gyda thaliadau wedi'u hôl-ddyddio i Ebrill 2022.

Crynodeb o'r adran

- Cynlluniwyd y rhaglen cyn pandemig COVID-19, a gwnaed cyfres o addasiadau i'r hyn y cynigiai'r gwasanaeth yn sgil anghenion newidiol y grŵp cleientiaid.
- Roedd y strwythur partneriaeth rhwng y Contractwr a Llywodraeth Cymru wedi sicrhau trafodaeth agored a hynny wedi cynorthwyo i lunio natur yr addasiadau hynny.
- Mae'r addasiadau wedi arwain at gynnydd sylweddol (pedwarplyg) yn y gwariant sy'n gysylltiedig â'r taliad sefydlu ar gyfer cofrestru cyfranogwyr yn llinyn Ymgysylltu'r rhaglen.

5. Cynnydd a pherfformiad TSC+

Cyflwyniad


- 5.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno cyflawniadau a pherfformiad rhaglen TSC+ o'i lansiad ym mis Ebrill 2022 hyd at fis Gorffennaf 2024. Wrth adrodd ar broffil y dysgwyr ar raglen TSC+ mae'r adroddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng 'cofrestriadau ar y rhaglen' a 'chyfranogwyr unigryw'. Mae 'cofrestriadau ar y rhaglen' yn cyfeirio at bob cofrestriad ar unrhyw llyn o raglen TSC+, ac mae 'cyfranogwyr unigryw' yn cyfeirio at nifer yr unigolion unigryw y mae'r cofrestriadau hyn yn ymwneud â nhw.
- 5.2 Nifer y cofrestriadau ar y rhaglen hyd at fis Gorffennaf 2024 oedd 11,972, tra mai nifer y 'cyfranogwyr unigryw' ar y rhaglen dros yr un cyfnod amser oedd 10,008.
- 5.3 Er mai ymgysylltu ag un llinyn yn unig y gwnaeth mwyafrif cyfranogwyr unigol TSC+ (82%, 8,207/10,008), eto cofrestrodd 18% ar sawl un, gan gyfrif am 31% (3,765/11,972) o'r holl gofrestriadau ar y rhaglen.

Perfformiad dros amser

- 5.4 Mae Ffigur 5.1 isod yn rhoi trosolwg o'r cofrestriadau ar raglen TSC+ dros amser gan ddefnyddio data gwybodaeth reoli LLWR. Dengys y siart mai'r cyfnod prysuraf yn nifer y cofrestriadau i'r rhaglen yw mis Gorffennaf bob blwyddyn (sy'n cyd-fynd â chwblhau blwyddyn academiaidd). Cafwyd brig yn y nifer ym mis Gorffennaf 2022, ac er iddo fod yn sylweddol ar y pryd mae'n llai amlwg na'r hyn a gafwyd ym mis Gorffennaf 2023 pan gofrestrwyd bron i saith gwaith nifer cyfranogwyr TSC+ o gymharu â'r mis cyn hynny (a mwy na 2.5 gwaith y nifer a gofrestrwyd ym mis Gorffennaf 2022). Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â TSC+ yn dod yn fwy sefydledig fel rhaglen a'r addasiadau a wnaed i'r rhaglen, yn benodol y gwelliannau yn narpariaeth Bydd Barod/Get Ready, gan y cofrestrwyd tua 50% o'r cofrestriadau ym mis Gorffennaf 2023 ar y cynllun hwnnw o'i gymharu â 20% ym mis Gorffennaf 2024 a thua 10% o'r cofrestriadau mewn misoedd gweithredol eraill. Mae Bydd Barod yn cefnogi myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol drwy gydol y flwyddyn ac fe'i defnyddiwyd gan rai Contractwyr yn lle'r rhaglen flaenorol Haf Hwylus/Summer Sorted, a hyn yn esbonio'r niferoedd uwch yn ystod yr haf.^[Troednodyn 25]
- 5.5 Ymddengys hefyd fod cynnydd llai amlwg mewn ymgysylltiad ym mis Hydref yn y ddwy flwyddyn academiaidd, sydd o bosibl yn gysylltiedig â myfyrwyr ôl-16 yn rhoi'r gorau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn ystod hanner tymor yr Hydref (sef adeg a gydnabyddir yn eang yn y flwyddyn academiaidd pan fydd pobl ifanc yn rhoi'r gorau iddi) a throsglwyddo i raglen TSC+. Ar wahân i'r misoedd brig, prin yw'r dystiolaeth o gynnydd cyffredinol yn y cyfraddau cofrestru ar y rhaglen tan fis Gorffennaf 2023 (pan oedd tri o'r pedwar mis wedi dangos y nifer uchaf o gofrestriadau misol ers lansiad y rhaglen).

[25] Rhaglen wedi'i thargedu at ddysgwyr Haen 4 a oedd wedi'i chynnal mewn rhai ardaloedd dros gyfnod yr haf pan nad oedd pobl ifanc yn yr ysgol.

Ffigur 5.1: Nifer cofrestriadau TSC+ bob mis – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=11,973). Sylwer nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyfranogwyr sydd ar y rhestrau aros a bod y cyfansymiau ar gyfer Ebrill 2022 yn cynnwys cyfranogwyr a drosglwyddodd ran o'r ffordd drwy eu taith o'r Rhaglen Hyfforddeiaethau.

5.6 Wrth ddadansoddi oedran ac amseriad cofrestru pobl ifanc 16 i 18 oed^[Troednodyn 26] yn erbyn nifer amcangyfrifedig y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET (fel y nodir yn adran 3), amcangyfrifir bod TSC+ yn ymgysylltu â thua thraean y bobl ifanc (16 i 18 oed) oedd yn NEET ar ddiwedd blynnyddoedd calendr 2022 a 2023 yng Nghymru (o'i gymharu â nifer cyfranogwyr TSC+ a ddechreuodd rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023 [4,394/13,200] a'r rhai a ddechreuodd rhwng Ionawr a Rhagfyr 2023 [3,850/11,000^[Troednodyn 27]]).

Tabl 5.1: Amcangyfrifon NEET data'r SFR – 2022 a 2023

	Amcangyfrif cyfres yr SFR o nifer y bobl ifanc 16 i 18 oed sy'n NEET	Nifer yr unigolion a ddechreuodd TSC+ rhwng 16 a 18 oed
2022	13,200	4,394
2023 (dros dro)	11,000	3,850


[26] Dim ond ar gyfer y grwpiau oedran cyfunol 16–18 oed a 19–24 oed y mae data'r SFR ar gael. Defnyddiwyd y garfan oedran isaf o 16 i 18 oherwydd dyma'r gynrychiolaeth agosaf i garfan TSC+.

[27] Noder mai amcangyfrif dros dro yw'r ffigur hwn.

Llwyth achosion

- 5.7 Mae Ffigur 5.2 isod yn dadansoddi'r nifer sy'n cofrestru a gadael TSC+ dros amser gan ddefnyddio data ar unigolion ar y rhaglen, ac mae'n dangos bod llwythi achosion wedi aros yn sefydlog i raddau helaeth hyd at fis Gorffennaf 2023 pan ymunodd nifer fawr o bobl yn y mis hwnnw i godi'r niferoedd yn TSC+ yn fawr. Roedd y llwythi achosion yn uwch drwy gydol gweddill 2023, ac er bod gostyngiad cyson yn 2024, parhaodd y cyfraddau i fod yn chwyddedig o'i gymharu â dechrau 2023; ar ben hynny, fe wnaeth cynnydd yn y llwyth achosion yn ystod Gorffennaf 2024 wrthdroi llawer o'r gostyngiad a gafwyd ym misoedd cynharach y flwyddyn honno.
- 5.8 Mae'n debygol bod y gostyngiad yn y llwyth achosion yn ystod 2024 wedi digwydd yn sgil cyflwyno rhestrau aros yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd rhestrau aros mewn rhai ardaloedd oherwydd bod y llwythi achosion wedi bod yn gweithredu ar lefel anghynnaladwy i Gontractwyr a gallai hynny wedi arwain (pe baent yn parhau ar y lefel honno) at ddyraniadau cyllid blynyddol yn dod i ben hanner ffordd drwy'r flwyddyn. Er nad yw'n glir beth oedd amseru penodol y cyflwyno ffurfiol ar restrau aros, nododd Llywodraeth Cymru bod rhestrau aros wedi'u cyflwyno ym mis Medi 2023 a mis Medi 2024 ill dau. Mae'n debygol bod y cynnydd sydyn mewn ymgysylltiad yn y misoedd blaenorol wedi sbarduno'r angen i gyflwyno rhestrau aros, wedi'i waethygu gan y tebygolrwydd y byddai cyfyngiadau cyllidebol yn dod yn fwy cyffredin yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

Ffigur 5.2: Cofrestriadau, ymadawiadau a llwyth achosion TSC+ dros amser yn ôl cyfranogwyr unigryw – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=10,008)


Atgyfeiriadau

- 5.9 Mae data monitro TSC+ yn rhoi syniad o faint o'r atgyfeiriadau i'r rhaglen sy'n rhai uniongyrchol. Ar gyfer 2022 i 2023, dangosodd gwybodaeth reoli TSC+ fod 28% o'r cofrestriadau (1,485/5,330) yn atgyfeiriadau uniongyrchol. Ar gyfer 2023 i 2024, roedd cyfran yr atgyfeiriadau uniongyrchol wedi codi i 47.9% (2,464/5,125). Rhwng Ebrill a Gorffennaf 2024 canran yr atgyfeiriadau uniongyrchol oedd 39.7% (596/1,501).
- 5.10 Mae gwybodaeth reoli TSC+ hefyd yn dangos cynnydd sydyn yng nghyfran yr atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio, gan godi o 1.1% yn 2023 i 2024 (55) i 22.9% (343) yn ystod y cyfnod Ebrill i Gorffennaf 2024. Mae'n bwysig nodi bod rhywfaint o ansicrwydd yn gysylltiedig â'r ffigurau hyn, gan eu bod yn dibynnu ar atgofion cyfranogwyr. Fodd bynnag, dengys y dystiolaeth fod cynnydd mewn atgyfeiriadau uniongyrchol fel llwybr i ymgysylltu â TSC+ ar yr un pryd hefyd â dangos cynnydd, yn y misoedd diwethaf, mewn atgyfeiriadau gan Cymru'n Gweithio.

Hyd eu cyfnod ar y rhaglen

- 5.11 Bu gostyngiad graddol yn yr hyd cyfartalog y mae cyfranogwyr wedi'u cofrestru ar TSC+ (gweler Ffigur 5.3). Mae'n debyg bod y gostyngiadau yn hyd cyfartalog cael cymorth yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi bob blwyddyn yn dangos y rôl sydd gan y rhaglen wrth gynnal ymgysylltiad ag unigolion yn ystod misoedd yr haf ar ôl diwedd Blwyddyn 11 nes iddynt symud ymlaen i addysg/hyfforddiant ôl-16 ym mis Medi. Mae'r gostyngiad cyffredinol yn yr amser a dreulir ar y rhaglen hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nifer cyfartalog yr oriau a dreulir yn dysgu mewn canolfan ac yn dysgu yn y gwaith. Roedd y rheiny a gofrestrodd ac a gwblhaodd rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 wedi cofnodi cyfartaledd o 549 awr mewn canolfan a 212 awr mewn gwaith o'i gymharu â 402 awr mewn canolfan a 119 awr mewn gwaith i'r rheiny a ddechreuodd rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae'n debyg mai cyfyngiadau ar gyllid sy'n gysylltiedig â llwyth achosion uwch sydd wedi dylanwadu ar y gostyngiad hwn, ac yn sail i'r angen i gael cyfranogwyr i symud yn gyflymach trwy'r rhaglen.

Ffigur 5.3: Hyd cyfartalog ar y rhaglen yn ôl nifer y cofrestriadau a mis cofrestru – Mai 2022 i Mawrth 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=10,471)

Proffil cyfranogwyr

Rhyw

- 5.12 O'r rheiny a gofrestrodd ar y rhaglen rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024, nododd 51.9% eu bod yn wryw, 47.3% eu bod yn fenyw, ac 0.8% yn nodi eu bod yn 'arall'. Mae dosbarthiad y rhywiau wedi aros yn gyson dros gyfnod y rhaglen. O ddadansoddi gwybodaeth reoli LLWR, gwelir rhywfaint o amrywiaeth yn y proffil rhyw fesul Contractwr, gyda chyfran y cyfranogwyr benywaidd yn amrywio o 44.6% ymhlith cyfranogwyr ACT Training i 52.3% o gyfranogwyr y rhaglen a ymgysylltodd drwy Goleg Sir Benfro.

Anabledd

- 5.13 O fis Ebrill 2022 hyd at fis Gorffennaf 2024, datganodd bron i chwarter (24.7%, 2,474/10,008) o gyfranogwyr unigryw TSC+ ryw fath o amhariad/anawsterau o'i gymharu â data'r Cyfrifiad sy'n awgrymu ffigur o 14% ar gyfer y grŵp oedran hwn. Awgryma ymchwil arall gan NHS sef 'Mental Health of Children and Young People Surveys' bod mwy nag un o bob pump o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed yn debygol o fod ag anhwylder iechydd meddwl,^[Troednodyn 28] tra bod tua 16% o'r holl bobl ifanc wedi'u nodi i fod ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).^[Troednodyn 29]

[28] NHS Digital (2023) Mental Health of Children and Young People in England, 2023: Wave 4 Follow-Up to the 2017 Survey (aethpwyd iddo: 26 Tachwedd 2025).

[29] Ymchwil y Senedd (2022) Nodi Anghenion Dysgu Ychwanegol: A yw'r bar wedi'i godi neu a oedd y bar yn rhy isel cyn hynny (aethpwyd iddo: 12 Hydref 2024).

5.14 O blith cyfranogwyr TSC+ a ddatganodd amhariad, roedd mwy na hanner ohonynt (51.5%, 1,274/2,474) yn gysylltiedig ag anawsterau dysgu, yn fwyaf cyffredin dyslecsia (23.7% o amhariadau, 586/2,474). Ar draws yr holl gyfranogwyr unigryw ar y rhaglen, yr amhariadau mwyaf cyffredin oedd:

- Dyslecsia (23.7% o gyfranogwyr unigryw a oedd wedi datgan rhyw fath o amhariad)
- Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig (20.6%)
- Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywioigrwydd (ADHD) (16.5%)
- Anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (14.7%)

Ethnigrwydd

5.15 Ymhlith y cyfranogwyr a gofrestrodd yn ystod y cyfnod Ebrill 2022 hyd at fis Gorffennaf 2024, ac eithrio pan na nodwyd ethnigrwydd neu pan nad oedd yn hysbys (n=94, 0.9%), disgrifiodd 93.7% eu hunain i fod yn Wyn. Cyflwynir dosbarthiad cyfranogwyr yn ôl ethnigrwydd yn Nhabl 5.2 isod (o gymharu â phoblogaeth 16–19 oed Cymru) ac mae'n awgrymu bod y rhai sy'n cymryd rhan yn TSC+ yn llai amrywiol o ran ethnigrwydd na'r boblogaeth 16-19 oed gyffredinol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae ymchwil a gynhaliwyd gan Medr sy'n edrych ar ddilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol rhwng Awst 2017 ac Ionawr 2025 yn nodi gwahaniaeth yn y gyfradd sy'n mynd ymlaen yn uwch yn dibynnu ar ethnigrwydd. Dysgwyr o grwpiau ethnig Asiaidd ac Asiaidd Prydeinig / Asiaidd Cymreig oedd â'r gyfradd uchaf o gynnydd, a dysgwyr o gefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Deithwyr Gwyddelig oedd â'r gyfradd isaf. Gall hyn ddangos bod cyfansoddiad ethnig y boblogaeth NEET yng Nghymru yn wahanol i gyfansoddiad ethnig y boblogaeth 16 i 19 oed ehangach.

Tabl 5.2: Cyfranogwyr unigryw TSC+ yn ôl ethnigrwydd – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024

Pob grŵp ethnig	Data gwybodaeth reoli TSC+ ar gyfranogwyr unigryw	Data gwybodaeth reoli TSC+ o gofrestriadau	Poblogaeth 16–19 oed Cymru
Gwyn (Cymreig/ Seisnig/ Albanaidd / Gogledd Iwerddon/ Prydeinig/ Arall)	93.7%	93.0%	90.3%
Du	1.4%	1.4%	1.4%
Asiaidd	1.3%	1.3%	4.3%
Cymysg	2.0%	1.9%	2.8%
Arall	1.6%	1.5%	1.3%
Nifer	10,008	11,972	

Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR, data am y boblogaeth o Gyfrifiad 2021. Defnyddiwyd data cyfrifiad i gymharu yn erbyn y boblogaeth ar gyfer y tabl hwn oherwydd nad yw data ethnigrwydd yn cael ei gyhoeddi yn amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yr ONS. Noder nad yw'r rhain yn cynnwys y rhai a wrthododd roi gwybodaeth (0.9% ac 1% yn y drefn honno).

Gallu siarad Cymraeg

- 5.16 Ymhlith yr holl gyfranogwyr unigryw yn nata gwybodaeth reoli LLWR, cofnodwyd bod 19.1% (1,911/10,008) wedi cofrestru ers Ebrill 2022 sy'n siarad Cymraeg, tra bod 8.0% (801/10,008) wedi disgrifio eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae dadansoddiad gwybodaeth reoli LLWR yn dangos y cafwyd cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg a gofrestrodd ar y rhaglen, gan godi o 16.3% yn 2022 i 21.4% a 20.2% yn 2023 a 2024 yn y drefn honno.

Oedran

- 5.17 Roedd dros dri chwarter (78.0%, 9,341/11,972) o gofrestriadau newydd ar raglen TSC+ yn gyfranogwyr 16 neu 17 oed ar adeg cofrestru. Roedd nifer fach o gyfranogwyr yn 19 oed pan wnaethon nhw gofrestru (4%). Mae'r ffigur hwn yn parhau'n gymharol sefydlog rhwng 3.3% a 4.8% ar gyfer pob blwyddyn o oes y rhaglen. Er y gallai hyn i ddechrau arni awgrymu cofrestriadau anghymwys yn 2022 (pan nad oedd y rhai 19 oed yn gallu cofrestru ar gyfer TSC+), fe'i dylanwadir mewn gwirionedd gan y broses trosglwyddo cyfranogwyr Hyfforddeiaethau i'r rhaglen a'r rheiny wedi troi'n 19 oed yn ystod eu cyfnod ar raglen Hyfforddeiaethau ac, felly, wedi trosglwyddo (yn hytrach na chofrestru) i TSC+ pan oeddent yn 19 oed.


Tabl 5.3: Oedran ar adeg cofrestru â TSC+ – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024

Oedran ar adeg cofrestru	Cofrestriadau i'r rhaglen (nifer)	%	Cyfranogwyr unigryw (N)	%
19	479	4%	347	3%
18	1,749	15%	1,310	13%
17	3,778	32%	2,967	30%
16	5,563	46%	4,982	50%
15	402	3%	401	4%

Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR

5.18 Mae Ffigur 5.4 isod yn dangos y dosbarthiad yn oedran y bobl ifanc a gofrestrodd ar TSC+ dros amser. Mae'n dangos cynnydd sydyn yn ymgysylltiad pobl 16 oed ym mis Gorffennaf bob blwyddyn, gan eu bod bryd hynny fel arfer yn cyfrif am 70% o'r cofrestriadau (gyda phobl 15 oed yn cyfrif am 10% pellach). Yna mae cyfran y cofrestriadau sy'n 16 oed yn gostwng yn gyson drwy gydol y flwyddyn cyn codi eto'r mis Gorffennaf canlynol.

Ffigur 5.4: Y nifer sy'n cofrestru ar raglen TSC+ bob mis yn ôl oedran – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=11,971)

Hyd eu cyfnod yn NEET

- 5.19 Mae set ddata gwybodaeth reoli LLWR yn cofnodi hyd y diweithdra ar adeg cofrestru ar raglen TSC+. Roedd ychydig dros hanner y cyfranogwyr unigryw (53.0%, 5,305/10,008) wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor byr (sef yn NEET am lai na chwe mis), gyda 47.0% (4,703/10,008) wedi'u cofnodi yn ddi-waith tymor hir (NEET am fwy na chwe mis). Mae cyfranogwyr hŷn yn tueddu i fod yn NEET am gyfnod hirach, gyda 57.2% o bobl 18 a 19 oed wedi bod yn NEET am fwy na chwe mis wrth ymgysylltu gyntaf â TSC+ o'i gymharu â dim ond 40.3% o bobl 15 a 16 oed. Roedd cyfran y rhai a gofnodwyd i fod yn ddi-waith hirdymor wrth gofrestru gyntaf ar TSC+ wedi cynyddu dros amser o 43.7% yn 2022 i 51.3% yn 2024.
- 5.20 Mae cryn amrywiad ymhlith proffil NEET ar draws darparwyr. Coleg Cambria a Choleg Sir Benfro a gofnododd y gyfran isaf o ddysgwyr di-waith hirdymor (20.9% a 25.1%) o'i gymharu â 60.6% yn ITEC. Er bod gan Goleg Sir Benfro a Choleg Cambria y gyfran isaf o bobl 18 a 19 oed, nid yw'r gwahaniaethau yn y proffil oedran rhwng darparwyr yn ddigon sylweddol i egluro'n llawn y gwahaniaethau ym mhroffil NEET y dysgwyr (cyflwynir proffil NEET yn Nhabl 5.4 isod).

Tabl 5.4: Statws diweithdra adeg cofrestru fesul darparwr

Statws	GLIM	ACT	Coleg Sir Benfro	ITEC	Coleg Cambria
Yn ddi-waith tymor byr	46.9%	55.2%	74.9%	39.4%	79.1%
Yn ddi-waith tymor hir	53.1%	44.8%	25.1%	60.6%	20.9%

Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR

Lleoliad daearyddol

- 5.21 Yn Nhabl 5.5 isod gwelir nifer y cofrestriadau rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024 yn ôl rhanbarth. Awgryma'r ffigurau bod y rhaglen felly wedi cyrraedd y poblogaethau targed yn fras yn y Gogledd ac yn y De-ddwyrain, tra'n rhagori i raddau helaeth ar y targedau yn y De a'r Canolbarth, sy'n gwneud iawn am ddiffyg yn y ddarpariaeth yng Nghanol y De (o'i gymharu â'r cyfrannau targed).

Tabl 5.5: Nifer y cofrestriadau yn ôl rhanbarth – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024


Rhanbarth cartref	Cofrestriadau (rhaglenni dysgu)		Cyfran y targed	Poblogaeth 16–19 oed
	N	%	%	%
Y Gogledd	1,457	12%	12%	20%
Canol y De	3,679	31%	38%	33%
Y De-ddwyrain	3,138	26%	25%	17%
Y De-orllewin a'r Canolbarth	3,669	31%	25%	29%

Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR, Llywodraeth Cymru; Amcangyfrifon poblogaeth yr ONS ar gyfer Cymru (2023). Codwyd cyfrannau'r targedau o ddogfen Manyleb Rhaglen TSC+ Adran A9.

- 5.22 Yn Ffigur 5.5 isod, cyflwynir lleoliad daearyddol cyfranogwyr TSC+ fesul awdurdod lleol yn ôl gwybodaeth reoli LLWR fel cyfran o gyfanswm y cyfranogwyr ledled Cymru yn ôl cyfranogwyr unigryw. Yna caiff data cyfranogwyr unigryw ei gymharu â nifer cyfrannol yr holl bobl ifanc 16–19 oed sy'n byw yng Nghymru.
- 5.23 Dengys y dadansoddiad mai pobl ifanc Caerdydd sy'n cyfrif am y canran uchaf o'r holl gofrestriadau ar raglen TSC+ (Ffigur 5.5). Caerdydd ac Abertawe oedd yr ardaloedd a oedd fwyaf tebygol o gael rhestrau aros. Mae effeithiau posibl y rheini wedi'u modelu ac maent yn arwain at Abertawe, yn ddamcaniaethol, yn bod â'r ail gynrychiolaeth fwyaf ar y rhaglen oni bai am gofrestriadau sy'n cael eu cyfyngu gan restrau aros.^[Troednodyn 30]
- 5.24 Mae'r dadansoddiad hwn yn datgelu amrywiad eang yn y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc 16 i 19 oed yn cymryd rhan yn y rhaglen: yn wir, roedd y rhai 16 i 19 oed a oedd yn byw yn Nhorfaen yn 2023 wyth gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru ar TSC+ na'r rhai 16 i 19 oed a oedd yn byw ym Mhowys (a chwe gwaith yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn byw yng Ngwynedd). Mae graddfa'r amrywiad mewn ymgysylltiad yn sylweddol ac yn codi'r cwestiwn ynghylch i ba raddau y bernir bod y rhaglen yn hygyrch i bobl ifanc NEET ledled Cymru. Gall ffactorau strwythurol ychwanegol, megis gwahaniaethau yn lefel yr amddifadedd ar draws awdurdodau lleol, hefyd ddylanwadu ar amrywiad rhanbarthol yn yr ymgysylltiad â TSC+.

[30] Pe na bai rhestrau aros, amcangyfrifir, yn Abertawe, y byddai cyfran y cyfranogwyr TSC+ wedi codi i 8.9%, tra yng Nghaerdydd y byddent wedi codi i 13.7% o'i gymharu â phoblogaeth 16 i 19 oed gyfrannol o 8.0% a 15.6% yn y drefn honno.


Ffigur 5.5: Canran cyfranogwyr unigryw gweithredol a phoblogaeth pobl ifanc 16 i 19 oed – 2023



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR, amcangyfrifon poblogaeth yr ONS ar gyfer Cymru (2023)

- 5.25 Dangosir ymhellach gyrhaeddiad rhaglen TSC+ o'i gymharu â demograffeg awdurdodau lleol yn Ffigur 5.6. Roedd treiddiad y farchnad yn arbennig o uchel yn rhanbarthau'r Cymoedd sef Torfaen (10.7%), Merthyr Tudful (10.5%) a Blaenau Gwent (8.3%) ac ar ei isaf yng Ngheredigion (1.9%), Gwynedd (1.8%) a Phowys (1.3%).

Ffigur 5.6: Cyrhaeddiad marchnad yn ôl awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=6,324), amcangyfrifon poblogaeth yr ONS ar gyfer Cymru (2023). Mae tabl data llawn y graff hwn i'w gael yn Atodiad 1, Tabl A.1.


Yr ymgysylltu â TSC+ yn ôl llinyn cymorth

- 5.26 O blith y cyfranogwyr, rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024, cofrestrodd 7,822 yn llinyn Ymgysylltu y rhaglen, sef 65.3% o'r holl rai a ddechreuodd. Roedd un traean

(33.2%, 3,974/11,972) wedi'u cofrestru yn y llinyn Datblygu a dim ond un y cant o'r cyfranogwyr wedi'u cofrestru yn llinyn Cyflogaeth TSC+.

- 5.27 Mae dadansoddi cyfran y cofrestriadau yn ôl llinyn a mis yn cadarnhau canfyddiadau'r adroddiad interim, sef tuedd gynyddol ymysg cyfranogwyr i gofrestru yn y llinyn Ymgysylltu dros amser. Yn ystod chwe mis cyntaf y rhaglen, cofrestrodd 51.9% o'r rhai newydd yn y llinyn Ymgysylltu. Yn y chwe mis hyd at fis Gorffennaf 2024, roedd y gyfran hon yn 77.2%. Ar gyfer yr un cyfnod amser, gostyngodd cyfrannau'r cofrestriadau ar y llinyn Datblygu o 47.0% i 21.2%.

Ffigur 5.7: Cyfran cofrestriadau ar y rhaglen yn ôl mis a llinyn – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=11,972)

- 5.28 Amrywio'n fawr y mae proffil cofrestru'r llinynnau fesul Contractwr, gyda 57.5% o'r rhai a gofrestrwyd gan ACT wedi'u cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu o gymharu â 75.3% o'r rhai a gofrestrwyd gan ITEC. Adlewyrchwyd yr amrywiadau hynny yn y gyfran a oedd wedi cofrestru yn y llinyn Datblygu, gydag ychydig iawn o wahaniaeth yn nifer y cyfranogwyr a gofrestrai yn llinyn Cyflogaeth y rhaglen fesul Contractwr.


Gweithgareddau dysgu

- 5.29 Dim ond mewn un rhaglen ddysgu ar un llinyn y gwnaeth mwyafrif y cyfranogwyr unigol ar gyfer TSC+ (82.0%, 8,207/10,008) gymryd rhan ynddi. Ymhlith y cyfranogwyr a wnaeth sawl rhaglen ddysgu (gan gynnwys llinynnau gwahanol neu llinynnau ailadroddus), gorffennodd bron i dri chwarter ohonynt (73.5%, 1,324/1,801) eu dysgu ar linyn uwch nag yr oeddent wedi dechrau arno'n wreiddiol. Gorffennodd dros un o bob pump (22.6%, 407/1,801) ar yr un llinyn, tra mai dim ond 3.9% (70/1,810) a orffennodd ar linyn is nag y gwnaethent ddechrau arno. Awgryma hyn

fod y pennu ar gyfranogwyr TSC+ i'r llinyn iawn wedi bod yn fras gywir, gyda symud llinynnau yn gysylltiedig yn bennaf â dilyniannau i llinynnau uwch.

- 5.30 Mae dadansoddi gwybodaeth fonitro ledled y rhaglen ar weithgareddau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr yn dangos, ar gyfartaledd rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024, fod pob dysgwr wedi cofrestru mewn ychydig dros dri gweithgaredd. Heb gynnwys dysgwyr a oedd yn dal ar weithgareddau dysgu, cwblhawyd 72.1% (19,010/26,377) o weithgareddau, tra bod 27.1% (7,151/26,377) o ddysgwyr wedi tynnu'n ôl. Daeth cyfran fach o ddysgwyr (0.8%, 215/26,377) â gweithgareddau i ben yn gynnar oherwydd symud i weithgaredd dysgu newydd.
- 5.31 Gweithgareddau a oedd yn canolbwyntio ar sgiliau cyflogadwyedd, (e.e. chwilio am swyddi), oedd y rhai a wnaed amlaf, gan gyfrif am 36.5% o'r holl weithgareddau. Dilynwyd hyn gan weithgareddau wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau bywyd ehangach, fel cyfathrebu, iechyd personol a lles. Fodd bynnag, fel y dangosir yn Ffigur 5.8, mae gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar sgiliau bywyd wedi dod yn fwy cyffredin dros gyfnod y rhaglen, tra bod cyflogadwyedd a datblygu sgiliau penodol i ddiwydiant wedi dod yn llai cyffredin. Gellid cysylltu hyn â chyfranogwyr mwy diweddar yn cyflwyno ag anghenion cynyddol gymhleth, fel y nodir uchod/isod.

Ffigur 5.8: Canran math gweithgaredd o'r holl weithgareddau – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=31,849)

5.32 O'r 30,059 o weithgareddau dysgu a gofnodwyd rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024, roedd 7,539 (25.1%) ohonynt yn gysylltiedig â chymwysterau a reoleiddir sydd wedi'u rhestru yng nghronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru. Y pum cymhwyster uchaf oedd:

- Dyfarniad Rhagarweiniol Lefel Mynediad City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd (Mynediad 3)
- Tystysgrif Lefel 1 ETCAL mewn Cyflwyniad i Baratoi at Wasanaeth Milwrol
- Tystysgrif NVQ Lefel 1 City & Guilds mewn Trin Gwallt a Gwaith Barbwr
- Dyfarniad Lefel 1 City & Guilds mewn Sgiliau Cyflogadwyedd

- Lefel Mynediad City & Guilds Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwys Rhif (Mynediad 3).

Canlyniadau a chyrchfannau

- 5.33 Pennir canlyniadau yn ôl a ydynt yn ganlyniad cadarnhaol, niwtral neu negyddol. Mae diffiniad canlyniad cadarnhaol neu negyddol yn amrywio yn dibynnu ar y llinyn yn TSC+ a statws anabledd y dysgwr, fel y manylir isod. Cyfrifir y gyfradd canlyniad cadarnhaol fel cymhareb y canlyniadau cadarnhaol i gyfanswm y canlyniadau cadarnhaol a negyddol.

Canlyniadau cadarnhaol:

Llinynnau Ymgysylltu a Datblygu:

- Symud ymlaen i addysg ar lefel uwch (gan gynnwys dilyniant o linyn Ymgysylltu TSC+ i linyn Datblygu TSC+)
- Symud ymlaen i gyflogaeth (llawn amser, rhan-amser neu hunangyflogaeth)
- Symud ymlaen i Brentisiaeth
- I ddysgwyr anabl, dosbarthir cyflogaeth am lai na 16 awr yr wythnos hefyd i fod yn ganlyniad cadarnhaol.

Llinyn Cyflogaeth:

- Symud ymlaen i gyflogaeth (llawn amser, rhan-amser [16 awr neu fwy bob wythnos] neu hunangyflogaeth)
- Symud ymlaen i Brentisiaeth

Canlyniadau negyddol:

- Chwilio am waith/yn ddi-waith
- Achosion lle na wyddys y cyrchfan o fewn pedair wythnos.


Canlyniadau niwtral:

- Gwaith gwirfoddol
- Dysgu pellach ar yr un lefel neu lefel is
- Cyflogaeth am lai na 16 awr yr wythnos
- Categori cyrchfannau 'eraill'.

- 5.34 Yn ôl yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd am TSC+, erbyn mis Mawrth 2024 roedd cyfanswm o 10,045 o gofrestriadau ar y rhaglen ers ei lansio ym mis Ebrill 2022. Yn y datganiad ystadegol cofnodwyd cynnydd yng nghyfran y rhai a oedd wedi gorffen gyda'r cyfranogwr wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol, o 58% ym mis Ebrill 2022 i fis Mawrth 2023 i 60% dros y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024. Mae data gwybodaeth reoli LLWR yn dangos, ar gyfer y cyfnod estynedig o lansio'r rhaglen hyd at fis Gorffennaf 2024, mai 60.4% oedd cyfran y cofrestriadau i'r rhaglen a arweiniodd at ganlyniad cadarnhaol. Mae cyfradd y

canlyniadau cadarnhaol wedi codi'n raddol dros oes y rhaglen, gyda chyfnodau brig amlwg ddiwedd y gwanwyn/dechrau'r haf bob blwyddyn (gweler Ffigur 5.9 isod).

Ffigur 5.9: Canran y canlyniadau cadarnhaol yn ôl mis cofrestru – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR (N=9,121)

5.35 Mae Tabl 5.6 isod yn cyflwyno perfformiad yn ôl cofrestrïadau ar y rhaglen a chyfranogwyr unigryw rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024.

Tabl 5.6: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl cofrestrïadau a chyfranogwyr unigryw yn ôl llinyn rhaglen (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)

Llinyn	Cofrestrïadau ar y rhaglen		Cyfranogwyr unigryw	
	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth
Llinyn Cyflogaeth	76%	115	72%	86
Llinyn Datblygu	61%	2,874	60%	1,984
Llinyn Ymgysylltu	60%	6,132	52%	5,211

Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR. Maint y boblogaeth yw cyfanswm y nifer sydd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol neu negyddol ar gyfer pob categori ac nid ydynt yn cynnwys y rhai sy'n cael canlyniad niwtral.

5.36 Mae'n bwysig nodi bod symud ymlaen drwy ddilyniant llinynnau TSC+ (pontio cyfranogwyr o un llinyn i llinyn arall, uwch) wedi'i gynnwys yn y cyfansymiau sy'n gysylltiedig â chofrestrïadau i'r rhaglen. Pan fydd unigolyn yn symud ymlaen (pontio) o'r llinyn Ymgysylltu i'r un Datblygu, caiff hyn ei ddosbarthu yn ganlyniad cadarnhaol, gan fod y dysgwr wedi symud ymlaen i ddysgu ar lefel uwch. Mae gwybodaeth fonitro LLWR yn dangos bod 18.0% (1,801/10,008) o gyfranogwyr

unigryw a oedd yn ymgysylltu â TSC+ wedi cofrestru ar fwy nag un elfen a bod eu cyfranogiad yn cyfrif am 31.4% (3,765/11,972) o gofrestriadau i'r rhaglen yn y cyfnod o Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024.

- 5.37 Ar draws y rhaglen gyfan, mae dadansoddi'r ymgysylltiadau hynny sy'n digwydd dro ar ôl tro yn dangos y gallai symud llinynnau fod wedi dylanwadu ar oddeutu 20% o'r holl ganlyniadau cadarnhaol. Mae Tabl 5.7 yn dadansoddi hyn ymhellach yn ôl darparwr. Y gyfradd canlyniadau cadarnhaol yn ôl cyfranogwyr unigryw ar gyfer oes y rhaglen yw 54.3% (3,953/7,281).

Tabl 5.7: Amcangyfrifon o ganlyniadau cadarnhaol dan ddylanwad symud llinyn yn ôl darparwr – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024

Darparwr	Yr holl ganlyniadau cadarnhaol (cofrestriadau)	Canlyniadau cadarnhaol amcangyfrifedig o symud llinyn	Amllder
ACT Ltd	2,684	669	24.9%
Coleg Sir Benfro	681	131	19.2%
Grŵp Llandrillo Menai	255	43	16.8%
ITEC Training Solutions Ltd	1,637	264	16.1%
Coleg Cambria WBL	254	20	7.8%

Perfformiad yn ôl Contractwr a lleoliad

- 5.38 Y contractwr a'r rhanbarth oedd y prif ddylanwadau ar y tebygolrwydd y byddai dysgwyr yn sicrhau canlyniad cadarnhaol, fel y dengys yn Nhabl 5.8 isod. Yn benodol, roedd dysgwyr yng Ngholeg Sir Benfro yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol o'i gymharu â Chontractwyr eraill. Roedd gan ITEC a GLIM gyfran uwch o gofrestriadau dysgwyr a oedd wedi bod yn NEET ers chwe mis neu fwy (ITEC: 62.7%; 2,216/3,535, GLIM: 56.4%; 351/622) o gymharu â 24.3% (295/1,210) ar gyfer cofrestriadau Coleg Sir Benfro a 22.5% (112/498) yng Ngholeg Cambria.
- 5.39 Mae nifer cyfartalog y rhwystrau^[Troednodyn 31] sydd gan ddysgwyr unigryw a gofrestrodd ar y rhaglen gyda GLIM (1.26) hefyd yn uwch nag ar gyfer darparwyr eraill (0.42–0.82). GLIM hefyd sydd â'r gyfran uchaf o ddysgwyr unigryw sydd ag amryfal rwystrau (34.3%) o'i gymharu â darparwyr eraill (7.3–18.4%). Fodd bynnag, nid yw'r ffactorau hyn yn ddigon i esbonio'r gwahaniaethau yn y canlyniadau a gyflawnwyd gan y Contractwr, gan nad yw dosbarthiad y rhwystrau ymhlith dysgwyr yn cyd-fynd â'r amrywiadau mewn cyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar draws

[31] Dosbarthwyd rhwystrau i fod yn ddysgwr ag anabled neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio, bod yn fudwr neu'n ffoadur, bod â chyfrifoldebau gofalu neu bod yn unrhyw un o'r sefyllfaoedd cartref canlynol: byw mewn aelwyd sydd ag un oedolyn sydd â phlant dibynnol, byw mewn aelwyd heb neb ynddi yn gweithio, byw mewn aelwyd sydd ag un oedolyn, byw mewn aelwyd heb neb ynddi yn gweithio gyda phlant dibynnol, neu bod yn ddigartref neu wedi'i effeithio gan waharddiad tai.

Contractwyr. Dylid cydnabod hefyd y gall pob rhwystr unigol amrywio o ran y graddau y gall effeithio ar allu dysgwr i gael canlyniad cadarnhaol.


Tabl 5.8: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl cofrestriadau a chyfranogwyr unigryw o ddata'r rhaglen (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)

	Cofrestriadau		Cyfranogwyr unigryw	
Categori/nodwedd	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth
Rhanbarth				
Y De-orllewin a'r Canolbarth	69%	2,788	63%	2,185
Y De-ddwyrain	62%	2,320	56%	1,836
Y Gogledd	58%	1,165	56%	980
Canol y De	52%	2,821	45%	2,273
Contractwr				
Coleg Sir Benfro	75%	906	70%	714
Coleg Cambria	64%	396	62%	350
ITEC	64%	2,542	59%	2,072
ACT	56%	4,778	49%	3,723
GLLM	51%	499	46%	422

Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR. Maint y boblogaeth yw'r cyfanswm sydd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol neu negyddol ar gyfer pob categori.

5.40 Mae'n debygol y bydd y Contractwr ei hun yn dylanwadu ar y gwahaniaethau yn ôl rhanbarth i ryw raddau ond maent hefyd yn amlwg ar lefel awdurdod lleol. Mae Ffigur 5.10 isod yn dangos cyfradd y canlyniadau cadarnhaol ar gyfer cyfranogwyr unigryw a gwblhaodd y rhaglen yn ôl awdurdod lleol. Llwyddodd 70% o'r rhai sy'n byw yn Sir Benfro i gael canlyniad cadarnhaol o'i gymharu â 34.7% o'r rheiny yng Nghaerdydd.

Ffigur 5.10: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024




Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=7,274). Mae tabl sydd â'r data llawn i'w weld yn Atodiad 1, Tabl A3

- 5.41 Nid yw cyfran yr unigolion sy'n pontio i gyflogaeth yn cyd-fynd yn union â dosbarthiad cyffredinol y canlyniadau cadarnhaol. Mae Ffigur 5.11 yn dangos, er bod awdurdodau lleol fel Sir Benfro, sydd â chyfraddau uchel o ganlyniadau cadarnhaol, hefyd yn gweld cyfran sylweddol o gyfranogwyr yn pontio i gyflogaeth (27.4%), mae symud i gyflogaeth yn dylanwadu'n gryfach ar ganlyniadau cadarnhaol mewn ardaloedd eraill. Yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, mae 28.9% o gyfranogwyr yn symud i gyflogaeth, sy'n cyfrif am dros hanner yr holl ganlyniadau cadarnhaol o'i gymharu â dim ond 8.8% yng Nghaerdydd (chwarter yr holl ganlyniadau cadarnhaol).


5.42 Mae patrymau amrywiadau daearyddol hefyd yn trosglwyddo i ganlyniadau negyddol, gyda Ffigur 5.12 yn dangos sut mae'r rheiny sy'n byw yng Nghaerdydd bron dair gwaith yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad negyddol na'r rhai sy'n byw yn Wrecsam neu Sir y Fflint.

Ffigur 5.11: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi cael cyflogaeth lawn amser neu ran-amser yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=8,053). Mae tabl cyfeirio llawn i'w weld yn Atodiad 1.

Ffigur 5.12: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ sy'n chwilio am waith neu sy'n ddi-waith (wedi'i ddiffinio fel canlyniad negyddol) yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR (N=8,053). Mae tabl cyfeirio llawn i'w weld yn Atodiad1.

Canlyniadau yn ôl nodweddion personol

- 5.43 Er mwyn archwilio'r berthynas rhwng nodweddion allweddol a'r tebygolrwydd o gael canlyniad cadarnhaol, cynhaliwyd model atchweliad logistaidd gan ddefnyddio'r nodweddion a restrir yn y tabl isod yn ogystal â blwyddyn yr ymgysylltu. Perfformiwyd y profion ar bob cofrestrriad i'r rhaglen a hefyd ar gyfer cyfranogwyr unigryw yn seiliedig ar y canlyniad terfynol a gyflawnwyd yn sgil dechrau eu rhaglen neu llyn. Canfuwyd gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl oedran ar adeg cofrestru, ethnigrwydd, gallu i siarad Cymraeg, cymhwyster uchaf, anabledd, a statws tai. Rhoddwyd prawf hefyd ar rywedd, hyd NEET, cyfrifoldebau gofalu, a statws gweithiwr mudol neu ffoadur hefyd, ond ni chanfuwyd unrhyw berthynas ystadegol arwyddocaol yn achos y rhain.
- 5.44 Mae Tabl 5.9 isod yn amlinellu canlyniadau dadansoddiad atchweliad yn seiliedig ar nodweddion personol dysgwyr. Mae hyn yn archwilio a yw nodweddion personol gwahanol yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o gyflawni canlyniad cadarnhaol, ac i ba raddau, wrth reoli ar gyfer yr holl nodweddion personol eraill.

- 5.45 Yn y tabl gwelir y gymhareb ods, sy'n dangos y newid cymharol yn y siawns o sicrhau canlyniad cadarnhaol (yn hytrach na chanlyniad negyddol) ar gyfer nodwedd benodol (megis bod yn fenyw) o'i gymharu â nodwedd foddol (*modal characteristic*, megis bod yn ddyn), gan gadw categorïau eraill yn gyson. Mae'r nodwedd foddol yn cynrychioli'r categori sydd â'r nifer uchaf ynddo, gan felly fod yn bwynt cyfeirio ar gyfer cynnal cymariaethau ystadegol yn ei erbyn. Mae cymhareb ods sy'n fwy nag 1 yn awgrymu siawns uwch o ddysgwyr yn cyflawni canlyniad cadarnhaol o'i gymharu â'r nodwedd foddol, tra bod cymhareb siawns sy'n is nag 1 yn awgrymu siawns is.
- 5.46 Gan fod pob newidyn yn yr atchweliad hwn yn cael ei drin fel newidynnau pendant, gellir dehongli'r gymhareb ods fel a ganlyn: mae cymhareb ods o 1.01 yn golygu bod y siawns y bydd dysgwr yn cyflawni canlyniad cadarnhaol 1% yn uwch ar gyfer y nodwedd hon o'i gymharu â'r nodwedd foddol, gan gadw'r holl nodweddion eraill yn gyson. Yn yr un modd, byddai cymhareb ods o 0.99 yn dangos bod y siawns o gyflawni canlyniad cadarnhaol 1% yn is o'i gymharu â'r nodwedd foddol.
- 5.47 Mae arwyddocâd ystadegol y gymhareb ods wedi'i ddynodi gan seren (*) wrth ei hymyl, gyda graddfa'r arwyddocâd ystadegol wedi'i phrofi ar lefelau 5%, 1% a 0.1%. Mae trafodaeth ar y perthnasoedd ystadegol arwyddocaol hyn i'w chael o dan y tabl.

Tabl 5.9: Canlyniadau cadarnhaol yn ôl nodweddion personol cyfranogwyr unigryw (Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024)

Categori/nodwedd	Ods	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth
Rhyw			
Menyw	1.02	55%	3,332
Gwryw (y nodwedd foddol)	1	54%	3,890
Arall	1.01	53%	59
Oedran			
15	***1.03	69%	257
16 (y nodwedd foddol)	1	56%	3,487
17	***0.99	49%	2,238
18	1	54%	1,017
19	1.01	56%	281
Ethnigrwydd			
Du	*1.02	63%	115
Cymysg	*1.01	60%	143
Gwyn (y nodwedd foddol)	1	54%	6,731

Categori/nodwedd	Ods	% a oedd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol	Maint y boblogaeth
Asiaidd	1	52%	100
Arall	0.98	41%	115
Yn ôl gallu i siarad Cymraeg			
Yn rhugl	*1.01	58%	605
Ddim yn rhugl	***1.03	66%	811
Ddim yn siarad Cymraeg (y nodwedd foddol)	1	52%	5,865
Cymhwyster uchaf			
Lefel cyn mynediad	***0.98	53%	2,358
Lefel mynediad	**0.98	50%	317
Lefel 1	***0.98	48%	1,704
Lefel 2 (y nodwedd foddol)	1	59%	2,777
Lefel 3	1.02	66%	122
Anabledd			
Dysgwyr ag anabledd ac/neu anhawster dysgu	**0.99	50%	1,689
Dysgwyr heb anabledd ac/neu anhawster dysgu (y nodwedd foddol)	1	56%	5,378
Statws llety			
Yn byw mewn cartref lle nad oes unrhyw un yn gweithio	*0.99	49%	754
Yn ddigartref neu wedi'u heffeithio gan waharddiad tai	**0.97	38%	87
Unrhyw aelwyd arall (y nodwedd foddol)	1	55%	5,455

Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR. Mae'r symbolau mewn cromfachau yn y tabl yn dynodi arwyddocâd ystadegol, gan fod â chryfder cynyddol y berthynas fel a ganlyn: * $p < 0.05$, ** $p < 0.01$, *** $p < 0.001$.

- 5.48 Maint y boblogaeth yw'r cyfanswm sydd wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol neu negyddol ar gyfer pob categori.
- 5.49 Dangosodd y dadansoddiad atchweliad fod y bobl ifanc hynny sydd â chymwysterau Lefel 1 neu is fel eu cymhwyster uchaf wrth ymuno â TSC+ yn llai tebygol yn ystadegol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r rhai yr oedd eu

cymhwyster uchaf yn Lefel 2. Roedd siaradwyr Cymraeg, yn enwedig siaradwyr nad ydynt yn rhugl, yn sylweddol fwy tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol na'r rheiny nad ydynt yn siarad Cymraeg.

- 5.50 Yn ystadegol, y dysgwyr hynny a ymunodd yn 17 oed oedd â'r gyfradd isaf o ran canlyniadau cadarnhaol o'i gymharu â chyfranogwyr hŷn ac iau. Y rhai 15 a 16 oed oedd fwyaf tebygol o symud yn ôl i ddysgu gan fod ag awydd dysgu ar lefel uwch, sy'n awgrymu llwyddiant y rhaglen yn ymgysylltu â'r rheiny sy'n ymuno yn fuan ar ôl gadael addysg.
- 5.51 O'i gymharu â dysgwyr o ethnigrwydd Gwyn, roedd cyfranogwyr o ethnigrwydd Du neu Gymysg yn fwy tebygol yn ystadegol o gyflawni canlyniad cadarnhaol. Mae dysgwyr â lefelau cymhwyster is wrth ddechrau neu ddysgwyr ag anabledd neu anhawster dysgu yn llai tebygol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Mae byw mewn cartref lle nad oes unrhyw un yn gweithio a bod yn ddigartref neu wedi'i effeithio gan waharddiad tai yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaeth na'r llinell sylfaen.

Gwerth am arian

- 5.52 Fel gwerthusiad ffurfiannol, bychan fu'r pwyslais ar asesu gwerth am arian TSC+, gan y byddai hynny'n fwy addas ar gyfer gwerthusiad crynodedol lle bydd mwy o bwyslais ar asesu effaith ac enillion ar fuddsoddiad.^[Troednodyn 32]
- 5.53 Er mwyn rhoi lefel y gwariant mewn cyd-destun, fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad cost-effeithlonrwydd cymharol fras (sef y gost fesul ymgysylltiad), gan ei feincodi yn erbyn ymyriadau cymorth cyflogadwyedd eraill yng Nghymru.
- 5.54 Mae gwariant y rhaglen (costau uniongyrchol ynghyd â chostau cymorth ar gyfer y rhaglen) a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd ariannol 2022–2023 a 2023–2024 yn cyfateb i £61.9 miliwn. Cyflwynir dadansoddiad bras o hyn yn Nhabl 5.10 isod. Yn ystod y cyfnod hwnnw, yn seiliedig ar ddadansoddi gwybodaeth reoli, roedd 10,471^[Troednodyn 33] o gofrestriadau ar y rhaglen ar gyfer 8,849 o unigolion unigryw.

[32] Mae trosolwg o ddull posibl ar gyfer hyn i'w gael yn y [fframwaith effaith ar gyfer TSC+ yma](#).


[33] Mae ffigurau cyhoeddiedig yn awgrymu ffigur ychydig yn wahanol sef 10,465.

Tabl 5.10: Costau'r rhaglen

Cost darparu'r rhaglen	Blwyddyn ariannol
2022 i 2023	£23,841,488
2023 i 2024	£22,026,687
Cyfanswm costau darparu	£45,868,176
Costau cymorth ar gyfer y rhaglen	
2022 i 2023	£5,126,569
2023 i 2024	£10,867,821
Cyfanswm costau cymorth	£15,994,390
Cyfanswm costau'r rhaglen	£61,862,566

- 5.55 Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae'r gost fesul ymgysylltiad ar gyfer TSC+ yn cyfateb i £6,991 fesul cyfranogwr unigryw a £5,908 fesul ymgysylltiad unigryw. Gellir meincnodi'r gost fesul ymgysylltiad yn erbyn cyfres o raglenni tebyg, gwelir Ffigur 5.13 isod (sy'n cynnwys rhaglen TSC2, a redodd o 2015 i 2019). Yn seiliedig ar y mesur hwn yn unig, mae TSC+ yn ddrytach fesul ymgysylltiad na chynlluniau cefnogi eraill; fodd bynnag, pan ychwanegir effeithiau chwyddiant at TSC2, mae'n cyfateb i £5,751 fesul ymgysylltiad ac yn cynrychioli chwyddiant ymylol yn y gost fesul ymgysylltiad o'i gymharu â TSC+.
- 5.56 Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'n uniongyrchol, o gofio'r gwahaniaeth yn y math o raglen, e.e. o ran y grwpiau yr oeddent yn eu targedu, dyluniad y rhaglen, y cyddestun yr oeddent yn gweithredu ynddo, a maint a dwyster y gefnogaeth a gynigid. Er enghraifft, mae'r cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion ymhlith pobl ifanc wedi golygu bod angen mwy o adnoddau, yn dilyn pandemig COVID-19.

Ffigur 5.13: Cost fesul ymgysylltiad mewn rhaglenni tebyg (prisiau 2023 i 2024)



Ffynhonnell: TSC/Twf Swyddi Cymru (Llywodraeth Cymru, 2020), CfW/CfW+ (Cymunedau am Waith/Cymunedau am Waith a Mwy, Llywodraeth Cymru, 2024), PaCE (Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth, Llywodraeth Cymru, 2023), Rhaglen Waith ac Iechyd ac Ailddechrau (Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, 2021), ReAct III (Llywodraeth Cymru, 2021). Sylwer, ar gyfer PaCE a CfW/CfW+, defnyddiwyd mynegai chwyddiant cyfartalog ar gyfer cyfnod hyd y prosiect.

Crynodeb o'r adran

- Rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024 roedd 11,972 wedi cofrestru ar y rhaglen a 10,008 o gyfranogwyr unigryw yn TSC+.
- Roedd brig neu gynnydd clir yn y nifer a oedd yn cofrestru ym mis Gorffennaf bob blwyddyn (yn ôl pob tebyg yn gysylltiedig â'r rheiny oedd yn gorffen yr ysgol, gan fod cofrestriadau mis Gorffennaf wedi'u dominyddu gan bobl ifanc 16 oed) ynghyd â brig llai amlwg ym mis Hydref bob blwyddyn (yn debygol o fod yn gysylltiedig â'r rheiny sy'n gadael addysg neu hyfforddiant yn ystod hanner tymor mis Hydref).
- Amcangyfrifir bod JGW+ yn cefnogi 30–40% o'r holl bobl ifanc NEET yng Nghymru yn 2022 a 2023.
- Arweiniodd cynnydd sydyn yn y nifer yn cofrestru at gynnydd mewn llwythi achosion o haf 2023 ymlaen, gyda'r rhain wedi parhau i raddau helaeth am chwe mis cyn y cafwyd gostyngiad bach (yn ôl pob tebyg yn gysylltiedig â chyfyngiadau ariannu).
- Roedd bron i chwarter y cyfranogwyr wedi datgan rhyw fath o amhariad, gyda mwy na hanner o'r rhain yn ymwneud ag anawsterau dysgu.
- Gwelir amrywiad daearyddol yn y duedd i gymryd rhan yn y rhaglen, gyda'r rhai 16 i 19 oed sy'n byw yn Nhorfaen wyth gwaith yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru ar TSC+ na'r rhai sy'n byw ym Mhowys.
- Mae'r llinyn Ymgysylltu wedi dod yn gynyddol boblogaidd yn ystod y rhaglen ac mae bellach yn cyfrif am dros dri chwarter o'r holl gofrestriadau. Dim ond 1% o'r holl gofrestriadau yw'r llinyn Cyflogaeth.
- Bu tuedd gyffredinol tuag at ddarparu sgiliau bywyd a sgiliau sylfaenol drwy TSC+ ac i ffwrdd o weithgareddau yn ymwneud â bod yn agos at sicrhau cyflogaeth (e.e. chwilio am swyddi).
- Mae cyfraddau'r canlyniadau cadarnhaol wedi gwella'n gyson drwy gydol y rhaglen; fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol yn bodoli o ran Contractwr a daearyddiaeth.
- Mae rhai nodweddion cyfranogwyr yn dylanwadu ar y tebygolrwydd o sicrhau canlyniad cadarnhaol, gan gynnwys oedran, y gallu i siarad Cymraeg, cymwysterau, ethnigrwydd, anawsterau dysgu.


6. Barn am y model cyflenwi

- 6.1 Mae'r bennod hon yn archwilio'r gweithredu ym mhob cam o gynnal TSC+, gan gynnwys yr atgyfeirio, cyn ymgysylltu, asesu, a darparu gwasanaeth. Rydym yn trafod safbwyntiau pob grŵp rhanddeiliaid, gan nodi cryfderau, heriau, a meysydd posibl ar gyfer gwella.

Hyrwyddo ac ymgysylltu

- 6.2 Nod ymgyrchoedd i hyrwyddo TSC+ oedd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am y rhaglen, a'r rhan fwyaf ohono wedi'i dargedu at bobl ifanc yng nghyfnodau dechreuol y rhaglen. Roedd enghreifftiau o ddeunydd marchnata yn cynnwys taflenni, hysbysebu ar fysiau, a chynnal sesiynau yn y cnawd mewn ysgolion. Roedd profion brand a gynhaliwyd gan asiantaeth ymgyrchu Golley Slater wedi dangos lefelau rhyngweithio ac ymgysylltu uwch na'r cyffredin â brand TSC+.
- 6.3 Yn sgil mwyfwy o gyfranogwyr a'r risg gysylltiedig o or-danysgrifio cyfranogwyr ar y rhaglen, rhoddwyd y gorau i ymgyrchoedd hyrwyddo cenedlaethol ar gyfer TSC+. Ar ben hynny, roedd pryderon ynghylch gwerth contractau a nifer y lleoedd a ariennir sydd ar gael wedi golygu bod rhai Contractwyr yn amharod i barhau i recriwtio, oherwydd ofnau y byddai lleoedd a ariennir yn dod i ben cyn diwedd y contract. Ar y lefel leol (pan oedd cyfleoedd i gofrestru ar TSC+ yn parhau i fod ar gael), adroddodd staff awdurdodau lleol eu bod yn hyrwyddo TSC+ i bobl ifanc, gyda rhai yn ei hyrwyddo yn y gweithgareddau a gynhelid ganddynt mewn ysgolion.
- 6.4 Gan gyd-fynd â chanfyddiadau'r cam interim, gwelwyd mai ffactor pwerus wrth annog pobl ifanc i gymryd rhan yn TSC+ oedd rhywun wedi sôn wrthyn nhw am y rhaglen, fel y dangosir drwy fod 36% (58/162) o'r cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg wedi dod i wybod am y rhaglen drwy'r ffordd hon. Mae hyn yn dangos bod TSC+ yn frand sefydledig ymhlith dysgwyr, gan gysylltu â chanfyddiadau cynharach bod y rhyngweithio â'r brand yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd adroddiad Gwarant i Bobl Ifanc Llywodraeth Cymru wedi canfod bod ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael o ran cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn isel ymhlith pobl 16–24 oed, gan danlinellu pwysigrwydd cynnal brand TSC+ cydnabyddedig.
- 6.5 Roedd 33% pellach (54/162) o ymatebwyr yr arolwg craidd wedi'u cyfeirio drwy sefydliad (a'r enghreifftiau a roddwyd yn rhan o'r ymateb hwnnw yn cynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, Cymru'n Gweithio, a Gyrfa Cymru), sy'n awgrymu bod sefydliadau allanol yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth ymgysylltu â chyfranogwyr. Cododd y cynnydd yn yr ymgysylltu drwy ysgolion a cholegau ers y cam interim o fod yn llai na 5% i fod yn 15%, sy'n awgrymu mwy o ymwneud ag addysg (fel yr argymhellwyd gan Contractwyr). Gwnaeth pum Contractwr sylwadau ar hyrwyddo effeithiol mewn ysgolion a cholegau, yn enwedig drwy swyddogion ymgysylltu'r Contractwyr.

Ffigur 6.1: Sut daethoch chi i glywed gyntaf am raglen TSC+?



Ffynhonnell: Arolwg dygwyr craidd (n=162)

Atgyfeiriadau

- 6.6 Mae gan TSC+ ddau brif lwybr atgyfeirio: sef atgyfeirio drwy Cymru'n Gweithio ac atgyfeirio uniongyrchol drwy Gontractwyr, Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) a'r dysgwyr eu hunain. Ar y cyfan, gwelodd Contractwyr a staff Llywodraeth Cymru duedd barhaus o symud i ffwrdd o atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio tuag at atgyfeiriadau uniongyrchol ehangach drwy Gydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd, gwasanaethau ieuencid, a Chontractwyr, a hyn yn cyd-fynd ag ymatebion yr arolwg a drafodwyd uchod, ynghyd â chanfyddiadau data monitro.
- 6.7 Awgrymwyd bod dulliau atgyfeirio uniongyrchol yn fwy deniadol i'r rheiny a allai fod yn amharod i ymwneud â chynghorwyr gyrfaoedd, a gallant annog mwy o ymgysylltu drwy gyfoedion oherwydd bod cyfranogwyr yn gallu cyflwyno a dod â ffrindiau i'r rhaglen. Gan amlaf, mae hefyd yn llwybr cyflymach i ymgysylltu â'r rhaglen, gan fod llai o gamau (a llai sefydliadau yn rhan ohono) o'i gymharu ag atgyfeirio trwy sefydliadau allanol a Cymru'n Gweithio, gan leihau'r posibilrwydd o ymddieithrio cyn cofrestru.
- 6.8 Fodd bynnag, adroddodd dau Gontractwr fod atgyfeiriadau uniongyrchol yn rhoi llai o wybodaeth gefndir na'r rhai o Cymru'n Gweithio, sy'n gallu gweld gwybodaeth ysgol, er enghraifft, felly gallant sôn am y wybodaeth gefndir sydd ar gael yn eu hatgyfeiriad. Wedi dweud hynny, dywedodd cynrychiolwyr tri Chontractwr fod diffyg gwybodaeth yn atgyfeiriadau Cymru'n Gweithio, e.e. yn ymwneud ag anghenion a rheoli disgwyliadau cyfranogwyr o ran eu dyheadau a'u galluoedd. Mewn rhai

achosion, mae hyn wedi achosi oedi ag atgyfeiriadau wrth holi am wybodaeth fwy cywir gan Gymru'n Gweithio.

- 6.9 Parhau i fod yn amrywiol ledled Cymru y mae rôl y Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) yn y broses atgyfeirio, fel y nodwyd yn y cam interim. Nododd pump o'r Cydlynwyr ddiffyg tryloywder yn y gefnogaeth a gynigir ym model TSC+. Roedd hyn wedi creu amharodrwydd i atgyfeirio rhai unigolion oherwydd ansicrwydd ynghylch pa mor briodol oedd cymorth sy'n benodol i'w hanghenion ac a oedd ar gael ai peidio. I awdurdodau lleol yn y Gogledd, roedd y farn fod diffyg safleoedd addas ar gyfer y rhaglen yn ogystal â chapasiti bychan (gyda rhai yn gweithredu gyda rhestrau aros) wedi dylanwadu ar yr amharodrwydd hwnnw. Yn eu tro, adroddodd Contractwyr sut y byddai rhai Cydlynwyr yn rhan o gyfarfodydd gweithredol rheolaidd, tra na fyddai gan eraill fawr ddim ymgysylltiad. Credwyd bod hyn yn debygol o fod oherwydd cyfyngiadau capasiti, ond roedd pryder y gallai hyn fod wedi effeithio ar nifer yr atgyfeiriadau, gyda'r Cydlynwyr a oedd yn ymwneud llai yn fwy tebygol o atgyfeirio i rywle arall (os o gwbl).
- 6.10 Ar ben hynny, nododd sawl Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd, er bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Cymru'n Gweithio, nad yw pryderon penodol ynghylch atgyfeiriadau bob amser yn cael eu codi. Byddai rhannu gwybodaeth yn fwy cyson rhwng Contractwyr a'r Cydlynwyr yn cefnogi dull mwy cyson ledled Cymru.

Y broses asesu

- 6.11 O ran y broses asesu, roedd bron pob Contractwr yn dibynnu ar gyfuniad o gynnwys yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, gwybodaeth a rannwyd yn flaenorol, a thrafodaethau unigol gyda dysgwyr i asesu anghenion. Gan amlaf, byddai maint llawn yr anghenion a'r rhwystrau a wynebais cyfranogwyr yn dod yn fwy amlwg ar ôl i berthynas gael ei sefydlu rhwng y cyfranogwr ac aelod y staff. Yn aml, roedd cyfranogwyr yn llai agored wrth fynegi'r rhwystrau a wynebant pan oedd rhieni neu warcheidwaid yn bresennol mewn cyfarfodydd asesu, a phan nad oedd hynny'n berthnasol, roedd ansicrwydd weithiau ymhlith pobl ifanc ynghylch yr hyn a oedd yn gymwys fel rhwystr ac a ddylid ei rannu wedyn ai peidio.
- 6.12 Gwnaed sylwadau gan un Contractwr a'i ls-gontractwyr ar effeithiolrwydd y pecyn asesu Dot Coch a oedd yn mesur lles cyfranogwyr ar y dechrau, ac roeddent o'r farn ei fod yn effeithiol. Gofynna'r pecyn hwn gyfres o gwestiynau sy'n ymwneud â lles, gan roi sgôr allan o 10. Mae sgôr is yn dynodi lles is, gyda chontractwyr yn egluro y byddai'r rheiny sy'n sgorio islaw 5 yn aml yn cael cynnig cymorth unigol. Ymhlith yr holl Gontractwyr, fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o broses safonol ar gyfer mesur lles naill ai yn ystod y cyfnod asesu na thrwy gydol y ddarpariaeth. Heb offer o'r fath, nid oes unrhyw waelodlin sylfaenol, gan gyfyngu ar y gallu i fesur newidiadau mewn lles ar draws y rhaglen. Yn fwy cyffredinol, câi'r asesiad lles yn aml ei gynnal drwy sgwrs fesul achos ac felly o bosibl yn agored i gael ei ddehongli mewn ffyrdd gwahanol.

- 6.13 Pan nodwyd anghenion ychwanegol o ran iechyd a lles drwy asesiad, byddai Contractwyr fel arfer yn cyfeirio sefyllfa'r cyfranogwr at banel i drafod llwybrau cymorth priodol. Byddent hefyd (lle bo'n briodol) yn atgyfeirio cyfranogwyr at eu timau ADY neu at y cynrychiolydd diogelu i asesu'r anghenion a'r risgiau cysylltiedig ymhellach.
- 6.14 Esboniodd contractwyr bwysigrwydd defnyddio dull pwrpasol sy'n seiliedig ar sgwrs ar gyfer asesu, gan fod anghenion cyfranogwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu mor amrywiol. O ystyried anghenion cymhleth cyfranogwyr, eglurodd rhai Contractwyr fod y broses asesu wedi gor-symleiddio rhai anghenion trwy eu ffitio i mewn i gategoriâu wedi'u diffinio ymlaen llaw, gan arwain at wybodaeth amwys neu anghywir.
- 6.15 Yn debyg i'r farn y soniwyd amdani yn y cam interim, roedd y cyfyngiadau cyfreithiol ar rannu data wedi creu heriau pellach wrth gael gafael ar yr holl wybodaeth berthnasol ar gyfer asesu anghenion, gan gynnwys data ysgolion, a Chynlluniau Dysgu Unigol (CDU). Byddai rhoi mynediad at y wybodaeth gefndir angenrheidiol trwy ddefnyddio Cytundebau Rhannu Data yn gwella cywirdeb yr asesiad a thrwy hynny yn sicrhau bod cefnogaeth briodol yn cael ei rhoi.

Cyn ymgysylltu ('Bydd Barod/Get Ready')

- 6.16 Soniodd Contractwyr a staff yr awdurdodau lleol am fanteision y gweithgareddau cyfoethogi ychwanegol cyn-ymgysylltu (Bydd Barod) a'r rhain wedi bod ar gael yn ehangach ar ôl Ionawr 2023 i gefnogi ymgysylltu â'r rhaglen a lles. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys meithrin tîm, teithiau awyr agored, ac arweiniad ymarferol ynghylch lles a gwydnwch, gyda'r nod o annog rhyngweithio cymdeithasol. Ystyriwyd bod hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried cymhlethdod cynyddol yr anghenion a ddeuai i'r fei, a theimlai Contractwyr fod hyn yn golygu bod cyfranogwyr ymhellach o'r farchnad lafur nag ym mlynnyddoedd blaenorol cynnal TSC+. Esboniodd pedwar Contractwr fod y gweithgareddau hyn yn rhoi profiad cadarnhaol o gefnogaeth i gyfranogwyr ynghyd â rhoi syniad o'r hyn i'w ddisgwyl cyn ymrwymo'n llawn i'r rhaglen.
- 6.17 Ystyriai rhanddeiliaid hefyd bod y ddarpariaeth Bydd Barod yn llwyddiant mawr. Esboniodd saith Cydlynnydd Ymgysylltiad a Chynnydd hefyd fod y gweithgareddau hyn yn darparu cyfleoedd ehangach na'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar addysg, gan felly annog ymgysylltiad. Fe'i gwelwyd yn rhywbeth a oedd yn gosod llinell sylfaen ar gyfer ymgysylltiad mwy ffurfiol, gan roi amser i ganolbwyntio ar sgiliau meddal ac ymgysylltiad (yn hytrach nag ar gyflogaeth):

“[Mae gweithgareddau cyfoethogi] yn rhoi'r cysondeb, y strwythur a'r gefnogaeth honno iddyn nhw a hynny'n rhoi modd iddyn nhw ddatblygu a gobeithio cael canlyniad cadarnhaol ar y pen arall. Mae TSC+ yn ein helpu ni i ymestyn y gwahanol lwybrau ac opsiynau i bobl ifanc. Nid yw'r bobl ifanc hyn yn barod ar gyfer gwaith na choleg. Mae angen y cymorth a'r gefnogaeth honno arnyn nhw yn gyntaf ac mae TSC+ yn rhoi hynny iddyn nhw.” **(Awdurdod Lleol)**


6.18 Adroddodd rhai Contractwyr eu bod wedi lleihau faint o weithgareddau (cyfoethogi) Bydd Barod y maent wedi'u cynnal oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a chapasiti darparwyr. Yn gyffredinol, teimlai Contractwyr fod gweithgaredd 'treialu' cyn-ymgysylltu yn bwysig, yn enwedig i'r rheiny a fyddai'n cael trafferth cymryd rhan mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth, ac y dylai hwn fod yn gynnig mwy cyffredinol arferol yn y rhaglen. Awgrymodd Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd hefyd fod pwyslais cryf ar iechyd a lles yn y sesiynau cyn-ymgysylltu:

“Mae darparwyr yr hyfforddiant yn cael trafferth â chyllid ac mewn llawer o achosion maent wedi torri ar y cyfleoedd cyfoethogi. Mae mwy a mwy o weithgareddau'n cael eu gwneud yn y ganolfan oherwydd arbedion cost a phrinder staff.” **(Awdurdod Lleol)**

6.19 Mae'r wybodaeth reoli yn Ffigur 6.2 isod yn dangos bod gweithgareddau Bydd Barod yn cyfrif am 3.8% o holl weithgareddau TSC+; fodd bynnag, mae nifer y gweithgareddau hynny wedi amrywio dros amser, gan fod yn 50.5% o'r holl gofrestriadau ar y rhaglen ym mis Gorffennaf 2023 ac yna gostyngiad parhaus wedi hynny (gan adlewyrchu sylwadau'r Cydlynwyr), er y cafwyd brig tymhorol llai o 18.6% o'r holl gofrestriadau ym mis Gorffennaf 2024.

Bydd Barod


Ffigur 6.2: Nifer yn dechrau ar weithgareddau Bydd Barod bob mis – Ionawr 2023 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: Gwybodaeth reoli LLWR

- 6.20 Mae Ffigur 6.3 isod yn dangos dosbarthiad cyfranogwyr unigol TSC+ yn ôl ardal awdurdod lleol. Dengys bod gweithgareddau Bydd Barod wedi'u canolbwyntio'n arbennig yng Nghastell-nedd Port Talbot (24.9%) a Sir y Fflint (23.0%). Ni chofrestrodd unrhyw gyfranogwyr ar gyfer gweithgareddau Bydd Barod yng Ngheredigion, tra bod llai na 5% o gyfranogwyr wedi cofrestru ar gyfer Bydd Barod yn ardaloedd awdurdod mwy gwledig y Canolbarth a'r De-orllewin.

Ffigur 6.3: Canran yr unigolion a gofrestrodd mewn gweithgareddau Bydd Barod yn ôl awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR (N=9,990). Mae tabl y canlyniadau llawn i'w weld yn Atodiad 1.

- 6.21 Soniodd Contractwyr hefyd am anawsterau yn ymwneud â hyd darpariaeth Bydd Barod, gan nad oedd llawer o ddysgwyr yn barod i symud i'r llinyn Ymgysylltu ar ddiwedd y 12 wythnos. Teimlai contractwyr y gallai trosglwyddo i'r llinyn Ymgysylltu yn rhy gynnar gynyddu'r risg y bydd cyfranogwyr yn gadael â chanlyniad negyddol cyn sicrhau dilyniant cadarnhaol.

Pennu i llinyn TSC+

- 6.22 Gan gyd-fynd ag ymatebion yn y cam interim, pan geid atgyfeiriadau drwy Cymru'n Gweithio, soniodd darparwyr gwasanaeth am broblemau yn ymwneud â phennu pa llinyn i roi'r person ifanc ynddo. Roedd hyn yn bennaf oherwydd diagnosis dyfnder yr


angen yn yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio, gyda Chontractwyr yn teimlo nad oedd dulliau atgyfeirio Cymru'n Gweithio yn ddigon hyblyg i ganiatáu archwilio pellach ar rwystrau cyfranogwyr. Fodd bynnag, mae data monitro yn awgrymu bod yr achosion hyn yn brin, gyda dim ond 73 (llai nag 1%) o gyfranogwyr yn cael eu symud i lawr llinyn, tra bod 395 o ymgysylltiadau â'r rhaglen wedi gweld cyfranogwyr unigryw yn ailadrodd llinyn.

- 6.23 Ymddengys bod camsyniad yn parhau, fel y nodwyd yn y cam interim, nad yw Contractwyr yn gallu diystyru'r dewis llinyn a bennwyd. Gwnaeth Contractwyr sylwadau ar yr adnoddau sydd eu hangen i gysylltu â Cymru'n Gweithio, er enghraifft, i ddeall y broses gwneud penderfyniadau wrth reoli disgwyliadau'r cyfranogwr. O ganlyniad, parhau mae'r angen i gael canllawiau pellach ynghylch sut y gellir defnyddio barn broffesiynol i sicrhau bod cyfranogwyr yn cael eu rhoi ar y llinyn cymorth priodol.

Y gefnogaeth ddechreuol

- 6.24 Er bod rhestrau aros ar waith mewn rhai ardaloedd (yn enwedig Caerdydd ac Abertawe), roedd 76% (121/160) o'r cyfranogwyr a holwyd yn gallu cael cymorth TSC+ ar unwaith. O'r cyfranogwyr hynny a ddywedodd eu bod wedi gorfod aros (52%, 15/29), adroddodd tua hanner ohonynt eu bod wedi aros pythefnos neu lai. Esboniodd Contractwyr y gallai'r rheiny ag anghenion cymorth mwy cymhleth fod wedi gweld rhywfaint o oedi i gofrestru er mwyn sicrhau y gallai cynlluniau cymorth effeithiol fod ar waith. Ar ben hynny, roedd rhai o'r farn bod y dystiolaeth annigonol yn asesiadau'r Adroddiadau Asesu ac Atgyfeirio y soniwyd amdano uchod, sef gan Cymru'n Gweithio, wedi arwain at oedi wrth gael cymorth er mwyn cael gafael ar yr wybodaeth gywir.
- 6.25 Ar adeg ymuno â TSC+, dywedodd 25% (41/162) o'r cyfranogwyr nad oedd dim yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ddod o hyd i waith, addysg neu hyfforddiant. Gall hyn adlewyrchu diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r gofynion ar gyfer sicrhau rhyw fath o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, neu gall hefyd fod yn adlewyrchiad o'u sefyllfa cyn ymgysylltu â'r prosiect. Yn wir, roedd dros hanner (25/41) o'r garfan honno newydd adael addysg neu wedi nodi eu bod wedi cofrestru cyn gadael yr ysgol (gyda'r mwyafrif yn ymgysylltu â TSC+ ym mis Gorffennaf). Tybir eu bod wedi cael eu cofrestru'n syth oherwydd ystyriwyd eu bod mewn perygl o ddatgysylltu o bob math o gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant dros wyliau'r haf.
- 6.26 Adroddodd y dysgwyr eraill fod ganddynt gyfartaledd o dri rhwystr, a'r rheiny'n bennaf yn ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd, fel peidio â chael profiad gwaith perthnasol (68%, 82/121). Mae'r ffaith bod 64% (77/121) wedi nodi nad oeddent yn siŵr beth roeddent am ei wneud yn tanlinellu pwysigrwydd rhannu gwybodaeth ynghylch sbectrwm eang o yrfaeodd, yn ogystal â hyblygrwydd i ymgysylltu â gweithgareddau amrywiol yn ystod eu cyfnod ar y rhaglen.

Ffigur 6.4: Pan ymunoch chi gyntaf â TSC+, a oedd unrhyw un o'r pethau hyn yn ei gwneud hi'n anodd i chi gael cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant?



Ffynhonnell: Arolwg dygwyr craidd (n=121)

- 6.27 Er mai dim ond 19% (23/121) a nododd fod pethau megis bod yn anabl, yn fyddar, yn niwroamrywiol, ag anghenion dysgu neu gyflyrau iechyd hirdymor yn ei gwneud hi'n anodd mynd i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, nododd 72% (80/111) eu bod wedi trafod cael cymorth iechyd meddwl wrth siarad â staff TSC+ ar y dechrau, a nododd 63% (69/110) eu bod wedi trafod pethau yr oeddent yn cael trafferth â nhw yn eu bywyd personol. Yn yr un modd, nododd Contractwyr dystiolaeth iechyd meddwl yn rhwystr rhag cael gafael ar gymorth, gan awgrymu bod anghenion o'r fath yn cael eu diagnosisio'n llai ffurfiol o fewn y garfan dygwyr ac o ganlyniad yn cael ei nodi lai gan y cyfranogwyr eu hunain, er eu bod yn dioddef ohono.

Cymhlethdod anghenion

- 6.28 Er mwyn deall ymhellach gymhlethdod yr anghenion a'r rhwystrau sydd gan ddysgwyr, cynhaliwyd dadansoddiad o gofnodion Cynlluniau Dysgu Unigol 2,351 o gyfranogwyr unigryw o Hyfforddiant Copa, Coleg Sir Benfro, ac ITEC, ac aethpwyd ati i godi'r anghenion a'r rhwystrau y cyfeiriwyd atynt mewn sylwadau ansoddol ac yna eu codio. Nodai dros hanner (58%) y cofnodion dysgu bod yna angen cymorth, ac roedd bron i chwarter (22.8%) o'r cofnodion yn dangos tystiolaeth o anghenion cymorth lluosog. Fodd bynnag, mae anghenion cymorth dysgwyr yn aml yn llawer ehangach, gyda materion yn mynd y tu hwnt i anableddau ac amhariadau dysgu, yn amrywio o gyflyrau iechyd meddwl (gan gynnwys gorbryder difrifol) i drawma difrifol a thrafferthion yn eu cartrefi. Mae'r dyfyniadau isod yn dangos ymhellach pa mor ddifrifol a chymhleth yw anghenion cymorth cyfranogwyr TSC+:
- “Mae'r [ddysgwraig] yn dioddef o orbryder mawr ac, felly, cafodd ei symud o'r llinyn Datblygu i llinyn Ymgysylltu. Mae hi hefyd yn cael cymorth gwasanaethau mewnol.”
- “Yn cael trafferth â [sgiliau academiaidd], mae wedi cael ei gyfeirio at iechyd meddwl. Pobl wedi manteisio arno yn y gorffennol, yn methu cysgu yn y nos oherwydd trawma [...] ac roedd yn [camddefnyddio sylweddau]. Cysylltais â'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd popeth oedd yn digwydd.”
- “Mae gan [y dysgwr] anghenion meddygol, ond caiff hyn ei reoli â meddyginiaeth. Weithiau mae straen yn cael ei reoli trwy hunan-niweidio, ysmegu. Mae'r sefyllfa gartref yn ansefydlog.”
- 6.29 Mae rhai Cynlluniau Dysgu Unigol hefyd yn cydnabod effaith pandemig COVID-19 a'i effeithiau ar gyflawniadau academiaidd a sgiliau cymdeithasol pobl ifanc. Adroddodd sawl dysgwr, yn enwedig y rheiny sydd wedi treulio cyfnodau hir o amser y tu allan i addysg, eu bod yn cael trafferth cadw at rŵtin a threfn feunyddiol, rheoli eu hamser, a mynd i apwyntiadau cynnar:
- “Mae hyder [y dysgwr] ar ei isaf erioed oherwydd profiadau bwllo yn y gorffennol yn yr ysgol. Oherwydd hyn ac aros gartre adeg Covid, nid yw'r [dysgwr] wedi bod mewn unrhyw fath o addysg nac o gwmpas eraill o'i oedran ers cryn amser. Doedd addysg gartref ddim wedi mynd yn dda, ac fe gollon nhw'r dyddiad cau ar gyfer ei arholiadau ac, felly, ychydig iawn o wybodaeth sydd ganddo am bethau'n academiaidd.”
- 6.30 Dywedodd bron i un o bob pump (18.7%) o ddysgwyr fod ganddynt broblemau iechyd meddwl. Y rhai mwyaf cyffredin ymhlith y rheini oedd Gorbryder (56.9%) ac Iselder (12.5%). Mewn nifer fach o achosion lle adroddwyd am rwystrau (2.6%), nodwyd bod pobl ifanc yn derbyn cymorth CAMHS. Nododd nifer sylweddol o ddysgwyr (7.6%) eu bod yn cael trafferthion mewn lleoliadau cymdeithasol. Roedd difrifoldeb y broblem hon yn amrywio o deimlo'n anghysurus mewn grwpiau mawr i achosion o gael gorbryder difrifol. Gan amlaf, ni chofnodwyd y mathau hyn o rwystrau yng ngwybodaeth reoli LLWR.


- 6.31 Yn ogystal, nodwyd bod gan bron i un o bob wyth (11.4%) o'r dysgwyr gyflwr niwroddatblygiadol fel Dyslecsia, Dyspracsia neu Dyscalwlia (4.6%), ADHD/ADD (4.3%) neu Awtistiaeth/ASD (3.8%).
- 6.32 Wrth adolygu esblygiad Cynlluniau Dysgu Unigol (CDU) ar gyfer cyfranogwyr unigryw, daeth yn amlwg bod anghenion cymorth wedi newid dros amser i ddysgwyr. Mewn rhai achosion, dim ond ar ôl i'r dysgwr fod wedi bod yn rhan o'r rhaglen am gyfnod estynedig o amser y nodwyd anghenion mwy difrifol. Mewn achosion eraill, roedd sefyllfa dysgwr yn gwella wrth i'r rhaglen fynd rhagddi wrth i rwystrau blaenorol gael eu goresgyn. Dangosodd y dadansoddiad hefyd nad oedd rhai anghenion o bosibl wedi'u datgelu na'u diagnosio gan y dysgwr ond eu bod yn amlwg i aseswyr, rhieni neu staff addysgu. Aseswyd cyfanswm o 4% o ddysgwyr am anghenion cymorth ac roeddent yn aros am ddiagnosis, tra bod gan 5% gyflwr a amheuir ond heb ei ddiagnosisio'n ffurfiol. Er na fyddai pob dysgwr wedi cwblhau Cynllun Dysgu Unigol, mae'r naratif a gofnodir yn y rhain yn dangos nad yw'r llw o rwystrau y mae pobl ifanc ar raglen TSC+ yn eu hwynebu yn cael eu cofnodi'n llawn gan ddata gwybodaeth reoli LLWR.^[Troednodyn 34]

Rhesymau dros ymuno

- 6.33 Yn fras, roedd elfennau penodol ar y cymorth wedi dylanwadu ar benderfyniad cyfranogwyr i gymryd rhan yn TSC+. Yn debyg i'r rhwystrau a nodwyd uchod, y rheswm mwyaf cyffredin pam y penderfynodd dysgwyr gymryd rhan yn TSC+ oedd y cyfle i gael profiad gwaith neu leoliad gwaith (81%, 131/162). Mae'r ffactorau amlaf sy'n effeithio ar y penderfyniadau i gymryd rhan (fel y dangosir yn y ffigur isod) yn dangos dealltwriaeth ymhlith dysgwyr bod TSC+ yn cynnig cyfleoedd i chwalu'r rhwystrau yr oeddent yn eu hwynebu rhag cael mynediad at gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

[34] Mae'r LLWR yn cofnodi un math o brif anabledd ac un math o anabledd eilaidd, cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar allu pobl i weithio, dangosydd gweithiwr mudol, cyfrifoldebau gofalu, hyd diweithdra, cymhwyster uchaf, statws aelwyd.

Ffigur 6.5: Pa elfennau o TSC+ wnaeth i chi benderfynu cymryd rhan ynddo?



Ffynhonnell: arolwg dysgwyr TSC+ (n=162)

- 6.34 Nodwyd yn gyson fod sgiliau staff yn gryfder pwysig yn yr hyn a gynigid gan TSC+. Roedd dysgwyr yn gadarnhaol am eu profiadau, gyda 79% (92/116) ohonynt o'r farn fod eu trafodaethau cychwynnol â staff TSC+ yn rhai defnyddiol. Disgrifiasant y staff i fod yn gefnogol, deallus a gwybodus, gan nodi eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac yn eu parchu:

“Fe wnaethon nhw fy nghysuro, gwrando arna i, felly roedden nhw'n gwybod sut roeddwn i'n teimlo. Oni bai eu bod nhw wedi gofyn i mi sut roeddwn i'n teimlo, mae'n debyg na fyddwn i wedi dweud dim.”

(Dysgwr)


- 6.35 Roedd y rheiny oedd yn llai cadarnhaol am y staff fel arfer yn adlewyrchu barn am y capasiti i'w cefnogi, gyda chyfranogwyr yn gwneud sylwadau bod staff fel petaent wedi'u gwasgaru'n denau ar draws cyfranogwyr, gan olygu llai o amser i gefnogi eu hanghenion unigol. Roedd barn gadarnhaol am staff yn amrywio ar draws Contractwyr. Er y gallai hyn awgrymu amrywioldeb yng nghryfderau timau staff, gallai hefyd fod yn gysylltiedig yn syml â pherthynas unigol. Byddai angen mwy o dystiolaeth i archwilio hyn ymhellach.
- 6.36 Pynciau trafod yn yr asesiad cychwynnol oedd rhai sy'n cyd-fynd ymhellach â'r rhwystrau a nodwyd a'r rhesymau dros fynychu TSC+. Trafododd mwyafrif y dysgwyr beth fyddai'n digwydd yn ystod rhaglen TSC+ (87%, 96/110), cyfleoedd profiad gwaith (87%, 97/111), ynghyd â'u dyheadau a'u syniadau personol am eu dyfodol (81%, 89/110) a ble roedd angen iddynt ddatblygu (83%, 91/110).

Cymorth ariannol

- 6.37 O ran cymorth ariannol, roedd 91% (144/158) o ddysgwyr yn cofio derbyn y lwfans hyfforddi. Er iddo ddylanwadu ar benderfyniadau i gymryd rhan, nid dyma'r prif ffactor i'r rhan fwyaf, gyda 28% (45/162) yn nodi ei fod wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i gymryd rhan i raddau helaeth, a 44% (71/162) i ryw raddau.
- 6.38 Dengys y ffigur isod fod cyfranogwyr wedi defnyddio'r lwfans hyfforddi mewn nifer o ffyrdd. Yn fwyaf cyffredin, cafodd ei wario ar gostau bwyd (81%, 116/144) a theithio (73%, 105/114). Adroddodd Contractwyr hwythau fod y lwfans yn cefnogi presenoldeb drwy ddulliau ymarferol ac fel cymhelliant i barhau i ymgysylltu:

“Rydyn ni wedi gweld o bosibl fod pobl ifanc yn aros mewn lleoliad am gyfnod hirach oherwydd eu bod nhw'n cael y cymorth hwnnw, boed yn lwfans hyfforddi neu'r pryd bwyd, er enghraifft, ond efallai y bydden nhw wedi gorfod rhoi'r gorau iddi ac edrych ar opsiynau eraill oherwydd na allent fforddio dal ati.” **(Contractwr)**

Ffigur 6.6: Ar gyfer beth wnaethoch chi ddefnyddio'r lwfans?



Ffynhonnell: Arolwg dygwyr craidd (n=143)

- 6.39 Ymhlith y cyfranogwyr a holwyd, roedd y mwyafrif yn teimlo bod y lwfans wedi cyfrannu rhywfaint at leddfu pwysau ariannol (36% [52/143] i raddau helaeth a 45% [64/143] i ryw raddau). Teimlai contractwyr ei fod yn rhoi rhywfaint o annibyniaeth ariannol i gyfranogwyr, gan ddweud ymhellach ei fod wedi gwella ymgysylltiad:

“Dwi'n meddwl ei fod yn ei wneud yn fwy deniadol ac yn rhoi rhywbeth iddyn nhw fod yn gyfrifol amdano a theimlo'n fwy fel oedolyn.” **(Contractwr)**

“Mae [cymorth ariannol] wedi cael effaith gadarnhaol, gan fod llawer o'r bobl ifanc yn byw mewn tldi ac mae'n bosibl mai hwn yw'r unig

bryd o fwyd y cânt yn ystod y dydd. Mae hyn yn lleihau'r pwysau arnynt ac yn eu gwneud yn fwy abl i ddysgu." **(staff awdurdod lleol)**

- 6.40 Nododd pedwar Contractwr y gallai'r lwfans roi cymhelliant i gymryd rhan i'r rheiny heb ddiddordeb llawn yn y rhaglen nac yn y gyflogaeth. Yn yr un modd, nododd rhai y byddai cyfranogwyr yn cymryd rhan er mwyn lleddfu pwysau ariannol gartref, gan na fyddai'n effeithio ar unrhyw hawliadau budd-daliadau eraill. Mae'n bosibl bod cymhellion o'r fath yn effeithio ar ganlyniadau cadarnhaol, gyda Chontractwyr yn nodi bod yr unigolion hyn fel arfer â llai o ddiddordeb mewn sicrhau cyflogaeth o ganlyniad i gymryd rhan yn y rhaglen.
- 6.41 Trafododd nifer o Gontractwyr a staff yr awdurdodau lleol y ffaith bod y lwfans yn is tra oedd y person ifanc ar leoliad, gan annog pobl i beidio â bod eisiau mynd ar leoliad pan fo mwy o arian i'w gael o aros yn y cyfleuster dysgu. Efallai bod hyn wedi dylanwadu ar duedd cyfranogwyr i ymgysylltu â lleoliad, ac mae'r deinameg ymddygiad a grëwyd gan y model ariannu yn haeddu ymchwiliad pellach.

Cynhwysiant

- 6.42 Bwriad TSC+ yw defnyddio dull croestoriadol wrth ddarparu gwasanaethau. Mae croestoriadedd (intersectionality) yn disgrifio sut mae nodweddion personol fel ethnigrwydd, dosbarth cymdeithasol a rhywedd yn gorgyffwrdd â'i gilydd, gan greu profiadau penodol o wahaniaethu ac/neu faint. Mewn ymarfer rheng flaen, rhaid i ddull croestoriadol fabwysiadu'r ffordd hon o feddwl mewn ymarfer unigoleddig. Ar ben hynny, rhaid iddo sicrhau bod dulliau o ymgysylltu a chefnogi grwpiau lleiafrifol yn cydnabod ac yn mynd i'r afael yn weithredol â'r rhwystrau cymdeithasol y mae'r grwpiau hyn yn eu hwynebu.
- 6.43 Yn fras, teimlai'r cyfranogwyr fod y rhaglen yn gynhwysol, sy'n cyd-fynd â chanfyddiadau'r cam interim. Roedd bron pob un o'r cyfranogwyr a holwyd o'r farn fod pawb yn cael eu trin yn gyfartal, waeth beth fo'u cefndir neu eu nodweddion (61% [94/153] yn cytuno'n gryf, 32% [49/153] yn cytuno), a dim ond 5% (7/153) oedd yn teimlo y gellid gwella TSC+ o ran cynhwysiant a chydaddoldeb. Ar ben hynny, roedd bron pob un o'r farn (51% [79/154] yn cytuno'n gryf, 43% [66/154] yn cytuno) fod staff TSC+ yn cynrychioli'r rhai yr oeddent yn eu cefnogi (sef hanner y dysgwyr yn cytuno'n gryf â'r farn hon). Esboniodd naw Contractwr fod trafodaethau ynghylch cynhwysiant, cydraddoldeb a hunaniaeth wedi'u hymgorffori yng nghwricwlwm eu rhaglen, gan awgrymu bod pynciau o'r fath yn cael eu hannog mewn trafodaethau, a all gyfrannu at deimladau o gynhwysiant.
- 6.44 Gofynnwyd i gyfranogwyr a oedd yn gyfforddus i ateb y cwestiwn hwn a oeddent wedi profi neu wedi gweld unrhyw ymddygiad gwahaniaethol, ac nid oedd y mwyafrif ohonynt (89%, 137/154) wedi gwneud hynny. O'r 17 cyfranogwr a oedd, roedd pedwar ohonynt wedi'i brofi eu hunain ac roedd 13/17 wedi gweld yr ymddygiad hwn. Roedd tua hanner ohonynt (10/17) yn teimlo eu bod wedi gallu dweud wrth rywun am y profiad hwn (y rhai a oedd wedi profi ymddygiad gwahaniaethol yn uniongyrchol a'r rhai a oedd wedi'i weld), ac roedd 8 o'r 10 yn teimlo fod y mater wedi'i drin maes o law yn y ffordd y byddent wedi'i hoffi. Ar ben

hynny, o'r rhai a adroddodd am ymddygiad gwahaniaethol, roedd y mwyafrif (13/17) yn dal i gytuno bod pawb wedi cael eu trin yn gyfartal.

- 6.45 Er mwyn diogelu dysgwyr, ni ofynnwyd cwestiynau agored ynghylch y profiadau hyn. Roedd y rheiny a roddodd enghreifftiau wedi sôn am gael eu trin yn wahanol fel merch neu ddiffyg tiwtoriaid benywaidd. Crybwyllwyd yr olaf yn fyr gan Gontractwyr, gan ddynodi bod anawsterau recriwtio yn gwneud hyn yn anoddach i'w gywiro. Roedd enghreifftiau eraill yn cynnwys cyfeirio at fwlio rhwng cyfoedion a dadleuon y gallai staff fod wedi'u trin yn wahanol neu'n fwy cyfartal:

“Dwi'n meddwl ei bod hi'n achos o diwtoriaid ddim yn beirniadu rhai disgyblion am eu hymddygiad pan oedden nhw'n ymddwyn yn wael – weithiau byddai'r tiwtoriaid yn gadael i'r peth fynd.” **(Dysgwr)**

“Dwi'n meddwl bod ychydig o ffafiaeth gyda rhai pobl ac weithiau mae merched yn cael eu trin yn wahanol i'r bechgyn.” **(Dysgwr)**

- 6.46 Soniodd saith Contractwr am broblemau ymddygiad yn gwaethygu yn ystod y misoedd diwethaf, gyda rhai wedi cyflogi gwarchodwyr diogelwch i ymateb pan godai sefyllfaoedd o'r fath. Ar ben hynny, gan mai bach iawn yw'r ddarpariaeth amgen ar gyfer y rheiny sydd ag anghenion mwy cymhleth, mae herio ymddygiad weithiau'n anoddach i'w wneud, oherwydd er y gall y Contractwr dynnu'r cyfranogwr hwnnw o'r ddarpariaeth, mae diffyg cynnig arall yn golygu y bydd y person ifanc yn aml yn dychwelyd at y Contractwr hwnnw yn y dyfodol neu byddai gofyn i'r person ifanc adael yn cynyddu'r risg y byddant yn dod yn NEET, heb ddarpariaeth amgen y gallant atgyfeirio iddi.

Cymorth i rai grwpiau penodol (gan gynnwys grwpiau gwarchodedig)

- 6.47 Gofynnwyd i randdeiliaid am eu profiadau o gefnogi ac ymgysylltu â phobl ifanc o grwpiau penodol (gan gynnwys grwpiau gwarchodedig), megis pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, y rhai sy'n Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, pobl ag anableddau, a chyfranogwyr sy'n uniaethu fel LHDTClA+. Ar y cyfan, roedd Contractwyr yn teimlo'n abl ac yn barod i gefnogi grwpiau o'r fath, gan ailddatgan yr angen am ddull cyfannol ac addasadwy sy'n parchu anghenion unigol cyfranogwyr. Er bod tystiolaeth bod staff yn ceisio targedu rhai grwpiau ymylol yn benodol, nid oedd unrhyw arwydd clir o ddull croestoriadol o weithredu. Byddai ymgorffori dulliau croestoriadol yn annog dull seiliedig ar degwch ar gyfer TSC+ gan gydnabod bod gan gyfranogwyr anghenion gwahanol, yn hytrach na dull sy'n trin pob cyfranogwr yn gyfartal.
- 6.48 Roedd gan y rhan fwyaf o Gontractwyr fodd o ddefnyddio timau ADY pwrpasol, yn ogystal â staff cymorth lles eraill a darpariaethau diogelu. Fodd bynnag, nodwyd, er ei fod yn ddisgwyliedig, fod hyn yn golygu adnoddau ar ran y Contractwyr unigol, o ran capasiti a chyllid. O fewn hyn, ailadroddwyd pwysigrwydd dull amlddisgyblaethol, a hynny i ymgysylltu'n rhagweithiol â chymorth allanol fel gwasanaethau ieuencid a chymunedol, er mwyn sicrhau bod gan gyfranogwyr fynediad at yr holl gymorth sydd ar gael yn eu hardal. Adleisiodd staff Llywodraeth

Cymru ymhellach y rhwystrau o ran adnoddau hyfforddi allanol sydd ar gael a chyfyngiadau capasiti.

- 6.49 Soniodd rhanddeiliaid ymhellach ynghylch cael gafael ar gyllid i gefnogi dysgwyr ag ADY, e.e. i brynu offer. Ymddengys bod rhai anghysondebau ynghylch paramedrau defnyddio'r cyllid hwn, e.e. a oedd angen cynllun dysgu unigol cyfoes neu ddiagnosis ffurfiol ar y cyfranogwr i gael cyllid. Mae'r olaf yn peri rhwystr, gan fod Contractwyr wedi nodi bod gan lawer o gyfranogwyr anghenion nad ydynt wedi cael diagnosis eto, fel niwroamrywiaeth a dyslecsia. Fodd bynnag, roedd newidiadau i'r ddarpariaeth gan Lywodraeth Cymru yng nghanol 2024 yn golygu nad oedd angen diagnosis ffurfiol ar gyfer cyllid ADY. Byddai darparu canllawiau a fyddai'n cynnig mwy o eglurder ynghylch hyn o bosibl yn cefnogi'r cyfyngiadau ar y cyllido a grybwyllwyd uchod.
- 6.50 Wrth ystyried mynediad corfforol i raglen TSC+, nodwyd nifer o rwystrau. Esboniodd dysgwyr a Chontractwyr nad yw nifer fach o ganolfannau (yn y De yn benodol) yn hygyrch i gadeiriau olwyn, ac felly yn cyfyngu ar bosibiliadau ymgysylltu i rai unigolion. Roedd rhai Contractwyr hefyd o'r farn bod agosrwydd at golegau a chanolfannau addysg bellach yn effeithio ar ymgysylltiad, gyda hyd y daith i ganolfannau (a'r agosrwydd cymharol at eu man mynychu blaenorol) yn cael ei ystyried yn rhwystr posibl. Nododd staff Llywodraeth Cymru sut yr effeithiodd hyn yn arbennig ar y rheiny mewn ardaloedd gwledig, gyda thystiolaeth yn yr adran flaenorol yn dangos sut mae ardaloedd awdurdodau gwledig yn bennaf Powys, Gwynedd, a Cheredigion gan amlaf wedi cael cynrychiolaeth is nag a ragwelwyd ar y rhaglen. Fodd bynnag, awgrymodd adborth gan Gontractwyr fod mwy i'r peth na hyn ac, er enghraifft, ei fod yn gysylltiedig â bod trafndiaeth gyhoeddus ar gael a llwybrau cyfleus, hyd yn oed mewn ardaloedd trefol.
- 6.51 Pan oedd gofalwyr ifanc yn ymgysylltu â'r rhaglen, nododd contractwyr fod angen hyblygrwydd o amgylch eu hymrwymiaadau, sy'n golygu y gall presenoldeb corfforol fod yn anoddach weithiau. Er ei fod yn fwy posibl ar y llinyn Ymgysylltu, roedd hyn weithiau'n anoddach pan oedd llinynnau'n gofyn am fwy o ymgysylltiad, yn ogystal ag effeithio ar ymgysylltiad â lleoliadau gwaith. Byddai adolygu mynediad, gan gynnwys, er enghraifft, lefelau ymgysylltu ar-lein, yn cefnogi sicrhau mynediad teg i TSC+ ledled Cymru.
- 6.52 Trafododd rhanddeiliaid y gwahaniaeth yn y ddemograffeg rhwng daearyddiaethau gwahanol, gan danlinellu unwaith eto bwysigrwydd dull cyfannol, dan arweiniad y dysgwr. Yn aml, gwelir grwpiau mwy amrywiol mewn ardaloedd mwy trefol fel Caerdydd a Chasnewydd, ymhlith cyfranogwyr a staff. Mewn ardaloedd o'r fath, eglurodd rhai fod ganddynt fodd o ddefnyddio cyfieithwyr, gydag un yn ystyried cyflogi tiwtor ESOL (Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill).
- 6.53 Adroddwyd bod ymgysylltu sydd wedi'i dargedu wedi digwydd mewn rhai ardaloedd i gyrraedd cymunedau penodol, gan fod yn amrywiol ei lwyddiant. Er bod rhywfaint o'r targedu hwn yn cynnwys cyrraedd rhai grwpiau trwy ddarparu deunyddiau mewn gwahanol ieithoedd neu drwy ddarparu cefnogaeth ESOL, mae eraill wedi bod yn anoddach eu cyrraedd. I lawer o gymunedau, teimlwyd bod angen i staff gael eu

hymgorffori'n well yn y gymuned ehangach yn gyntaf, cyn y byddai unigolion yn ymgysylltu â'r rhaglen. Yn gysylltiedig â'r angen am ddulliau sy'n cael eu harwain gan degwch, byddai gwerth mewn nodi dulliau croestoriadol o ymgysylltu â chymunedau anoddach eu cyrraedd y gellir eu gweithredu ledled Cymru. Yn benodol, gellid rhannu dulliau gyda phob ardal, waeth beth fo'u hangen presennol yn eu hardal, gan y gall cymunedau symud yn ystod oes y rhaglen.

- 6.54 Fel y nodwyd yng ngham interim yr adrodd, ymddengys bod cefnogaeth i gymunedau LHDTClA+ wedi'i hymgorffori'n dda yn y rhaglen a gynigir. Esboniodd sawl Contractwr eu bod wedi gofyn i ddysgwyr am eu henw a'u rhagenwau dewisol yn y sesiynau cychwynnol, a chefnogi unrhyw newidiadau dilynol oedd eu hangen ar waith papur, er enghraifft. Roedd gan un Contractwr arweinydd LHDTClA+ pwrpasol hefyd. Er ei fod wedi'i ymgorffori, awgrymodd un dysgwr y gallai staff elwa o hyfforddiant mwy ffurfiol mewn perthynas â hunaniaeth rhywedd pan ofynnwyd iddo sut y gallai'r rhaglen wella o ran cynhwysiant.
- 6.55 Drwyddi draw, dywedodd 89% (140/157) o'r cyfranogwyr eu bod wedi gallu cael yr holl gymorth yr oedd ei hangen arnynt gan TSC+. Dim ond gostwng ychydig bach wnaeth hyn i 82% (27/33) wrth ystyried y rhai a oedd yn nodi eu bod ag anabledd, gan awgrymu nad oedd anabledd gan mwyaf yn effeithio ar allu dysgwyr i gael yr holl gefnogaeth yr oedd ei hangen arnynt. Dylid nodi, fodd bynnag, mai dim ond sampl yw hwn o'r holl ddysgwyr a ymatebodd i'r arolwg. Nid yw'n rhoi cyfrif am y rhai a allai fod wedi methu ymgysylltu â'r rhaglen oherwydd na ellid cefnogi eu hanghenion, na'r rhai ar y rhaglen oedd ag anableddau dysgu mwy cymhleth na chawsant eu cynnwys yn y sampl ymchwil wedi hynny.

Y Gymraeg

- 6.56 Nod allweddol TSC+ yw hybu defnyddio'r Gymraeg a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gan gefnogi Cymraeg 2050. Fel rhan o weithdrefnau contractio, rhaid i bob Contractwr ddangos tystiolaeth bod ganddynt ryw lefel o ddarpariaeth Gymraeg. Ceir tystiolaeth o ddarpariaeth Gymraeg ymhlith darparwyr, ynghyd ag anogaeth i ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er enghraifft, mae rhai Contractwyr wedi cyflwyno cystadlaethau drwy ap Duolingo.
- 6.57 Gan gyd-fynd â chanfyddiadau'r interim, adroddodd rhanddeiliaid mai ychydig o alw am ddarpariaeth Gymraeg a ddeuai o du'r dysgwyr. Cafwyd tystiolaeth o'r canfyddiadau hyn yn yr arolwg, sef nad oedd 81% (131/162) o'r ymatebwyr yn siarad Cymraeg, ond bod pob cyfranogwr namyn un wedi dewis cael eu cymorth TSC+ drwy gyfrwng y Saesneg. Yn yr un modd, dywedodd Contractwyr, er bod rhai cyfranogwyr yn siarad neu'n deall Cymraeg eto ei bod hi'n well ganddynt ymgysylltu drwy'r Saesneg. Fel y soniwyd yn y bennod flaenorol, gwelwyd amrywiad yn yr ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol oes y rhaglen:

“Mae'n anodd, gan ei bod hi'n cymryd peth amser weithiau i sylweddoli eu bod nhw'n siarad Cymraeg, gan eu bod nhw'n tueddu i'w guddio a bod diffyg hyder ganddynt, ond pan rydyn ni'n gwybod

rydyn ni'n ceisio eu hannog i ddefnyddio eu Cymraeg cymaint â phosibl.” **(Contractwr)**


6.58 Mae Tabl 6.1 isod yn dangos bod ychydig dros 18% o weithgareddau dysgu wedi ymgorffori darpariaeth yn y Gymraeg. Fel y dangosir yn Ffigur 6.7 isod, fodd bynnag, roedd cyfran y gweithgareddau dysgu a oedd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth Gymraeg wedi newid yn sylweddol dros oes y rhaglen. Cynyddodd gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys darpariaeth Gymraeg o 7.2% ym mis Mai 2022 i 37.1% ym mis Medi 2023, ac yna gostwng eto i 10.2% erbyn Gorffennaf 2024. Dylanwadwyd ar yr uchafbwynt ym mis Medi 2023 yn bennaf gan gynydd mewn gweithgareddau a ddarparwyd yn y Gymraeg gan Goleg Sir Benfro ac yn ymwneud yn benodol â Datblygu sy'n Canolbwyntio ar y Cyflogwr, Sgiliau Cyfathrebu, Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau, yn ogystal â gweithgareddau Datblygu Iechyd a Lles Personol.

Tabl 6.1: Cyfrwng (iaith) cynnal gweithgareddau dysgu TSC+ – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024

Cyfrwng y darparu	Nifer o weithgareddau dysgu – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024	% y gweithgareddau dysgu – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024
Saesneg yn unig	26,529	81.8%
Ychydig o ddysgu cyfrwng Cymraeg	4,934	15.2%
Cryn dipyn o ddysgu cyfrwng Cymraeg	102	0.3%
Dwyieithog	878	2.7%
Cymraeg yn unig	1	0.003%
Cyfanswm (n)	32,444	

Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR

Ffigur 6.7: Cyfran y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys darpariaeth Gymraeg fesul mis – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Llinynnau cymorth

- 6.59 Roedd yr amser a dreuliai dysgwyr ym mhob llinyn yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar faint eu hanghenion a'u parodrwydd i sicrhau canlyniad cadarnhaol drwy'r rhaglen. Nododd Contractwyr fod mwyafrif y cyfranogwyr wedi cofrestru ar y llinyn Ymgysylltu ac adlewyrchwyd y dosbarthiad hwn yn ymatebion yr arolwg, lle roedd cyfran uchaf y cyfranogwyr a ymatebodd wedi cofrestru yn y llinyn Ymgysylltu (60% (97/162) o ran dysgwyr craidd a 68% (42/62) ymhlith dysgwyr ar ôl chwe mis.

Y llinyn ymgysylltu

- 6.60 Canmolwyd y llinyn Ymgysylltu am ei hyblygrwydd i ddiwallu anghenion amrywiol cyfranogwyr, yn enwedig gyda Chontractwyr yn canfod, oherwydd cymhlethdod cynyddol anghenion pobl ifanc, bod cyfranogwyr angen cefnogaeth fwy dwys a phenodol ochr yn ochr â chefnogaeth academiaidd ac yn arddangos llai o sgiliau sylfaenol. Roedd rhai cyfranogwyr, er enghraifft, nad oeddent ar y dechrau yn gallu gadael eu cartrefi na rhyngweithio mewn grŵp. Mae hyn yn tanlinellu tystiolaeth a drafodwyd o ddata LLWR yn y bennod flaenorol, sef bod sgiliau bywyd wedi dod yn fwy cyffredin ar draws y rhaglen, gyda sgiliau penodol i gyflogadwyedd yn dod yn llai cyffredin gan eu bod yn flaenoriaeth is. O ystyried llwyddiant y llinyn Ymgysylltu, awgrymodd nifer o gynrychiolwyr Contractwyr y dylai pob dysgwr ddechrau ar y llinyn Ymgysylltu i sicrhau parodrwydd ar gyfer trosglwyddo i llinynnau uwch neu ar gyfer sicrhau canlyniadau cadarnhaol eraill.^[Troednodyn 35]

[35] Mae canlyniadau cadarnhaol fel arfer yn cynnwys dilyniant i gyflogaeth neu brentisiaethau, ac i'r rhai sydd ar y llinynnau Ymgysylltu a Datblygu, dilyniant hefyd i ddysgu ar lefel uwch. I gael rhagor o fanylion gweler Adran 5.34.

“Mae’r llinyn Ymgysylltu yn rhoi sgiliau datrys problemau neu sgiliau cyfathrebu i ddysgwyr na fyddent o reidrwydd yn meddu arnynt petaent wedi mynd yn syth i’r llinyn Datblygu.” **(Contractwr)**

“Mae’r llinyn Ymgysylltu yn gweithio’n dda iawn oherwydd ei hyblygrwydd – nid yw pob diwrnod yr un fath ac mae’n darparu ar gyfer pob math gwahanol o ddysgwyr. Mae’n darparu ar gyfer pawb o bob ongl wahanol ac anghenion gwahanol.” **(Contractwr)**

- 6.61 Yn aml roedd contractwyr a staff awdurdodau lleol am drafod lefelau amrywiol ym mharodrwydd y bobl ifanc ar gyfer dysgu a chyflogaeth, gan awgrymu y dylid hollti’r llinyn Ymgysylltu ymhellach i ddarparu ar gyfer yr amrywiad hwn:

“Mae bron angen llinynnau sy’n dod o’r llinyn Ymgysylltu oherwydd bod gennych chi garfan o ddysgwyr sydd ychydig yn fwy datblygedig, yn teimlo ychydig yn fwy parod ar gyfer swydd ac yn barod i fynd allan yna, ond nid yn hollol barod eto am y cam Datblygu. Ac yna mae gennych chi garfan arall o ddysgwyr sydd â rhwystrau difrifol ac sydd angen y gefnogaeth ddwys honno.” **(Contractwr)**

“Mae gennym ni lawer o bobl ifanc a fyddai’n elwa o gael ymgysylltiad araf yn digwydd yn raddol â’r rhaglen oherwydd nad ydyn nhw’n barod i fod mewn ystafell ddosbarth yn llawn llawer o bobl eraill. I’r rhai sydd heb fod yn yr ysgol am gyfnod sylweddol o amser [oherwydd COVID-19], mae hynny’n rhywbeth a fyddai’n wirioneddol fuddiol iddyn nhw gael llwybr amrywiol a mwy graddol iddyn nhw.” **(Awdurdod lleol)**

- 6.62 Mater a godwyd ynghylch y llinyn Ymgysylltu gan gyfranogwyr a Chontractwyr oedd natur eang (o ran maes pwnc) y sesiynau. Roedd yn rhaid i ddysgwyr felly ymgysylltu â phynciau a oedd weithiau’n llai diddorol iddynt. Trafododd Contractwyr yr angen i reoli disgwyliadau dysgwyr yn hyn o beth, gan fod rhai yn awyddus i ddysgu manylion penodol ynghylch eu gyrfa ddewisol ond nad oedd ganddynt eto’r lefel o sgiliau sylfaenol angenrheidiol, felly, roedd yn rhaid iddynt ymgysylltu â sgiliau ehangach fel rhan o’u hymgysylltiad:

“Nid oes gan rai [llwybrau gyrfa] diwtoriaid gwahanol, felly mae’n anodd cynnal sesiynau i lwybr gyrfa penodol gyda grŵp llawn yn gwneud gwahanol bethau, felly nid yw pobl eisiau ymgysylltu pan fyddwn yn trafod gwasanaeth cwsmeriaid os ydyn nhw eisiau bod yn y maes gofal.” **(Contractwr)**

Y Llinyn datblygu

- 6.63 Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y llinyn Datblygu yn briodol i’r rheiny a oedd â syniad am y cyfeiriad gyrfa y dymunent ei ddilyn. Cynigiai gip a phrofiad i sector dewisol y cyfranogwyr ar yr un pryd â chynnig cefnogaeth i’w galluogi i bontio’n llawn i’r farchnad lafur.
- 6.64 Croesawodd y Contractwyr y newid a wnaed i’r rhaglen gan Lywodraeth Cymru a oedd yn galluogi dysgwyr i gwblhau cymwysterau Lefel 2 ar y llinyn Datblygu.

Teimlent fod gallu cwblhau cymwysterau Lefel 1 yn unig ar y llinyn hwn yn cyfyngu ar y bobl ifanc, ac yn amharu ar y dilyniant o'r rhaglen, yn enwedig i gyrsiau coleg sy'n gofyn am Lefel 2. Nawr, mae staff yn gallu cefnogi dysgwyr ar y rhaglen i mewn i'r cyrsiau hyn, gan gefnogi eu gallu i ddysgu sgiliau a fydd yn eu cefnogi ar eu llwybr gyrfa.

- 6.65 Nododd Contractwyr ymhellach gamliniad posibl rhwng parodrwydd cyfranogwyr a'r dewis llinyn ar y llinyn Datblygu. Er bod ganddynt lwybr gyrfa mwy penodol, teimlwyd nad oedd llawer yn barod ar gyfer y lefel o annibyniaeth a ddisgwyllir. Mae hyn yn cyd-fynd â sylwadau cynharach ynghylch rhoi cyfranogwyr ar y llinyn Datblygu trwy Gyrfa Cymru/ Cymru'n Gweithio heb ystyriaeth lawn i'w parodrwydd, gan arwain at angen pellach i reoli disgwyliadau cyfranogwyr. O fewn hyn, gwnaed y sylw bod angen mwy o strwythur ar yr elfen dysgu gartref yn y llinyn, gan nad oedd yn addas i bob dysgwr. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd cynnig hyblyg o ran ymgysylltu er mwyn sicrhau mynediad teg i'r rhaglen.

Llinyn cyflogaeth


- 6.66 Roedd argraff gyffredinol bod y llinyn Cyflogaeth yn llai llwyddiannus ac mai anaml y câi ei ddefnyddio. Gan gofio'r dystiolaeth am anghenion cymhleth, mae hyn yn dangos mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â rhwystrau uniongyrchol rhag agosáu at y farchnad lafur drwy ddefnyddio llinynnau cynharach. Adroddodd staff Llywodraeth Cymru mai'r llinyn Cyflogaeth oedd y llinyn lleiaf llwyddiannus, ac awgrymasant nad oedd yr ysgogwyr cywir ar waith, megis rhwydweithiau cyson i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth. Teimlai Contractwyr nad oedd 10 wythnos yn amserlen ddigonol ar gyfer dod o hyd i waith, wedi'i waethgu gan y ffaith mai prin oedd y cyflogwyr oedd ar gael mewn rhai ardaloedd. Felly awgrymodd rhai Contractwyr y dylid addasu'r llinyn hwn i ganolbwyntio ar baratoi at y byd gwaith, yn hytrach na chael gafael uniongyrchol ar gyflogaeth:

“Gan fod pobl mor bell o'r farchnad lafur, mae dod o hyd i waith mewn 10 wythnos ar y llinyn Cyflogaeth yn anodd, ac mae hyn yn waeth oherwydd prinder cyflogwyr mewn rhai llefydd.” **(Contractwr)**

Y cymorth a gafwyd

- 6.67 Yn y ffigur isod gwelir, ymhlith ymatebwyr yr arolwg, fod y cymorth a gafwyd ar y rhaglen wedi canolbwyntio ar gyflogadwyedd a datblygiad personol, a hyn yn cyd-fynd â'r anghenion a'r rhwystrau a nodwyd uchod. Wrth eu dadansoddi yn ôl llinyn, roedd nodweddion cyffredin y cymorth a dderbyniwyd yn dilyn yr un patrwm i raddau helaeth.


Ffigur 6.8: Pa fath o gymorth a gawsoch gan TSC+?



Ffynhonnell: Arolwg dygwyr craidd (n=162)

6.68 Mae ymatebion yr arolwg yn cyd-fynd yn fras â dadansoddiad ehangach o'r wybodaeth reoli ac mae Ffigur 6.9 isod yn cyflwyno'r math o weithgaredd a wnaed gan gyfranogwyr TSC+ yn seiliedig ar nifer y gweithgareddau dysgu a gynhaliwyd yn ystod oes y rhaglen. Gweithgaredd chwilio am swydd oedd y ddarpariaeth ddysgu a gyflwynwyd amlaf, ac yn agos at hynny roedd gweithgareddau dysgu ynghylch iechyd a lles personol a sgiliau cyflogadwyedd.

Ffigur 6.9: Canran o weithgareddau dysgu gweithredol TSC+ yn ôl disgrifiad - Mawrth 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR; N=29,952. Mae 'Arall' yn cynnwys yr holl weithgareddau a oedd yn llai nag 1% o'r holl weithgareddau. Dylid nodi, ar gyfer 8% (2,464/32,416) o weithgareddau dysgu, nad oedd unrhyw ddisgrifiad wedi'i gofnodi.

Ymgysylltiad cyflogwyr a lleoliadau gwaith

- 6.69 Cynigir cyfleoedd i ddysgwyr yn y llinynnau Datblygu a Chyflogaeth i wneud lleoliadau gwaith a chael gafael ar gyflogaeth (gyda chwe mis cyntaf y gyflogaeth honno yn cael cymhorthdal cyflog gan TSC+). Yn ogystal â lleoliadau, gall cyflogwyr gynnig sesiynau blasu ac ymweliadau â chyfleusterau. Amryw oedd y cynnig hwn ymhlith Contractwyr, a nododd llawer o Gontractwyr y cwtogwyd ar nifer y gweithgareddau a ddigwyddai y tu allan i gynnig lleoliad uniongyrchol.
- 6.70 Roedd ymatebwyr yr arolwg a oedd wedi mynd ar leoliadau gwaith yn gweld gwerth iddynt ac yn teimlo eu bod yn cyd-fynd â'u hanghenion. Nododd nifer o gyfranogwyr yr arolwg craidd mai'r elfen lleoliad a gafodd yr effaith fwyaf arnynt:


"Fe ges i brofiad gwaith drwyddo a'r cyfle i wneud lleoliad [mewn rôl a ddymunid] ac mae'n siŵr na fyddwn i wedi'i wneud heb TSC."

- 6.71 Gwnaeth Contractwyr sylwadau ar werth darparu mynediad at leoliadau a oedd yn gysylltiedig â diddordebau dysgwyr ac a oedd yn rhoi profiad ymarferol mewn sectorau perthnasol. Roedd dysgwyr a Chontractwyr yn hyderus y byddai elfen hon y gefnogaeth yn cyfrannu at feithrin y sgiliau angenrheidiol i sicrhau rolau swyddi yn y dyfodol. Teimlai rhai staff Contractwyr fod mynediad at leoliadau yn arbennig o bwysig i'r rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol, gan ei fod yn eu cysylltu â chyflogwyr yn y byd go iawn a allai roi dealltwriaeth iddynt o'r gefnogaeth sydd ar gael.
- 6.72 Trafododd wyth o'r Contractwyr a gyfwelwyd sut mae ganddynt dimau cyflogadwyedd sy'n gweithio i geisio ennyn diddordeb cyflogwyr yn y rhaglen. Pwysleisiodd Contractwyr bwysigrwydd y timau hyn wrth gynnal perthynas â chyflogwyr a chefnogi tasgau gweinyddol yn ogystal â rhoi cefnogaeth i'r dysgwr pan mae'n dysgu mewn lleoliad gwaith. I rai Contractwyr, mae ymgysylltiad cyflogwyr yn cael ei arwain gan y dysgwr, a chysylltir â chyflogwyr yn seiliedig ar ddiddordeb cyfranogwyr, a hyn yn cefnogi cyflwyno dull wedi'i deilwra ar gyfer lleoliadau. Mae gan eraill fanc o gyflogwyr sy'n barod i ddarparu lleoliadau, a hyn yn cynorthwyo ymgysylltu effeithlon â lleoliadau. Trafodwyd, fodd bynnag, y gall hyn weithiau arwain at beidio paru sgiliau, oherwydd caiff cyfranogwyr eu pennu i leoliad yn seiliedig ar fod cyflogwyr ar gael (yn hytrach na diddordeb y dysgwr).
- 6.73 Soniwyd am nifer o heriau yn ymwneud ag ymgysylltu â chyflogwyr. Pan oedd cyflogwyr yn llai o faint, roedd gofynion biwrocratiaeth yn rhwystr, gan y byddai'n effeithio ar gapasiti, tra nad oedd gan eraill yswiriant i gyflogi pobl ifanc. Ar ôl COVID-19, symudodd nifer o gyflogwyr i weithio'n hybrid neu ar-lein, gan felly fod â llai o gyfleoedd wyneb yn wyneb neu ar y safle i gefnogi lleoliadau gwaith. Ar ben hynny, mae elfen wledig a bylchau daearyddol yn llesteirio cyfleoedd, a mwy o gyflogwyr ar gael mewn ardaloedd mwy trefol. Yn benodol, nodwyd bod Gogledd Cymru yn brin o gwmnïau cenedlaethol.
- 6.74 Nododd un Contractwr broblem bosibl yn seiliedig ar ryw'r unigolyn wrth sôn am ddysgwyr eisiau symud i gyflogaeth yn y sector adeiladu ond bod cwmnïau fel petaent yn llai parod i gymryd dysgwyr benywaidd ar leoliadau na dysgwyr gwrywaidd. Nodwyd ganddynt sut yr oedd hyn wedi effeithio ar wydnwch dysgwyr, gan fod rhwystr i'w dilyniant yn y maes hwnnw, rhwystr na allant ei reoli.
- 6.75 Trafododd nifer o staff awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yr angen am ymgysylltu sydd â mwy ffocws iddo gyda chyflogwyr, gan fod teimlad bod yr ymwybyddiaeth am TSC+ yn isel ymhlith cyflogwyr. Awgrymwyd gan Contractwyr y byddai ymgyrch genedlaethol ar gyfer ymgysylltu â chyflogwyr o fudd, yn hytrach na dibynnu ar lefel leol, a hynny er mwyn cynnal allgymorth a sicrhau ymgysylltu. Byddai hyn hefyd yn cefnogi cynnig mwy cyson i gyflogwyr ac yn cefnogi capasiti Contractwyr.
- 6.76 Er nad oes unrhyw wybodaeth reoli ar nifer y cyflogwyr, mae nifer yr oriau mewn gweithle fesul cyfranogwr wedi'i gofnodi ac mae'r rhain wedi'u mapio yn ôl lleoliad daearyddol yn Ffigur 6.10 isod. Dengys y map amrywioldeb daearyddol mawr yng nghyfran y cyfranogwyr sy'n gwneud oriau mewn gweithle fel rhan o'u hymgysylltiad

â TSC+, gyda'r rhai yng Ngheredigion bron i 20 gwaith yn fwy tebygol o wneud hynny na'r rhai yn Sir y Fflint.

- 6.77 Gan amlaf, byddid yn tybio y byddai cyfranogwyr sy'n ymgysylltu â TSC+ sy'n byw mewn ardaloedd trefol sydd â mwy o gyflogwyr, a'r rheiny yn aml yn gyflogwyr mwy o faint, yn fwy tebygol o wneud lleoliad gwaith. Fodd bynnag, mae patrwm yr ymgysylltu yn gyffredinol yn groes i'r dybiaeth hon ac ymddengys fel petai cydberthynas gryfach ag ardaloedd Lotiau Rhanbarthol a Chontractwyr na chydberthynas â dwysedd poblogaeth ardal benodol.

Ffigur 6.10: Cyfran y cyfranogwyr unigryw wedi cwblhau rhaglen TSC+ a oedd wedi cwblhau oriau mewn gweithle yn ôl ardal awdurdod lleol – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: gwybodaeth reoli LLWR (N=9,999), mae tabl cyfeirio llawn i'w weld yn Atodiad 1, tabl A6

Mynd i'r afael â bylchau sgiliau yn y gweithlu lleol

- 6.78 Tynnodd gontractwyr sylw at y ffaith mai amcan presennol rhaglen TSC+ yw blaenoriaethu dyheadau dysgwyr (yn hytrach na mynd i'r afael â phrinder sgiliau

lleol). Sylwyd nad oes gan lawer o bobl ifanc ddiddordeb na'r cymwysterau i fynd i'r sectorau sydd â bylchau sgiliau:

“Os yw dysgwr yn dweud fod ganddo ddiddordeb mewn sector penodol neu fath o waith, yna rydym yn ceisio darparu ar gyfer beth sydd ei angen arnyn nhw.” **(Contractwr)**

“Nid yw llawer o bobl yn ymwybodol o fylchau sgiliau ac yn aml rydym yn eu cefnogi i gyrraedd lle maen nhw eisiau mynd (yn hytrach nag addasu yn unol â bylchau sgiliau). Nid yw llawer ohonyn nhw eisiau gwneud hyfforddiant penodol ac ati, felly mae'n rhaid iddyn nhw fynd ar hyd eu llwybr, nid y rhai sydd eu hangen i fynd i'r afael â sgiliau.”
(Contractwr)

- 6.79 Yn ogystal â'r dull hwn o ddilyn trywydd diddordebau'r dysgwr, trafododd Contractwyr rwystrau strwythurol sy'n llesteirio ar eu gallu i fynd i'r afael â bylchau sgiliau lleol trwy ddarpariaeth TSC+. Er enghraifft, mae cyfyngiadau oedran mewn rhai sectorau, fel gwaith gofal, yn atal pobl ifanc o dan 18 oed rhag cael mynediad at gyfleoedd, tra bod cyfyngiadau ariannol yn ei gwneud hi'n anodd ariannu hyfforddiant angenrheidiol, megis cardiau CSCS ar gyfer swyddi adeiladu. Ar ben hynny, nodwyd yr anghydraddoldebau daearyddol mewn cyfleoedd cyflogaeth, fel y trafodwyd yn y bennod flaenorol. Mae cyfyngiadau yswiriant yn cyfyngu ymhellach ar allu busnesau llai o faint i dderbyn pobl ifanc. Nododd contractwyr fod y rhwystrau hyn yn golygu bod sectorau fel gwaith gofal yn parhau i fod heb ddigon yn mynd iddynt, tra bod swyddi medrus iawn yn aml allan o gyrraedd cyfranogwyr y rhaglen. Ar ben hynny, o ystyried eu safle fel darparwr hyfforddiant (yn hytrach na chyflogwr), adroddodd un Contractwr am anawsterau wrth gyflwyno mewn digwyddiadau cyflogadwyedd, gan golli llwybr i gysylltu cyfranogwyr â chyflogwyr sy'n recriwtio:

“Ar gyfer adeiladu, os nad oes ganddyn nhw eu cerdyn CSCS dydyn nhw ddim yn gallu cael eu cyflogi a dydyn ni ddim yn gallu eu rhoi trwy hwnnw.” **(Contractwr)**

“Does dim diwydiant enfawr yma. Mae'n dref fach, felly siopau, pethau fel 'na. Mae swyddi ffatri yn brin iawn ar gyfer ein categori oedran oherwydd dydyn nhw ddim yn gallu cyrraedd yno i ddechrau am 6:00.”
(Contractwr)

“Roedd sefydliadau allanol, Canolfan Byd Gwaith, Cymunedau dros Waith, ac eraill, wedi cynnal ffair swyddi yr wythnos diwethaf, neu ffair recriwtio, ac mi wnes i gais i gael mynychu, ac fe wnaethon nhw fy ngwrthod oherwydd does gyda ni ddim swyddi gwag byw. Darparwr hyfforddiant ydym ni, nid cyflogwr.” **(Contractwr)**

- 6.80 Er gwaethaf yr heriau hyn, mae nifer fach o Gontractwyr wedi ceisio arwain dysgwyr tuag at sectorau sydd â phrinder sgiliau trwy weithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys gwahodd siaradwyr gwadd i siarad â dysgwyr, archwilio gwefannau gyrfaedd, ac adborth gan gyflogwyr. Soniodd dau Gontractwr

ymhellach am y ddarpariaeth gyflogadwyedd sydd ganddynt yn fewnol i gefnogi dysgwyr TSC+:

“Mae gennym ni ystod gyfan o fodiwlau rydyn ni’n eu galw’n FEP, sef Future Employability Programme [...] ac ynddyn nhw rydyn ni’n eu cael nhw i fynd i wefan Gyrfa Cymru a gweld pa fath o swyddi sy’n codi, edrych ar y farchnad lafur.” **(Contractwr)**

“Mae gennym ni brosiect arall yn rhedeg yma sef prosiect cyflogadwyedd [...] felly gan ein bod yn cynnal prosiectau eraill, rydyn ni wedi ein cysylltu â phopeth o fewn y gymuned mewn gwirionedd.”
(Contractwr)

- 6.81 Mynegodd Contractwyr bryderon ynghylch diffyg strategaeth gydlynol yn rhaglen TSC+ i fynd i’r afael â bylchau sgiliau lleol. Awgrymasant y gallai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol wrth feithrin cysylltiadau rhwng cyfranogwyr a diwydiannau sydd â phrinder, sy’n cyd-fynd â’r awgrym cynharach o fynd ati mewn dull mwy ffurfiol i ymgysylltu â chyflogwyr.

Mynd i’r afael ag anghenion sgiliau ar gyfer Sero Net neu sgiliau gwyrdd yn y gweithlu lleol

- 6.82 Ni wnaeth trafodaethau â Chontractwyr godi ymrwymiad cyson i fynd i’r afael ag anghenion sgiliau ar gyfer sgiliau Net Sero neu sgiliau gwyrdd yn y gweithlu lleol. Sgiliau Net Sero yw’r sgiliau sydd eu hangen i adeiladu dyfodol Net Sero, fel llythrennedd digidol a sgiliau cynaliadwyedd.^[Troednodyn 36] Mae sgiliau gwyrdd yn cynnwys sgiliau ymarferol a sgiliau deall sydd eu hangen i ddatblygu cymdeithas gynaliadwy ac effeithlon o ran adnoddau. Yn aml, mae’r rhain yn cynnwys hyfforddiant galwedigaethol mewn sectorau fel pŵer a gwastraff, a sgiliau fel gwyddoniaeth, marchnata a llythrennedd amgylcheddol.^[Troednodyn 37] Fodd bynnag, dylid nodi nad oedd pob ymatebydd wedi gwneud sylwadau ar y pwnc hwn. Tynnodd tri Chontractwr sylw at y ffaith eu bod wedi ymgorffori sgiliau gwyrdd yn eu cwricwlwm, gan gynnwys trafodaethau gyda chyflogwyr gwyrdd i annog lleoliadau, tra bod eraill yn llai sicr ynghylch sut roedd eu cwricwlwm yn ymgorffori’r pynciau hyn.
- 6.83 Trafododd pedwar Contractwr eu gweithdrefnau amgylcheddol mewnol, sef prosesau ailgylchu. I rai, roedd y rhain yn ymestyn i addysgu cyfranogwyr am arferion cynaliadwyedd sylfaenol fel diffodd goleuadau ac ailgylchu. Mae mentrau lleol, gan gynnwys creu gerddi llesiant, mannau sy’n gyfeillgar i wenyn, a defnyddio biniau ailgylchu, yn annog ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhellach ymhlith dysgwyr.

Gwelliannau a awgrymwyd i gynnal y rhaglen

[36] Llywodraeth Cymru (2024) Sgiliau sector sero net (aethpwyd iddo: 11 Rhagfyr 2024).

[37] Senedd y Deyrnas Unedig (2024) Green skills in education and employment (aethpwyd iddo: 21 Chwefror 2024).

- 6.84 Dywedodd mwyafrif y dysgwyr (77%, 120/156) nad oedd angen unrhyw welliannau ar gyfer TSC+. O'r rhai a wnaeth, awgrymodd rhai welliannau o ran staffio, megis cyfathrebu gwell rhyngddyn nhw a chyfranogwyr, neu gael rhagor o staff yn rhan o ddarparu'r rhaglen. O fewn hyn, pan ofynnwyd iddynt am agweddau ar gynhwysiant, adroddodd nifer fach eu bod yn teimlo na allant fynd at staff gyda phroblemau personol.
- 6.85 Fel y soniwyd yn fyr, wrth drafod cyn-ymgysylltu, trafododd Contractwyr werth gweithgareddau cyfoethogi y tu allan i'r ystafell ddosbarth; fodd bynnag, nid oedd ganddynt yr adnoddau na'r capasiti i'w cynnig yn fwy cyson. Felly, byddai o werth nodi adnoddau neu gyllid a allai fod ar gael er mwyn cefnogi cymorth cyson y mae Contractwyr yn teimlo y byddai'n cynnal ymgysylltiad pobl ifanc.

Crynodeb o'r adran

- Rhywun wedi sôn wrthynt am y rhaglen oedd un o'r ffactorau mwyaf pwerus wrth annog pobl ifanc i gymryd rhan yn TSC+.
- Mae atgyfeiriadau uniongyrchol yn digwydd yn fwyfwy aml a dyma'r llwybr mwyaf cyffredin i ymgysylltu â'r rhaglen.
- Er bod yr Adroddiadau Asesu ac Atgyfeirio (ARR) wedi gweithio'n effeithiol, eto ar ôl iddynt feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas â'r darparwr cymorth y gwelwyd yn llawn anghenion pobl ifanc. Nid oes tystiolaeth o broses safonedig rhwng yr holl randdeiliaid ar gyfer mesur lles naill ai yn y cyfnod asesu nac yn ystod y ddarpariaeth. Yn aml, gwnaed yr asesu ar ffurf sgwrs a gall hynny fod yn oddrychol i'w ddehongli. Siaradodd Contractwyr am yr angen am linyn cyn-ymgysylltu; fodd bynnag, mae Bydd Barod yn parhau i fod yn gynllun a gynigir yn yr haf yn bennaf ac mae amrywiad daearyddol o ran ei ddefnyddio. Deellir bod cyfyngiadau ariannu wedi cyfyngu ar ei ehangu.
- Gwelwyd rhwystrau lluosog ymhlith pobl ifanc, gyda llawer o'r rhain yn arbennig o gymhleth, gan gyfyngu ar eu gallu i sicrhau rhyw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.
- Ymgysylltodd pedwar o bob pump o'r cyfranogwyr â TSC+ er mwyn cael profiad gwaith neu leoliad gwaith.
- O blith yr ymatebwyr i'r arolwg, roedd dros 90% yn cofio derbyn lwfans hyfforddi, tra bod ychydig dros chwarter (28%) yn teimlo ei fod wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i gofrestru ar y rhaglen.
- Yn gyffredinol, roedd pobl ifanc yn teimlo bod y rhaglen yn gynhwysol ei natur, ac roedd 89% o'r cyfranogwyr yn teimlo eu bod wedi gallu cael yr holl gefnogaeth oedd ei hangen arnynt o'r rhaglen.
- Er nad oedd llawer o alw am ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg, roedd ychydig dros 18% o weithgareddau dysgu yn cynnwys rhyw fath o ddarpariaeth yn y Gymraeg.

- Roedd Contractwyr yn fodlon â'r cynnig cymorth ond teimlent y gallai rhannu pellach ar y llinyn Ymgysylltu sicrhau bod y rhaglen yn ymateb yn fwy effeithiol i'r lefelau amrywiol o barodrwydd ar gyfer dysgu a chyflogaeth ymhlith cyfranogwyr. Y farn gyffredinol oedd bod y llinyn Cyflogaeth yn llai llwyddiannus ac yn anaml yn cael ei ddefnyddio.
- Mae cyfranogwyr yn cofio derbyn cefnogaeth ynghylch cyflogadwyedd a datblygiad personol, gwneud gweithgarwch chwilio am swydd a datblygu iechyd a lles personol. Roedd y rhai yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin bron i 20 gwaith yn fwy tebygol o gofnodi rhyw fath o oriau mewn gweithle na'r rhai yn Sir y Fflint.
- Roedd gwahaniaeth daearyddol mawr yn y cofnodi ar oriau seiliedig ar waith (ar leoliad neu debyg) yn ôl lleoliad daearyddol.
- Soniodd Contractwyr am heriau wrth ymgysylltu â chyflogwyr, megis anghydraddoldebau daearyddol o ran argaeledd cyflogwyr, a gofynion biwrocrataidd a oedd yn effeithio'n arbennig ar gyflogwyr llai o faint.

7. Canlyniadau / effeithiau'r cymorth

- 7.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio canlyniadau ac effeithiau rhaglen TSC+, fel yr adroddwyd gan y cyfranogwyr a ymatebodd i'r arolwg craidd (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel dysgwyr craidd) yn ogystal â'r rheiny, a oedd wedi gadael y rhaglen o leiaf chwe mis yn ôl ar adeg yr arolwg. Mae canfyddiadau hefyd yn seiliedig ar sylwadau Contractwyr a staff awdurdodau lleol.

Argraff am fuddion ac effaith y cymorth

- 7.2 Gan gyd-fynd â chanfyddiadau'r adroddiad interim, adroddodd dysgwyr am ystod eang o ganlyniadau cadarnhaol a buddion o ganlyniad i gymryd rhan yn rhaglen TSC+. Roedd yr effeithiau ar ddysgwyr yn gysylltiedig â chyflogadwyedd a'u gyrfa, yn ogystal ag effeithiau meddalach yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles personol.
- 7.3 Roedd cael mynediad at y gefnogaeth strwythuredig sydd ar gael yn werthfawr wrth helpu dysgwyr i ddeall llwybrau swyddi a sefydlu trefn i'w diwrnod, yn enwedig y rheiny sydd bellaf o'r farchnad swyddi. Gwelwyd bod hyn yn arbennig o effeithiol i ddysgwyr sy'n delio â rhwystrau penodol a chymhleth fel anghenion iechyd meddwl neu orbryder cymdeithasol:

“Roedd hi wir yn ddefnyddiol cael y gefnogaeth honno i fy helpu i ganolbwyntio a 'nghadw i'n frwdfrydig i ddal ati i chwilio am leoliadau [...]. Dwi'n dioddef o orbryder mawr yn gymdeithasol ac mae pethau'n mynd yn ormod i fi'n hawdd ac ro'n i'n teimlo'n gyfforddus yn siarad am hyn.” **(Dysgwr)**


“Fe wnaeth fy helpu i fwy, gwybod beth sydd raid i mi ei wneud, sut i ddelio â rhai pethau, a chael cefnogaeth.” **(Dysgwr)**

- 7.4 Yn gyffredinol, adroddodd dysgwyr eu bod wedi ennill sgiliau personol hanfodol a oedd wedi eu galluogi i reoli heriau'n well yn eu bywydau personol a phroffesiynol.

Cyflogaeth a datblygu gyrfa

- 7.5 Adroddodd dysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis am effeithiau cadarnhaol rhaglen TSC+ ar eu sgiliau cyflogadwyedd yn eu hymatebion i'r cwestiynau caeedig. Yr effaith a grybwyllwyd amlaf oedd y cyfle i ddysgu sgiliau newydd, fel y'i nodwyd gan 90% (141/157) o ddysgwyr craidd a 73% (45/62) o'r dysgwyr ar ôl chwe mis.

Ffigur 7.1: Pa rai o'r sgiliau cyflogaeth hyn, os o gwbl, y mae TSC+ wedi eich helpu â nhw?



Ffynhonnell: Arolwg i ddysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis

- 7.6 Mae Ffigur 7.1 hefyd yn tynnu sylw at duedd wrth gymharu'r ymatebion gan ddysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis. Mae'r farn am effaith y rhaglen ar sgiliau cyflogadwyedd yn lleihau ar draws pob elfen chwe mis ar ôl cwblhau. Awgryma hyn fod y buddion uniongyrchol a deimlir gan gyfranogwyr yn lleihau dros amser, gan awgrymu bwlch o bosibl rhwng hyfforddiant tymor byr a chanlyniadau gyrfa tymor hir. Wedi dweud hynny, dylid ystyried efallai na fydd y rhai sy'n ymateb chwe mis ar ôl cwblhau yn cofio effeithiau penodol mor hawdd, ac efallai eu bod yn tynnu ar brofiadau mwy diweddar hefyd.
- 7.7 Cafwyd tystiolaeth bellach o effaith gadarnhaol TSC+ ar gyflogadwyedd pan ofynnwyd i'r dysgwyr am effaith fwyaf y rhaglen ar eu bywydau. Yn unol â Ffigur 7.1, nodwyd cymorth i archwilio a datblygu gyrfa yn aml fel budd pwysig. Ymhlith dysgwyr ar ôl chwe mis, dyma'r effaith fwyaf a nodwyd amlaf, gyda 44% (25/57) yn ei chrybwyll. I ddysgwyr craidd, dyma'r ail fwyaf cyffredin, fel y nodwyd gan 38% (60/156), yn dilyn gwelliannau mewn sgiliau cymdeithasol a hyder.
- 7.8 Rhoddai dysgwyr gydnabyddiaeth uniongyrchol i TSC+ am roi cefnogaeth enfawr i'w datblygiad gyrfa drwy roi cyfleoedd newydd iddynt:

“Mae TSC+ wedi rhoi'r cyfle i mi wneud y swydd rwyf wir eisiau ei gwneud. Yn yr wythnosau nesaf, rwy'n gobeithio cael lleoliad fel gweithiwr ieuencid. Heb TSC+, byddwn i wedi bod ar y dŵl neu wedi cael swydd roeddwn i'n ei chasáu yn Tesco.” **(Dysgwr)**

“Doeddwn i ddim yn gwybod pa gwrs roeddwn i eisiau mynd arno. Fe wnaethon nhw adael i mi gael blas ar dri chwrs a rhoi amrywiaeth i mi o'r hyn y gallwn i ei wneud, ac fe wnaeth hyn roi syniad i mi o'r hyn roeddwn i wir yn ei hoffi a'r hyn y gallwn i ei gyflawni, rhywbeth na fyddwn i efallai wedi'i wneud ar fy mhen fy hun.” **(Dysgwr)**

“Dwi'n meddwl ei fod wedi fy helpu i dacleso fy CV a mynd ati'n well i dargedu swyddi (yn hytrach na dim ond gobeithio am y gorau).”
(Dysgwr)


- 7.9 Roedd dysgwyr wedi rhoi canmolïaeth benodol i arweiniad y tiwtoriaid a'r staff am eu dull cefnogol a deallus, gyda 44% (25/57) o ddysgwyr ar ôl chwe mis yn pwysleisio hyn fel yr elfen o'r gefnogaeth a gafodd yr effaith fwyaf ar eu bywyd. Eglurwyd ganddynt fod y rhaglen yn cynnig cefnogaeth ragorol ar gyfer eu dyheadau o ran addysg a gyrfa, gan roi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo yn y gweithle.
- 7.10 Dywedodd lleiafrif o ddysgwyr na chafwyd unrhyw effaith ar eu sgiliau cyflogadwyedd, sef 3% (5/157) o ddysgwyr craidd a 10% o ddysgwyr ar ôl chwe mis (6/62). Fodd bynnag, o fewn y grwpiau hyn, roedd pedwar o'r dysgwyr 'dim effaith' yn yr arolwg ar-ôl-chwe-mis wedi nodi gwelliannau yn eu sgiliau cymdeithasol, tra bod dau wedi dweud na themlent unrhyw newid o gwbl mewn unrhyw faes. Cyfeiriodd un o'r ddau ddysgwr hyn at ffrae heriol gyda dysgwr arall, a gallai hyn fod wedi cael effaith ar ei argraff o'r rhaglen. Er gwaethaf y profiadau hyn, roedd y ddau ddysgwr bellach yn ymwneud ag addysg neu hyfforddiant.
- 7.11 Ymhlith y dysgwyr na nododd unrhyw effaith, nododd tri ohonynt welliannau mewn sgiliau cymdeithasol er gwaethaf peidio â theimlo buddion cyflogadwyedd uniongyrchol, tra nad oedd dau wedi nodi unrhyw effaith mewn unrhyw faes. Gadawodd un o'r ddau ddysgwr hyn y rhaglen yn gynnar, gan gyfyngu ar y cyfle i gael y buddion llawn. Mynegodd dysgwr arall, y daeth ei adborth trwy ei riant, rwystredigaeth ynghylch peidio â sicrhau lleoliad eto, er eu bod yn cydnabod derbyn cefnogaeth i ysgrifennu CV a chael arweiniad ar yrfa.

Datblygiad personol a sgiliau meddal

- 7.12 Canfuwyd bod effaith TSC+ ar ddatblygiad personol yn sylweddol, yn enwedig o ran annog ymgysylltiad cymdeithasol, creu rŵtin a threfn feunyddiol, a gwella hyder.
- 7.13 Un o'r canlyniadau mwyaf cyson a nodwyd ar y cwestiwn caeedig ynghylch datblygu sgiliau meddal oedd yr elfen gymdeithasol, fel y dangosir yn Ffigur 7.2, wrth i fwyaf y dysgwyr – 92% o ddysgwyr craidd (145/157) a 74% o ddysgwyr ar ôl chwe mis (46/62) – nodi eu bod wedi cwrdd â phobl newydd neu wedi gwneud ffrindiau newydd yn ystod y rhaglen. Yn ogystal, roedd 90% o ddysgwyr craidd

(142/157) a 69% o ddysgwyr ar ôl chwe mis (43/62) wedi cael cyfleoedd newydd drwy'r rhaglen, gan ddangos ei rôl yn gwella cyfleoedd personol a phroffesiynol.

Ffigur 7.2: Pa rai o'r ffyrdd hyn, os o gwbl, wnaeth TSC+ eich helpu?



Ffynhonnell: Arolwg i ddysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis

7.14 Thema graidd a fynegwyd gan ddysgwyr oedd rôl y rhaglen yn eu cael allan o'r tŷ. Roedd hyn yn adlewyrchu'r heriau cychwynnol mawr a wynebais llawer o ddysgwyr cyn ymgysylltu â'r rhaglen, a'r gefnogaeth sylfaenol oedd ei hangen o ran eu datblygiad personol i'w paratoi at gyflogaeth yn y dyfodol. Roedd y camau cynnar hyn wrth feithrin hyder a threfn feunyddiol yn bwysig wrth helpu dysgwyr i bontio i'r amgylchedd gwaith.

7.15 Er bod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi nodi newidiadau cadarnhaol, roedd nifer fach o ddysgwyr ar ôl chwe mis (10%, 6/62) yn teimlo nad oedd y rhaglen wedi diwallu eu hanghenion. Mynegodd y dysgwyr hyn anfodlonrwydd â chynnwys y dysgu neu ddiffyg cymorth i ddod o hyd i leoliadau priodol:

“Chafodd e ddim effaith ar fy mywyd. Roeddwn i eisiau gwneud rhywbeth ym maes TG, ond wnaethon nhw ddim helpu gyda hynny. Roedden ni jyst yn ysgrifennu traethodau ar bethau nad oedden nhw wir yn berthnasol i mi.”
(Dysgwr)

7.16 Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu'r ystod amrywiol o gefnogaeth a chymorth sydd eu hangen ar ddysgwyr. Er bod angen cymorth sylfaenol ar rai, fel sefydlu

arferion rheolaidd, roedd angen cefnogaeth fwy datblygedig ac arbenigol ar eraill wedi'i theilwra i'w hamcanion gyrfa neu ddiddordebau penodol.

- 7.17 Er bod Ffigur 7.2 yn dangos yr effaith gyffredinol, gellir dod i ddeall rhagor am sgiliau meddal drwy'r ymatebion i ddysgwyr pan ofynnwyd iddynt pa elfennau o TSC+ a oedd wedi cael yr effaith fwyaf ar eu bywyd. I 32% (18/57) o ddysgwyr ar ôl chwe mis a 47% o'r dysgwyr a ymatebodd i'r arolwg craidd, gwelwyd yr effeithiau mwyaf ar eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol. Yn ogystal, soniodd 14% (22/156) am ddylanwad cadarnhaol cael rŵtin a strwythur fel yr effaith fwyaf ar eu bywyd, tra bod 13% (20/156) yn teimlo bod y rhaglen wedi cyfrannu at well iechyd meddwl a lles. Dim ond 6% (10/156) o gyfranogwyr craidd a nododd nad oedd unrhyw effaith o'r rhaglen:

“Dim ond rhoi'r hyder i mi ddeall fy mod i'n gallu dod o hyd i waith, fy mhroblem fwyaf yw profiad ac maen nhw wedi dangos i mi sut i baratoi at gyfweiliadau. Mae hyn wedi helpu i roi'r hyder i mi wneud cyfweiliadau a pharatoi atyn nhw a chwilio am swyddi – rwy'n bendant yn llawer mwy hyderus ac mewn lle llawer gwell nag o'n i o'r blaen.”


(Dysgwr)

- 7.18 Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos rôl y rhaglen wrth fynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion dysgwyr, o feithrin hyder i hyrwyddo iechyd meddwl, gan ddangos ei manteision amlweddog.

Iechyd meddwl a llesiant

- 7.19 Gan gyd-fynd â chanfyddiadau'r cam interim, adroddodd dysgwyr craidd welliannau mewn iechyd meddwl a lles o ganlyniad i'w hymgysylltiad â TSC+. Pan ofynnwyd iddynt sut yr oedd eu hiechyd meddwl a'u lles wedi newid yn ystod cefnogaeth TSC+, dengys y ffigur isod fod cyfran uchel o ddysgwyr craidd wedi adrodd eu bod yn fwy hapus (77% [111/144] ohonynt yn adrodd 'ychydig yn fwy hapus' neu 'yn llawer mwy') ac yn fwy bodlon â bywyd (82% [117/144] yn adrodd 'ychydig yn fwy bodlon' neu 'yn llawer mwy'), tra bod 80% yn teimlo bod eu bywydau'n fwy gwerth chweil (113/142 yn adrodd 'ychydig yn fwy' neu 'yn llawer mwy'). Mae gwelliannau o'r fath yn adlewyrchu buddion ehangach y rhaglen ar gyfer lles meddyliol ac emosiynol dysgwyr.

Ffigur 7.3: Newid yn iechyd meddwl a lles dysgwyr craidd cyn ac ar ôl cymryd rhan yn TSC+



Ffynhonnell: Arolwg dygwyr craidd (n=144)

7.20 Llai dramatig oedd y gwelliant mewn lefelau pryder, gyda 58% (84/144) o ddysgwyr craidd yn nodi llai o bryder ('llawer llai' neu 'ychydig llai') a 39% (56/144) yn dweud na fu unrhyw newid. Mae'n debyg bod y newid llai hwn yn adlewyrchu pa mor gymhleth yw profiadau pryder a gorbryder a'r cyfyngiadau o fedru mynd i'r afael â materion o'r fath mewn amserlen fer. Serch hynny, roedd y rhaglen yn dal i ddangos effeithiolrwydd wrth wella lles cyffredinol dysgwyr.

Datblygu sgiliau sylfaenol a meddal

- 7.21 Pwysleisiodd Contractwyr a staff awdurdodau lleol bwysigrwydd datblygu sgiliau sylfaenol dysgwyr, gan sylwi bod llawer ar ddechrau eu hymgysylltiad yn cael trafferth â threfn sylfaenol fel mynd allan o'r tŷ. Yn aml, nodwyd bod sefydlu arferion rheolaidd, fel deffro'n gynnar, yn gam cyntaf hanfodol wrth ddatblygu ymgysylltiad ehangach a pharatoi dysgwyr at ofynion y gweithle.
- 7.22 Cafodd effeithiau hirfaith pandemig COVID-19 eu crybwyll yn aml i fod yn ffactor a gyfrannai at yr heriau hyn. Roedd y tarfu ar drefn ac arferion rheolaidd, rhyngweithio cymdeithasol, a lles meddyliol wedi gadael llawer o bobl ifanc yn teimlo'n ynysig ac wedi ymddieithrio. Daeth goresgyn unigedd cymdeithasol i'r amlwg fel nod pwysig, gyda'r rhaglen yn cynnig sylfaen hanfodol i ddysgwyr ailadeiladu eu rhwydweithiau cymdeithasol a sefydlu arferion rheolaidd newydd, iachach:

"Mae e'n fy nghael mas o'r tŷ ac mae gyda fi grŵp mawr o ffrindiau nawr ac rwy'n mynd i'r gampfa nawr, gan fod gyda fi ffrindiau i fynd gyda nhw. Mae wedi fy helpu i gael rŵtin ac mae'n fy nghael mas o'r tŷ. Pan adawais yr ysgol, roeddwn i'n aros yn y gwely a doeddwn i ddim yn codi tan 2 y pnawn – nawr rwy'n codi am 8 y bore." **(Dysgwr)**

“Fe wnaeth fy helpu fi i fynd allan o’r tŷ a gwybod beth dwi eisiau ei wneud yn y dyfodol.” **(Dysgwyr)**

“Mae’n bendant yn gwella ar y sgiliau bach hynny (fel cyfathrebu, gwaith tîm, sgiliau arweinyddiaeth) sydd eu hangen arnoch chi yn y gweithle ac mae wedi dangos y gwahanol lwybrau gyrfa y gallwn i fynd iddyn nhw.” **(Dysgwyr)**

- 7.23 Yn aml, roedd Contractwyr a staff awdurdodau lleol yn dweud bod TSC+ yn allweddol wrth gefnogi ystod eang o sgiliau bywyd hanfodol. Mae’r newidiadau sylfaenol hyn nid yn unig yn cefnogi twf personol, ond hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflogadwyedd yn y dyfodol:

“Mae 99% o bobl yn gadael yn bobl well – waeth befo am yr elfen gyflogadwyedd. Mae rhaglen fel hon yn dod â’r gorau allan mewn pobl ac rydym yn llwyddiannus iawn wrth eu gwneud yn fodau dynol da.” **(Contractwr)**

- 7.24 Nodwyd bod cymorth wedi’i bersonoli, gan gynnwys sesiynau lles, cwnsela, a mentora un-i-un, yn bwysig wrth wireddu’r canlyniadau hyn gan Contractwyr. Mae’r gwasanaethau hyn wedi galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau meddal hanfodol, mireinio eu hamcanion gyrfa, a nodi cyfleoedd y tu hwnt i’w heriau uniongyrchol. Roedd y dull hwn wedi’i deilwra hefyd yn annog ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth rhwng dysgwyr a staff, a oedd yn arbennig o hanfodol i’r rheiny sy’n wynebu heriau iechyd meddwl cymhleth:

“Mae gennym ni ddigon o staff, mentoriaid i gyflwyno sesiynau un-i-un, felly gallwn ni ddelio â phawb bron.” **(Contractwr)**

“Rydym yn cynnig cymorth un-i-un i unigolion sydd ei angen oherwydd, yn amlwg, nid yw amgylchedd grŵp yn addas i’w hanghenion. Fel heddiw, mae wedi bod yn brysur iawn yn y ganolfan, felly’r broblem wedyn yw na fydd llawer o’r dysgwyr tawelach yn mynegi sut maen nhw’n teimlo, felly mae gennym ni gryn dipyn o ddysgwyr ar un-i-un.” **(Contractwr)**

- 7.25 Cydnabu rhai Contractwyr nad yw strwythur cymorth cwbl unigoledig bob amser yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau ar adnoddau a chapasiti. Nododd un Contractwr fod cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) wedi helpu i dalu am gostau cael aelod staff pwrpasol ar gyfer lles, gydag eraill yn nodi bod yn rhaid iddynt gyfeirio dysgwyr at ddarparwyr allanol ar gyfer y lefel hon o gymorth ychwanegol:

“Mae cronfa’r SPF wedi ariannu aelod o staff sy’n swyddog lles ac yn rhoi cefnogaeth iechyd meddwl ychwanegol i’r bobl ifanc sydd ar TSC+. Dyma’r peth cadarnhaol mwyaf ei faint sydd wedi digwydd. Mae hi wedi bod yn hollol wych gyda’r dysgwyr. Mae ganddi ddull gwahanol sy’n gweithio’n dda iawn gyda’r bobl ifanc sydd â phroblemau gorbryder ac iechyd meddwl.” **(Contractwr)**

“Rydym yn canfod bod gan lawer o ddysgwyr lawer o anghenion cymorth [...] felly mae’n golygu eu cyfeirio at bartneriaid ychwanegol. Mae

gennym rai dysgwyr yn cael ymyriadau un-i-un, felly mae angen sicrhau bod y cysylltiadau hynny yn digwydd.” **(Contractwr)**

“Ond os yw pobl eisiau cefnogaeth unigol, does gyda ni mo’r capasiti i ganiatáu i staff fynd â rhywun am dro am awr oherwydd, yn amlwg, os oes gyda ni 10 o’r bobl ifanc hynny, dyna 10 awr o’r wythnos waith wedi mynd.” **(Contractwr)**

- 7.26 Pwysleisiodd Contractwyr, er bod sgiliau cyflogadwyedd yn hanfodol, fod yr effeithiau mwyaf dwys yn deillio o ddatblygu sgiliau meddal ac ehangu ymwybyddiaeth o yrfaoedd. Mae dull cyfannol, sy’n ymestyn y tu hwnt i hyfforddiant traddodiadol, yn rhoi’r offer a’r modd i ddysgwyr fynd i’r afael â heriau iechyd meddwl, meithrin hunanhyder, ac archwilio llwybrau gyrfa amrywiol, gan wella eu gallu i ymgysylltu â’r farchnad lafur.
- 7.27 Ystyriwyd bod gwelliannau mewn sgiliau meddal, iechyd meddwl a hyder yn bwysicach i Contractwyr na canlyniadau cyflogaeth sy’n digwydd yn syth. I lawer o ddysgwyr, mae’r cyfnod paratoi hwn yn drawsnewidiol, gan flaenoriaethu twf personol fel y sylfaen ar gyfer gyrfaedd cynaliadwy a chyfleoedd yn y dyfodol.
- 7.28 Pwysleisiodd Contractwyr bwysigrwydd cydbwysu “canlyniadau caled”, fel sicrhau cyflogaeth, â gwerth datblygiad personol i fod yn rhywbeth gwerthfawr ynddo’i hun. Mae gwella sgiliau meddal yn cynorthwyo dysgwyr i oresgyn heriau, meithrin hyder, a dilyn llwybrau gyrfa ystyrlon, gan gyfrannu’n fwy effeithiol at y farchnad lafur yn y pen draw.

Barn ynghylch eu tebygolrwydd o gael canlyniadau

- 7.29 Pan ofynnwyd i ddysgwyr craidd a fyddent wedi cael canlyniadau tebyg heb gymryd rhan yn rhaglen TSC+, ymatebodd y mwyafrif ‘na fyddent’, gan briodoli twf personol a phroffesiynol mawr i’w cyfranogiad yn y rhaglen. Gofynnwyd y cwestiwn hwn i 52 o’r 144 o ddysgwyr yr arolwg craidd – yn benodol y rheiny a oedd wedi nodi canlyniad cadarnhaol – felly nid yw’n cynrychioli’r garfan gyfan. Ymhlith yr ymatebwyr hyn, credai 46% (24/52) na fyddai eu cyflawniadau wedi bod yn bosibl heb y rhaglen. O’r rhain, nododd 42% (10/24) y byddent wedi bod yn anweithgar oni bai am TSC+, tra dywedodd 29% (7/24) y byddent yn debygol o fod wedi aros mewn addysg.
- 7.30 Ar y llaw arall, credai 38% (20/52) y byddent wedi cael canlyniadau tebyg heb TSC+, gan awgrymu “difuddiant” canfyddedig, tra bod 15% (8/52) yn ansicr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhoi ystyriaeth lawn i fuddion ehangach y rhaglen. Roedd pob un o’r 20 dysgwr “difuddiant” yn dal i nodi gwelliannau ystyrlon mewn cyflogadwyedd a sgiliau meddal, megis ennill profiad ymarferol, gwella hyder, a goresgyn rhwystrau personol – effeithiau sy’n ymestyn y tu hwnt i fesurau traddodiadol fel sicrhau cyflogaeth neu addysg.

Dadansoddi’r ‘difuddiant’ canfyddedig

- 7.31 Yn aml, roedd nodweddion cyffredin ymhlith y dysgwyr hynny a oedd yn gweld eu canlyniadau fel rhai a gyflawnwyd ganddynt eu hunain. Roedd llawer yn wynebu llai o rwystrau cymhleth, bychan oedd cyfnod eu hamser allan o addysg neu hyfforddiant,

ac roeddent yn ystyried TSC+ fel cam nesaf naturiol yn eu taith ddysgu. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i'r rhai a oedd wedi pontio'n uniongyrchol o addysg i'r rhaglen neu'r rheiny â dyheadau gyrfa clir cyn ymuno. Nid oedd y dysgwyr hyn wedi cael amser hir i ffwrdd o addysg neu gyflogaeth, sef bod yn NEET neu'n cael trafferth â chwiliadau am swyddi, ac roedd ychydig o dan hanner ohonynt wedi cofrestru ym mis Gorffennaf yn syth ar ôl gadael ysgol, neu hyd yn oed ar adeg gadael.

- 7.32 Yn y grŵp hwn: roedd chwech yn ddi-waith neu wedi cael canlyniad negyddol ar adeg ymadael, ac roedd pedwar yn teimlo nad oedd TSC+ wedi eu helpu go iawn. Gall ymatebion o'r fath adlewyrchu'r ffaith nad oeddent wedi gwerthfawrogi'n llawn gyfraniad y rhaglen at eu cynnydd, yn enwedig mewn meysydd fel meithrin hyder a pharodrwydd ar gyfer y farchnad lafur.
- 7.33 Ymhellach, er gwaethaf y canfyddiadau hyn, roedd llawer (14 o'r 20) o'r dysgwyr 'difuddiant' wedi nodi buddion pendant mewn ymateb i'w holi am effaith fwyaf y rhaglen arnynt. Roeddent wedi cyfeirio at brofiad ymarferol a mwy o syniad am yrfa, yn ogystal â gwelliannau mewn hyder a llai o bryder:

"Mae wedi rhoi profiad ymarferol i mi yn y pwnc wnes i ei ddewis – gwaith plymio." **(Dysgwr)**

"Fy helpu i ddeall mai gofal iechyd a chymdeithasol a gofal plant yw beth rwy am ei wneud. Rwy'n gwneud Lefel 1 yn y coleg nawr." **(Dysgwr)**

"Rydw i nawr yn teimlo llai o bryder wrth siarad â phobl. Mae wedi gwella fy hyder, gan ei fod wedi fy nhaflu'n syth i'r gweithle ar leoliad, ac rydw i nawr yn gwybod sut beth ydi hynny." **(Dysgwr)**

"Mi roddodd brofiad gwaith i mi a'r cyfle i wneud lleoliad yn gofalu am gŵn, rhywbeth na fyddwn i wedi'i wneud heb TSC, mae'n debyg, a chyfle hefyd i gwrdd â ffrindiau." **(Dysgwr)**

Ychwanegedd y rhaglen

- 7.34 Er bod rhai dysgwyr yn credu y byddent wedi cyflawni canlyniadau tebyg heb y rhaglen, roedd eu profiadau yn sôn am lai o ynysu cymdeithasol, hyder gwell, a chysylltiadau cymdeithasol cryfach a'r rhain yn cyd-fynd â'r buddion a adroddwyd gan y garfan ehangach. Mae hyn yn dangos bod gan TSC+ effaith ehangach ar dwf personol a phroffesiynol dysgwyr, gan fynd i'r afael â heriau fel iechyd meddwl, diffyg rŵtin arferol, a phrofiad cyfyngedig yn y gweithle.
- 7.35 Er y gallai rhai dysgwyr fod wedi tanamcangyfrif rôl TSC+ wrth eu cefnogi, gan edrych yn gul ar gyflawniadau diriaethol fel swyddi neu brentisiaethau, mae'r twf personol a phroffesiynol ehangach a ddisgrifiwyd ganddynt yn tanlinellu pwysigrwydd y rhaglen a thebygrwydd y canlyniadau ar draws y garfan ehangach.
- 7.36 Adleisiwyd y farn hon gan gontractwyr a staff awdurdodau lleol, gan nodi na fyddai'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cyflawni'r un canlyniadau heb y rhaglen. Roedd llawer o gyfranogwyr mewn perygl o ddod yn NEET, ac roedd TSC+ wedi chwarae rhan hanfodol wrth liniaru rhwystrau fel cymhelliant isel a heriau iechyd meddwl wrth roi

cyfle gwerthfawr iddynt gael blas o weithle. Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod y canlyniadau hyn yn ymestyn y tu hwnt i gyflogaeth uniongyrchol, gan gefnogi twf personol a hyder ac felly fod yn rhagflaenwyr hanfodol i lwyddiant hirdymor.

Cyrchfannau

- 7.37 Mae'r ymatebion i arolygon a barn Contractwyr yn dangos bod TSC+ wedi bod yn effeithiol wrth ddod â dysgwyr yn agosach at y farchnad lafur. Mae hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r adroddiad interim ac yn tynnu sylw at ystod o ganlyniadau cadarnhaol, gan gynnwys pontio i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant pellach.
- 7.38 Darlun amrywiol a geir wrth gymharu'r canlyniadau a adroddwyd yn ymatebion yr arolwg i ddysgwyr craidd â'r ymatebion i'r rheiny sydd wedi gadael ers chwe mis.

Canlyniadau lleoliad

- 7.39 Awgryma'r data fod cynigion swyddi a phrentisiaethau sy'n deillio o leoliadau gan amlaf yn gynigion diogel i'r hirdymor, neu'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol pellach. Ymhlith dysgwyr chwe mis ar ôl y rhaglen, nododd 22 eu bod wedi cwblhau lleoliad, gyda naw ohonynt wedi derbyn cynnig (3/9) neu brentisiaeth (6/9) ar ôl cwblhau. O'r rolau hynny a gynigiwyd, mae pump wedi aros gyda'r un cyflogwr, tra bod dau wedi symud i addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth yn rhywle arall.
- 7.40 Ymhlith y dysgwyr a holwyd a oedd wedi mynd ar leoliad, dywedodd 35% (23/65) o ddysgwyr craidd a 36% (8/22) o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ar-ôl-chwe-mis fod eu lleoliadau wedi dod i ben yn gynnar am wahanol resymau. Y rhesymau a nodwyd amlaf am hyn oedd problemau yn ymwneud â'r gweithle (35%, 8/23) ymhlith dysgwyr craidd, gan gynnwys diswyddo, cefnogaeth wael, ac amgylchedd annymunol. I ddysgwyr ar ôl chwe mis, y rheswm a nodwyd amlaf oedd bod y person ifanc wedi dod o hyd i gyflogaeth arall (25%, 2/8) neu fod newidiadau allanol yn sail iddo (25%, 2/8):

“Doedd y menywod ro'n i'n gweithio gyda nhw ddim yn gyfeillgar iawn.” **(Dysgwr)**

“Mi wnes i orfod gadael achos doeddwn i ddim yn addas ar gyfer y swydd.” **(Dysgwr)**

“Ro'n i wedi gorfod gadael gan fod y busnes yn symud safle a hefyd oherwydd rhesymau ieuchyd meddwl.” **(Dysgwr)**

- 7.41 I ddysgwyr craidd, roedd pryderon yn ymwneud â'r rhaglen yn ffactor mawr arall, fel y nodwyd gan 26% (6/23) o'r ymatebwyr, megis problemau tâl, llwybr anghywir, neu deimlo eu bod yn cael eu hecsbloetio. Roedd amgylchiadau personol, gan gynnwys problemau ieuchyd meddwl neu drafferthion teithio, yn cyfrif am 22% (5/23). Roedd rhesymau llai cyffredin yn cynnwys diffyg diddordeb yn y lleoliad (17%, 4/23), gydag un dysgwr yn gadael i fynd i'r coleg:

“Fy ieuchyd meddwl – ro'n i'n teimlo pryder mawr wrth weithio mewn siop elusen.” **(Dysgwr)**

“Roedd y trenau’n cael eu canslo’n gyson ac roedd hyn yn fy ngwneud i’n hwyr.” **(Dysgwr)**

- 7.42 Cododd problemau â thal fel rheswm amlwg dros ymadawiadau cynnar, gyda phedwar dysgwr craidd ac un dysgwr ar ôl chwe mis yn crybwyll y penderfyniad i adael lleoliadau i gael cyflog uwch mewn mannau eraill. Tynnodd y dysgwyr a ymatebodd sylw hefyd at y ffaith bod aros yng nghanolfan TSC+ yn cynnig buddion ariannol gwell na chymryd rhan mewn lleoliad. Fel y nodir yn Adran 6, roedd Contractwyr a staff awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon y gallai gwahaniaethau rhwng lwfans bod ar leoliad a bod yn y ganolfan lesteirio ar gyfranogiad, a adlewyrchir hyn yn y profiadau a’r canfyddiadau canlynol gan ddysgwyr:


“Oherwydd y problemau talu, oherwydd ro’n i’n cael llai o dâl yn gwneud y lleoliad o’i gymharu â bod yn y ganolfan. Byddai’n bwrw glaw yn drwm a finnau’n gwarafun y gallwn i fod yn cael mwy o dâl am eistedd mewn ystafell ddosbarth gynnes.” **(Dysgwr)**

“Doedd e ddim yn teimlo’n werth e am yr arian, roedd yn talu llai na’r lwfans hyfforddi drwy TSC.” **(Dysgwr)**

Cynaliadwyedd cyflogaeth

- 7.43 Er mai dim ond cyfran fach o’r garfan o ddysgwyr a holwyd a gafodd gyflogaeth, mae Ffigur 7.4 yn awgrymu newid tuag at gyflogaeth fwy sefydlog chwe mis ar ôl gadael y rhaglen. Nododd cyfran uwch o ddysgwyr a ymatebodd i’r arolwg ar-ôl-chwe-mis eu bod mewn contractau parhaol neu benagored (70%, 14/20) o’i gymharu â dysgwyr craidd ar adeg ymadael (35%, 9/26). Mae hyn yn dynodi symud posibl tuag at fwy o sefydlogrwydd swydd dros amser.

Ffigur 7.4: Math o gontract sydd gan ddysgwyr cyflogedig ôl gadael rhaglen TSC+



Ffynhonnell: Arolwg i ddysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis

7.44 Yn ôl yr arolwg, mae dysgwyr craidd sy'n gadael contractau dros dro, tymor penodol, neu dim oriau penodol wedi mynegi awydd am rolau mwy parhaol, gyda 75% (12/16) o'r rheiny a gyflogid yn y trefniadau hyn yn chwilio am gyflogaeth fwy sefydlog. Yn ogystal, dangosodd ymatebwyr yr arolwg ar-ôl-chwe-mis gyfrannau uwch yn gweithio dros 30 awr yr wythnos (70%, 14/20) o'i gymharu â dysgwyr craidd, lle'r oedd 73% (16/22) yn gweithio 30 awr neu lai.


Sectorau cyflogaeth

7.45 Mae data'r arolwg yn datgelu dosbarthiad amrywiol cyflogaeth ar draws y ddwy garfan o ddysgwyr ar ôl iddynt gymryd rhan yn TSC+. Mae'r sector lletygarwch (Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd) yn dominyddu cyflogaeth y ddau grŵp, gan gyfrif am 37% (10/27) o ddysgwyr craidd a 32% (7/22) o'r dysgwyr ar ôl chwe mis. Mae'n debyg bod y nifer uchel hwn yn cyfrannu at gyfran uchel y dysgwyr sydd ar gontractau achlysurol neu dim oriau, gan adlewyrchu natur cyflogaeth yn y diwydiannau hyn.

Teithiau ar ôl y rhaglen

7.46 Ymhlith y dysgwyr craidd sydd wedi gadael y rhaglen, mae 16% (13/68) yn ddi-waith ar hyn o bryd neu nid ydynt wrthi'n chwilio am waith, tra bod 79% (54/68) mewn rhyw fath o gyflogaeth, addysg, hyfforddiant neu brentisiaethau. Mewn cyferbyniad, mae'r canlyniadau ar ôl chwe mis yn dangos bod cyfran uwch o ddysgwyr yn ddi-waith (38%, 23/60) gyda 61% (37/61) wedi cael canlyniadau cadarnhaol.


Ffigur 7.5: Statws hunanadroddedig dysgwyr nad ydynt bellach wedi cofrestru yn TSC+



Ffynhonnell: Arolwg i ddysgwyr craidd a dysgwyr ar ôl chwe mis

7.47 Yn benodol, mae cyfran uwch o ddysgwyr ar ôl chwe mis yn ddi-waith ac wrthi'n chwilio am waith, gydag 11 o'r 68 o'r dysgwyr craidd (16%) yn nodi diweithdra a gweithgareddau chwilio am swydd, o'i gymharu â 19 o'r 61 (31%) o'r dysgwyr ar ôl chwe mis. Mae'r gwahaniaeth hwn yn awgrymu, dros amser, fod rhai cyfranogwyr o bosibl yn wynebu mwy o anawsterau wrth gael cyflogaeth ar ôl cwblhau'r rhaglen. Cefnogir hyn ymhellach gan y ffaith bod cyfran uwch o gyfranogwyr craidd mewn cyflogaeth neu'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, sy'n dangos y gallai canlyniadau cadarnhaol y rhaglen fod yn fwy ffafriol i'r rheiny sy'n dal i fod yn gysylltiedig â'i hadnoddau a'i chefnogaeth.

Ffigur 7.6: Siart Sankey yn dangos teithiau asesu ar ôl chwe mis gan gymharu cyrchfan dysgwyr yn syth ar ôl gadael ac yna eu cyrchfan chwe mis ar ôl gadael (n=61)



- 7.48 Mae siart Sankey ar y dudalen flaenorol (Ffigur 7.6) yn nodi cyrchfannau dysgwyr yn syth ar ôl gadael y rhaglen (ochr chwith y siart a nifer y dysgwyr ar gyfer pob cyrchfan uniongyrchol) gan eu cymharu â'u canlyniadau hunanadroddedig chwe mis yn ddiweddarach, yn seiliedig ar yr arolwg chwe mis ar ôl y rhaglen (ochr dde). Mae'r gymhariaeth hon yn helpu i ddangos teithiau'r dysgwyr ar ôl y rhaglen, ac yn rhoi cipolwg ar yr effeithiau tymor hwy na ellid eu cofnodi'n llawn ar adeg gadael.
- 7.49 Ar y cyfan, awgryma'r data fod cyfran uwch o ddysgwyr mewn cyflogaeth neu'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant chwe mis ar ôl gadael y rhaglen, gyda llai yn nodi diweithdra o'i gymharu â'u sefyllfa yn syth ar ôl gadael. Yn benodol, roedd 39% o'r ymatebwyr bellach yn nodi eu bod mewn cyflogaeth, sydd wedi codi o 31% ar adeg gadael. Yn yr un modd, mae canran y dysgwyr sy'n nodi diweithdra ac yn chwilio am waith wedi gostwng o 45% ar ôl gadael i 31% chwe mis yn ddiweddarach.
- 7.50 Tuedd nodedig yw'r cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n bwrw ymlaen â'u haddysg a hyfforddiant. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg chwe mis ar ôl y rhaglen, nododd 21% eu bod mewn addysg neu hyfforddiant, o'i gymharu â dim ond 8% ar ôl gadael y rhaglen.
- 7.51 Ar lefel unigolion, mae tystiolaeth o welliannau yn statws cyflogaeth dysgwyr oedd yn ddi-waith ar adeg gadael y rhaglen. O'r rhai oedd yn ddi-waith i ddechrau ami, roedd 30% wedi cael gadael ar gyflogaeth ers hynny, tra bod 13% wedi symud ymlaen i addysg neu hyfforddiant. Awgryma'r ffigurau hyn ddatblygiad ystyrlon i gyfran o'r grŵp hwn.
- 7.52 Er gwaethaf y gwelliannau hyn, nid yw cyfran fach o ddysgwyr (23%) wedi cynnal eu canlyniadau cadarnhaol mewn cyflogaeth nac addysg/hyfforddiant ac maent bellach naill ai'n ddi-waith neu ddim wrthi'n chwilio am waith.
- 7.53 Mae rhywfaint o wahaniaethau wrth edrych ar y newidiadau ar lefel unigol (yn hytrach na thueddiadau cyffredinol). Gall ffactorau fel demograffeg a chymwysterau ddylanwadu ar yr amrywiad hwn.


Darpariaeth addysg a hyfforddiant ar ôl y rhaglen

- 7.54 Mae dadansoddi data LLWR Llywodraeth Cymru yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i natur yr addysg neu'r hyfforddiant y mae cyfranogwyr TSC+ yn mynd iddo ar ôl cwblhau'r rhaglen. Mae Ffigur 7.7 isod yn rhoi dadansoddiad o'r cyrsiau a ddilynir gan y rheiny sy'n mynd i addysg neu hyfforddiant wrth adael TSC+. Disgrifir bron i chwarter o'r cyrsiau y mae cyfranogwyr yn mynd iddynt (22.9%, 1,098/4,795) fel cyrsiau addysg gyffredinol (dysgu sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm addysgol craidd, fel Lefel A). Disgrifir 14.3% o gyrsiau eraill (687/4,795) fel "paratoad ar gyfer bywyd a gwaith", gyda chyfran debyg o gyrsiau yn gysylltiedig â'r Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol.^[Troednodyn 38] Mae cyrsiau mewn iechyd (9.1%; 437/4,975), adeiladu (7.4%; 354/4,975) a'r celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi (6.0%; 288/4,975) hefyd yn

[38] Mae'r Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol (PLA) yn rhoi cymorth ledled Cymru i unigolion cymwys ennill sgiliau lefel uwch a fydd yn eu galluogi i gael mynediad at ystod ehangach o gyfleoedd gwaith ac/neu gael cyflogaeth ar lefel uwch mewn sectorau blaenoriaeth.

feysydd pwnc sectorau cyffredin y mae cyfranogwyr yn mynd iddynt. Dylid nodi nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyrsiau hyfforddi nad oeddent yn cynnwys maes pwnc sector (prentisiaethau, dysgu cymunedol, addysg bellach arall, dysgu seiliedig ar waith).

Ffigur 7.7: Cyrchfannau addysg a hyfforddiant ymadawyr TSC+ fel canran o gyfanswm y cyrsiau a wnaed – Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024




Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR, n=4,975

- 7.55 Dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r dysgu y mae ymadawyr TSC+ yn mynd iddo fel 'Addysg Bellach Arall' (85.1%, 4,325/5,083). Roedd hyn ynghyd â Dysgu Cymunedol i Oedolion (282, 5.5%) a Phrentisiaethau neu Brentisiaethau Sylfaen (217, 4.3%) yn cyfrif am 95% o fathau o ddysgu pellach. Aeth nifer fach o ddysgwyr

(230, 4.5%) i ddysgu a ddynodwyd ar lefelau 1 i 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (NQF).

Ffigur 7.8: Mathau o addysg a hyfforddiant a ddechreuwyd gan ymadawyr TSC+ - Ebrill 2022 i Gorffennaf 2024



Ffynhonnell: data gwybodaeth reoli LLWR, n=5,083

7.56 Ar y cyfan, ac eithrio'r rhai oedd yn dal i barhau â'r dysgu hwn, cwblhaodd 70.1% o ymadawyr TSC+ eu dysgu pellach (3,218/4,592) tra na wnaeth bron i draean hynny (1,374/4,592). Mae hyn yn cymharu â dadansoddiad cyhoeddus ar gyfraddau cwblhau yn genedlaethol sy'n dangos cyfradd gwblhau o 75% ar gyfer pob dysgwr ôl-16 mewn addysg gyffredinol ac 86% ar gyfer dysgwyr ôl-16 mewn hyfforddiant galwedigaethol ar draws pob cofnod LLWR rhwng mis Awst 2022 a mis Gorffennaf 2023. Mae'n bwysig nodi, ymhlith cyfranogwyr TSC+, y cofnodir achosion lle nad oes unrhyw reswm dros derfynu'r dysgu a gall canran o'r rhain gyfrif am ddysgwyr a symudodd o addysg i gyrchfannau cadarnhaol eraill fel cyflogaeth.

Mesur sgiliau meddal

7.57 Mae contractwyr wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r metrigau llwyddiant cyfredol ar gyfer mesur canlyniadau cadarnhaol a chyrchfannau yn llwyddo i gofnodi'r canlyniadau cymhleth, unigol a nodir yn yr adran ar ddatblygiad personol. Nid yw'r diffiniad cyfredol o ganlyniad cadarnhaol – pontio i 'gyflogadwyedd, addysg, hyfforddiant neu brentisiaethau' – yn ystyried y gwelliannau sylweddol a wnaed gan ddysgwyr a oedd yn cael trafferth ar y dechrau ag ymwneud sylfaenol yn gymdeithasol neu adael eu cartrefi:

“Yn aml, gallai person ifanc fod gyda ni am 32 wythnos a gwella eu hyder ac yna peidio â chael swydd gyda ni, ond yna ymhellach ymlaen maen nhw'n cael swydd. Ond allwn ni ddim mesur hynny. Mae pobl yn cael canlyniadau cadarnhaol ar y cyfan, gyda'u hiechyd meddwl, eu hyder, ac ati. Dyw hi ddim

yn bosibl mesur y newid ynddyn nhw o'u diwrnod cyntaf hyd at gyfnod o chwe mis bob amser, ond mae'n sicr yn werthfawr." **(Contractwr)**

- 7.58 Nid yw'r gweithdrefnau monitro presennol yn ddigon da i gipio datblygiadau sylweddol mewn sgiliau meddal na gwelliannau mewn iechyd meddwl a lles fel y mae ein harolygon wedi'u dangos. Nid yw un dull cyffredinol o gofnodi data monitro yn ddigon i grynhoi'r canfyddiadau cynnil hyn:

"Rydyn ni'n cael ein graddio ar ddata dilyniant, ond i mi, mae dilyniant yn fwy na dim ond 'a aethon nhw ymlaen i hyfforddiant pellach?', 'a gawson nhw swydd?'. Mae'n ymwneud â gofyn 'a yw eu hyder wedi tyfu?' neu 'a ydyn nhw'n gallu siarad yn uchel yn y dosbarth?'. Rydyn ni'n wych am sgiliau meddal, ond nhw yw'r anoddaf i'w cofnodi." **(Contractwr)**

Rhannu data a gweithio ar y cyd

- 7.59 Roedd staff awdurdodau lleol yn benodol wedi dweud nad oes ganddynt lawer o fewnwelediad i ganlyniadau ac effeithiau rhaglen TSC+. Awgrymodd rhai y gallai Llywodraeth Cymru weithredu fel pwynt canolog ar gyfer rhannu gwybodaeth, o ystyried bod nifer o Gontractwyr yn gweithredu'n gystadleuol o fewn yr un ardaloedd:

"Dydyn ni ddim yn cael y darlun llawn." **(Staff Awdurdod Lleol)**

"Dydyn ni ddim yn cael data ar ganlyniadau gan yr un ohonyn nhw." **(Staff Awdurdod Lleol)**

"Dydw i byth yn gweld y data. Ond efallai mai dyma rywbeth y dylwn i ofyn i'r darparwr amdano. Efallai mai rôl i Lywodraeth Cymru yw hon. Efallai y dylen nhw sicrhau bod y data hwnnw ar gael, oherwydd bod data ysgolion yn cael ei gyhoeddi, felly pam ddim TSC?" **(Staff Awdurdod Lleol^[Troednodyn 39])**

- 7.60 Pan ofynnwyd iddynt am y gwersi pwysig o'r rhaglen, pwysleisiodd rhanddeiliaid yr angen am ddull mwy cydlynol a chanolog:

"Dwi'n meddwl ei fod yn tynnu sylw at yr angen i gael mwy o gydgyssylltu, i gael y llinellau cyfathrebu agored hynny i bwysleisio pwysigrwydd partneriaeth er mwyn iddo fod yn llwyddiant." **(Staff Awdurdod Lleol)**

"Mwy o gydweithredu rhwng TSC+ ac asiantaethau eraill a mwy o rannu gwybodaeth. Mae angen i TSC+ ganiatáu mwy o fewnbwn gan awdurdodau lleol ynglŷn â'r rhaglen a sut i ddatblygu'r cwricwlwm i weithio'n well gyda'r bobl ifanc." **(Staff Awdurdod Lleol)**

- 7.61 Mae'r mewnwelediadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd datblygu dull mwy integredig o rannu data a mesur canlyniadau yn rhaglen TSC+, gyda phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd.

[39] Mae data TSC wedi'i gyhoeddi ac ar gael, ond mae ymwybyddiaeth o ble i ddod o hyd iddynt yn ymddangos yn broblem.

Crynodeb o'r adran

- Adroddodd dysgwyr am ystod ehangach o fuddion a chanlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i gymryd rhan yn TSC+ mewn perthynas â chyflogadwyedd a'u gyrfa yn ogystal â'u hiechyd meddwl a'u lles personol.
- Roedd canmoliaeth benodol gan y dysgwyr i arweiniad y tiwtoriaid a'r staff am eu dull cefnogol a deallus.
- Mae'r effaith ar ddatblygiad personol wedi bod yn sylweddol, yn enwedig o ran annog ymgysylltiad cymdeithasol, meithrin rŵtin a threfn arferol, a gwella hyder.
- Pwysleisiodd Contractwyr a Chydlynwyr Addysg bwysigrwydd datblygu sgiliau sylfaenol ymhlith dysgwyr, gyda llawer ar y dechrau yn cael trafferth ag arferion a rŵtin sylfaenol.
- Er bod cyfraddau cyflogaeth wedi gostwng rhwng y rhai a gyflogwyd yn fuan ar ôl gadael a'r rhai chwe mis ar ôl gadael, ymhlith y rhai sydd mewn cyflogaeth, roedd sefydlogrwydd y gyflogaeth honno wedi cynyddu. Ar ben hynny, wrth baru'r gyrchfan a adroddwyd gan y grŵp chwe mis ar ôl yr arolwg â'u cyrchfan uniongyrchol ar ôl gadael y rhaglen, roedd cyfraddau cyflogaeth wedi cynyddu a'r gyfran o bobl ddi-waith neu'n chwilio am waith wedi gostwng.

8. Crynodeb o'r canfyddiadau ac argymhellion

Dyluniad a chyd-destun y rhaglen

- 8.1 Lansiodd TSC+ ym mis Ebrill 2022 ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru. Er i'r rhaglen gael ei lansio yn 2022, fe'i cynlluniwyd rhwng 2019 a 2020 ac, yn hollbwysig, cyn pandemig COVID-19. Ei nod oedd darparu cyfleoedd cyflogaeth, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol, neu hunangyflogaeth i bob person ifanc y mae'n gweithio â nhw yn ogystal â phhecyn cymorth wedi'i deilwra.
- 8.2 Gwnaed cyfres o addasiadau mewnol i ddyluniad a chyflwyniad y rhaglen, yn bennaf mewn ymateb i bobl ifanc a oedd ag anghenion mwy difrifol a mwy cymhleth nag y disgwyliwyd ar adeg cynllunio'r rhaglen. Nododd y Contractwyr a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) fod llawer o ddarpar gyfranogwyr ar y dechrau yn cael problemau â rŵtin a threfn sylfaenol. Roedd y parodrwydd i addasu'r model cyflenwi yn adlewyrchu'r hyn a ddisgrifiodd Contractwyr fel newid mewn ymagwedd gan Lywodraeth Cymru o'i gymharu â rhaglenni blaenorol, sef newid tuag at fodel partneriaeth lle mae Contractwyr yn cydweithio gyda'i gilydd ac agwedd 'gallu gwneud' wrth fynd i'r afael â heriau a nodwyd yn y rhaglen.
- 8.3 Mae'r addasiadau hynny wedi cael croeso cyffredinol gan Contractwyr a rhanddeiliaid allanol (awdurdodau lleol a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd yn bennaf). Maent hefyd yn dangos pwysigrwydd a gwerth addasu polisi ymyrraeth ar ôl dechrau ei weithredu er mwyn adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Er gwaethaf yr addasiadau hyn, mae dyluniad a dull gweithredu TSC+ yn parhau i gyd-fynd yn agos â pholisi'r llywodraeth ac yn ei gefnogi, yn enwedig yr hyn sy'n gysylltiedig â'r Warrant i Bobl Ifanc a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid.
- 8.4 Fodd bynnag, mae'r model ei hun a'r canllawiau yn ei gylch yn gymharol gymhleth ac mae achosion yn parhau lle nad yw cynrychiolwyr y Contractwr (neu'r Is-contractwr) yn ymwybodol o'r canllawiau diweddaraf neu wedi'u camddeall. Mae pryderon hefyd ymhlith Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd nad oes llawer o wybodaeth yn cael ei rhannu am gyfranogwyr ar ôl iddynt gofrestru (ac yn enwedig a yw unigolyn wedi sicrhau canlyniad ai peidio ar adeg gadael y rhaglen).

Argymhelliad 1: Mae angen i Lywodraeth Cymru gyfathrebu'n glir â Contractwyr pan wneir addasiadau i'r cynnig gwasanaeth, a hyn i'w ledaenu i'r holl staff rheng flaen, is-contractwyr, a Chydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) er mwyn sicrhau cadw cysondeb y cynnig.

Argymhelliad 2: Dylid trin a thrafod ymhellach â Chydlynwyr Ymgysylltu â Chynnydd i archwilio i ba raddau y maent yn cael gwybod am gyflawniadau a chanlyniadau cyfranogwyr TSC+ yn eu hardal leol.

Ymgysylltiad

- 8.5 Mae ymwybyddiaeth dda eisoes am raglen TSC+ ymhlith y grŵp targed (nodwyd bod hyn yn her ar gyfer darpariaeth debyg yn ddiweddar mewn adolygiad cyflym o'r dystiolaeth), gyda lefelau'r galw am gymorth yn uwch na lefel yr adnoddau sydd ar gael. Rhwng Ebrill 2022 a Gorffennaf 2024 cafwyd 11,972 o gofrestriadau i'r rhaglen yn ogystal â 10,008 o gyfranogwyr unigryw yn TSC+.
- 8.6 Awgryma'r dystiolaeth fod 30–40% o'r garfan gymwys yng Nghymru o bosibl yn ymgysylltu â TSC+. Ar ben hynny, gwelir bod gan chwarter y cyfranogwyr ar y rhaglen anghenion ychwanegol. Felly dengys y dystiolaeth fod y cynnig gwasanaeth o bosibl yn fwy addas ar gyfer cael y grŵp targed hwn o bobl ifanc i ymgysylltu a chofrestru nag ymyriadau polisi blaenorol.
- 8.7 Rhywun yn sôn am y rhaglen a gweithgareddau allgymorth hyrwyddo mewn ysgolion uwchradd sydd wedi llwyddo wrth godi ymwybyddiaeth o raglen TSC+ (yn enwedig o ystyried bod gweithgareddau marchnata a hyrwyddo cenedlaethol ar gyfer y rhaglen wedi dod i ben yn 2023). Mae'n debyg bod sawl ffactor wedi dylanwadu ar gyfraddau ymgysylltu, gan gynnwys ansawdd ac ystod y gefnogaeth a gynigid a'r elfen ariannol (lwfansau hyfforddi, prydau bwyd a chludiant am ddim i gyfranogwyr, a'r ffi sefydlu i Gontractwyr).
- 8.8 Nodwyd pryder yn y gwerthusiad interim y gallai'r lwfans hyfforddi uwch hefyd ddylanwadu ar ymgysylltiad gan ei fod yn uwch ar TSC+ nag yr hyn y byddent fel arall yn gymwys i'w gael mewn man arall, megis budd-daliadau neu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Er bod y gefnogaeth ariannol yn ffactor, pwysleisiodd ymatebwyr yr arolwg, fodd bynnag, nad dyna oedd y prif ffactor wrth ymgysylltu â'r rhaglen. Ar yr un pryd, teimlai Contractwyr fod y cynnydd yn y lwfans hyfforddi hefyd wedi cynorthwyo i gadw cyfranogwyr ar y rhaglen.
- 8.9 Mae lefelau'r galw am y rhaglen wedi golygu bod Contractwyr wedi gorfod bod yn ofalus wrth reoli proffil blyneddol eu cofrestriadau er mwyn sicrhau nad oedd eu cyllid yn darfod. Mae rhestrau aros wedi'u sefydlu ar adegau i helpu i reoli niferoedd, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Awgrymodd Contractwyr fod hyn yn cynyddu'n fawr y risg o gyfranogwyr posibl yn ymddieithrio.
- 8.10 Mae amrywiadau mawr yn y galw am y rhaglen yn ystod blwyddyn galendr wedi cymhlethu ymhellach y rheoli blyneddol ar gyllidebau gan Contractwyr. Mae cynnydd cyson yn y nifer sy'n cofrestru bob mis Gorffennaf ac, i raddau llai, bob mis Hydref. Ymddengys bod y rhai ym mis Gorffennaf yn gysylltiedig â phontio o addysg uwchradd i TSC+, ac i lawer maent yn NEET am gyfnod byr iawn neu ddim o gwbl, gyda rhai yn nodi eu bod wedi cofrestru i TSC+ pan oeddent yn dal yn yr ysgol. Ymddengys bod y rhaglen yn effeithiol wrth gynnal diddordeb yn ystod misoedd yr haf; fodd bynnag, mae'n llai clir faint o gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r garfan benodol hon (o'i chymharu â chofrestriadau ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn). Dylid cydnabod hefyd fod y broses o bontio o'r ysgol uwchradd yn 16 oed i ryw fath arall o Addysg, Hyfforddiant a Dysgu yn gysylltiedig â'r risg o ymddieithrio, ac mae

TSC+ (ac yn benodol y cynnig cyn-ymgysylltu drwy 'Bydd Barod') yn cynnig mecanwaith defnyddiol ar gyfer cynnal rhyw fath o ymgysylltiad dros gyfnod yr haf.

- 8.11 Er bod lefel dda o ymwybyddiaeth am y rhaglen ymhlith pobl ifanc, mae cryn wahaniaeth daearyddol yn y tebygolrwydd y bydd unigolyn yn ymgysylltu â'r rhaglen. Er enghraifft, mae person ifanc 16 i 19 oed yn Nhorfaen wyth gwaith yn fwy tebygol o gofrestru ar TSC+ na pherson ifanc yn lleoliadau mwy gwledig Powys, Gwynedd a Cheredigion.^[Troednodyn 40]
- 8.12 Mae rhywfaint o dystiolaeth bod poblogaeth gyffredinol y bobl ifanc NEET yng Nghymru yn amrywio yn ôl daearyddiaeth;^[Troednodyn 41] fodd bynnag, pan geir amrywiad, bychan yw'r cydberthynas â chyfraddau ymgysylltu ar TSC+. Awgryma hyn fod ffactorau eraill yn dylanwadu ar y duedd i gymryd rhan yn y gefnogaeth. Gall ffactorau o'r fath gynnwys lefelau amddifadedd, problemau byw mewn mannau gwledig, a heriau mynediad corfforol i leoliad neu adeilad ar gyfer cyngor ac arweiniad TSC+. Nododd Contractwyr hefyd yr angen am hyblygrwydd pan fydd gofalmwr ifanc yn ymgysylltu â'r rhaglen, a gall presenoldeb corfforol fod yn anodd weithiau.

Argymhelliad 3: Dylid adolygu'r mynediad at y cymorth, gan gynnwys y lefel a'r graddau y gall unigolion ymgysylltu ar-lein, er mwyn cefnogi sicrhau mynediad teg i TSC+ ledled Cymru.

- 8.13 Mae darpar gyfranogwyr TSC+ fel arfer yn cael eu hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r rhaglen, naill ai drwy'r Contractwyr neu drwy'r Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC). Ymddengys bod y dull dwyffordd, sef atgyfeirio ac ymgysylltu (naill ai drwy Cymru'n Gweithio neu drwy atgyfeirio uniongyrchol), yn gweithio'n dda, gan alluogi'r dysgwr ei hunan i arwain y llwybrau ymgysylltu i raddau helaeth. Mae ffurflen yr Adroddiad Asesu ac Atgyfeirio (ARR) yn fecanwaith defnyddiol ar gyfer casglu dealltwriaeth am gyfranogwyr, ac ynddi ceir gwybodaeth gynhwysfawr. Mae cyfyngiadau yn ymwneud â rhannu data sy'n gysylltiedig ag ysgolion (gan gynnwys Cynlluniau Dysgu Unigol) yn aml yn arwain at oedi wrth ddeall anghenion cyfranogwyr hyd nes eu bod yn dewis rhannu'r wybodaeth hon (fel arfer ar ôl iddynt ddod i ymddiried mewn aelod o staff) neu hyd nes y gellir ei nodi trwy asesiad anghenion. Yn hyn o beth, mae'n bwysig sylweddoli pwysigrwydd y dull sgwrsio fel rhan o'r ymgysylltiad cychwynnol â phobl ifanc. Mae meithrin perthynas ac ymdeimlad o ymddiriedaeth yn gynnar yn eu hymgysylltiad yn hanfodol i ddeall anghenion cyfranogwyr, cynnal eu hymgysylltiad, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol.

[40] Cyfrifir hyn drwy gymharu nifer y bobl sy'n ymgysylltu â TSC+ mewn awdurdod lleol, wedi'i fynegi fel cyfran o'r boblogaeth 16 i 19 oed yn yr awdurdod lleol hwnnw.

[41] Oherwydd maint bach y sampl, o'r Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, dadansoddir y data ar y lefel ranbarthol dros gyfnod o dair blynedd, gyda chanran y bobl 16 i 24 oed sy'n NEET yn amrywio o 10.7% yn y De-ddwyrain i 14.2% yn y Canolbarth a'r De-orllewin. Gweler yma am ragor o wybodaeth. Ar ben hynny, mae'r rhai a gofnodwyd yn NEET ymhlith ymadawyr ysgol ym mis Hydref (ar ôl gadael yr ysgol yn gynharach y flwyddyn honno ym mis Mehefin/Gorffennaf) yn amrywio o 1.1% yng Nghasnewydd i 4.0% yn Ynys Môn. (Arolwg Hynt Disgyblion Blwyddyn 11).

- 8.14 Her a nodwyd yn rhan o'r broses gofrestru oedd rheoli disgwyliadau cyfranogwyr. Weithiau mae pobl ifanc yn cofrestru gyda disgwyliadau afrealistig o yrfa nad yw'n adlewyrchu eu cymwysterau presennol, neu maent yn anghyfarwydd â'r heriau a all eu hwynebu wrth geisio cael gafael ar gyflogaeth. Nid yw hyn fel arfer yn cael sylw yn y broses atgyfeirio ac mae'n ffactor sy'n cael ei ystyried fel arfer ar ôl ymgysylltu.
- 8.15 Mae natur yr heriau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu yn golygu bod dros dri chwarter y cyfranogwyr yn mynd i llyn Ymgysylltu'r gefnogaeth. Teimlir bod hyd yn oed hwn yn rhy anodd i rai cyfranogwyr, a theimlwyd bod angen defnydd ehangach o'r cynnig cyn-ymgysylltu ('Bydd Barod/Get Ready' ar hyn o bryd) neu rywbeth tebyg.
- 8.16 Ymddengys mai'r hyn sy'n dylanwadu ar batrymau defnyddio Bydd Barod fel cynnig yw'r adnoddau sydd ar gael, diddordeb darparwyr, a'r tymor, gyda thystiolaeth fechan yn awgrymu mai anghenion dysgwyr sy'n dylanwadu ar ei ddarparu ar hyn o bryd. O blith y rheiny sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot a Sir y Fflint, roedd bron i chwarter y cyfranogwyr wedi cymryd rhan yng nghynllun Bydd Barod, ond nid oedd yr un o'r cyfranogwyr sy'n byw yng Ngheredigion wedi gwneud Bydd Barod. Credir bod y cyllid sydd ar gael yn debygol o fod yn ffactor yn y gwahaniaeth yn ei ddefnydd. Nid yw'n glir a oes ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar y gwahaniaeth daearyddol.

Argymhelliad 4: Dylid archwilio gyda Chontractwyr pa ffactorau sy'n dylanwadu ar faint y maent yn defnyddio'r llinyn cymorth cyn-ymgysylltu 'Bydd Barod' i gefnogi mynediad mwy cyfartal ar draws y rhaglen.

- 8.17 Deallir bod nifer a difrifoldeb y cymhlethdodau a'r rhwystrau y mae cyfranogwyr yn eu hwynebu yn parhau i gynyddu. Mae hyn wedi arwain at gynydd mewn ymddygiad heriol (tarfu ar eraill ac weithiau ymddygiad treisgar) a materion diogelu y mae'r Contractwyr yn gorfod delio â nhw.

Darparu'r cymorth

- 8.18 Teimlir bod yr hyn a gynigir gan y gwasanaeth drwy elfennau prif ffrwd y rhaglen (yn bennaf y llinynnau Ymgysylltu a Datblygu) yn hyblyg, yn ymatebol, ac yn cael ei arwain gan y dysgwr. Mae canmoliaeth eang i natur y gefnogaeth a gynigir drwy'r rhaglen, a'r gefnogaeth honno wedi'i mireinio dros amser, gyda'r dyluniad i raddau helaeth yn adlewyrchu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio^[Troednodyn 42] gyda'r grŵp targed hwn.
- 8.19 Mae hyd y cyfnod y mae cyfranogwyr yn aros ar y rhaglen wedi gostwng yn gyson dros amser, o gyfartaledd o chwe mis yng ngaeaf 2022 i 2023 i 3.5 mis yng ngaeaf 2023 i 2024. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r galw am y rhaglen, cyfyngiadau ariannu, a rhestrau aros, sydd i gyd yn annog Contractwyr i gyflymu symudiad cyfranogwyr trwy'r rhaglen.

[42] Llywodraeth Cymru (2024) Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth: cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

- 8.20 Ystyrir yn eang bod y rhaglen a'i chymorth cysylltiedig yn hygyrch ac yn effeithiol, yn enwedig o ran mynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles a chefnogi pobl ifanc i ddatblygu 'sgiliau meddal'. Fodd bynnag, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) sy'n dylanwadu bennaf ar y gofynion casglu a monitro data ar gyfer y rhaglen, ac nid yw'r cofnodion yn hwn yn cipio pa mor ddifrifol a chymhleth yw rhwystrau nac yn cynnig unrhyw fewnwelediad i lesiant personol cyfranogwyr. Er enghraifft, mae dadansoddi Cynlluniau Dysgu Unigol (lle ceir y wybodaeth hon) yn datgelu bod bron i chwarter y cofnodion yn tystio i anghenion cymorth lluosog ar gyfer pob cyfranogwr, gyda'r naratif cysylltiedig yn rhoi darlun o'r sefyllfaoedd cymhleth y mae rhai cyfranogwyr yn eu hwynebu.

Argymhelliad 5: Dylid casglu tystiolaeth fonitro sy'n ategu gofynion y LLWR wrth ymgysylltu â pherson ifanc (unwaith y bydd ymddiriedaeth wedi'i sefydlu) a gallai ffurfio rhan o'r Cynllun Dysgu Unigol. Dylai hyn gynnwys casglu dangosyddion lles mewn modd meintiol neu wedi'i gategoreiddio er mwyn rhoi modd eu monitro a'u dadansoddi.

Argymhelliad 6: Dylid sefydlu dull cyson ar draws y rhaglen ar gyfer cofnodi canlyniadau meddal a'r pellter a deithiwyd. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael cefnogaeth Contractwyr, argymhellir eu bod nhw, ar y cyd, yn cydweithio i arwain ar ddylunio a datblygu'r system.

Argymhelliad 7: Dylid mabwysiadu dull cyson ar draws pob Contractwr ar gyfer cofnodi gwybodaeth bwysig a gedwir yn y Cynllun Dysgu Unigol. Byddai hyn yn galluogi dadansoddi ansoddol mwy cynhwysfawr ar rwystrau, dyheadau a gweithgareddau dysgwyr.

- 8.21 Mae'r ddarpariaeth cymorth a gynigir drwy TSC+ wedi symud yn araf ac yn gyson tuag at roi sgiliau bywyd a sgiliau sylfaenol ehangach ac i ffwrdd o ddarpariaeth sydd fel arfer yn gysylltiedig ag unigolion sy'n agos at gyflogaeth. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu amgylchiadau'r cyfranogwyr sy'n ymgysylltu. Yn ogystal, ychydig iawn o ddefnydd a wneir o llinyn Cyflogaeth y rhaglen, gan mai 1% yn unig o'r cofrestriadau ar y rhaglen sydd ar y llinyn hwnnw. Adroddodd Contractwyr fod llawer o'r bobl ifanc a gefnogwyd yn wynebu rhwystrau a sefyllfaoedd ychwanegol sy'n golygu nad oeddent fel arfer yn barod i weithio.
- 8.22 Yn fwy cyffredinol wrth drafod yr ymwneud â chyflogwyr, nododd Contractwyr mai amharod oedd cyflogwyr yn gyffredinol i gyflogi pobl ifanc o ystyried y costau goruchwyllo oedd ei angen, pryder bod cyfranogwyr i'w gweld yn anaeddfed neu ddim yn ymrwymedig, ac yn gyffredinol bod diffyg modd cael y cyfleoedd hyn mewn rhai lleoliadau.
- 8.23 Cyfeiriodd cyfranogwyr at oedi wrth gael gafael ar leoliadau, tra bod Contractwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod y lwfans a gynigir i gyfranogwyr yn is pan ydynt ar leoliad, sy'n golygu bod mwy o fudd ariannol iddynt aros yn y cyfleuster dysgu.

Argymhelliad 8: Dylid ymchwilio i'r gwahaniaethau yn y lwfans ar leoliad o'i gymharu ag mewn cyfleuster dysgu, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar gymhellion i gwblhau lleoliad.

- 8.24 Er gwaethaf yr heriau hyn sy'n ymwneud â chyfle i gael cyflogaeth, dengys y wybodaeth reoli, ledled Cymru, fod dros un o bob pump (21.6%, 1,785/8,270) o unigolion unigryw wedi sicrhau cyflogaeth ran-amser neu lawn amser ar ôl gadael TSC+. Unwaith eto, mae gwahaniaeth daearyddol yn y cyrchfannau hyn, gyda dros chwarter y cyfranogwyr yn Sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, a Thorfaen yn sicrhau cyflogaeth o'i gymharu â llai na 10% o'r rhai yng Nghaerdydd.
- 8.25 Ar ben hynny, ymhlith y grŵp cyfranogwyr ar ôl chwe mis mae cynnydd yn nifer y cyrchfannau cadarnhaol o'i gymharu ag adeg ymadael, gyda'r rhai mewn cyflogaeth fel arfer yn trosglwyddo i gontractau mwy diogel neu nifer uwch o oriau pob wythnos.
- 8.26 Maes arall sydd â gwahaniaeth daearyddol yw'r gallu i gael gafael ar gyfleoedd cyflogaeth yn fwy cyffredinol (yn bennaf drwy leoliadau gwaith), wrth i gyfranogwyr TSC+ yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, yn ôl yr wybodaeth reoli, fod bron i 20 gwaith yn fwy tebygol o wneud rhyw fath o oriau gwaith fel rhan o'u hymgysylltiad na'r rheiny sy'n byw yn Sir y Fflint.

Argymhelliad 9: Dylid cael Contractwyr i fynd ati i archwilio ffactorau sy'n gysylltiedig â'r gwahaniaethau yn nheithiau cyfranogwyr ar raglen TSC+ er mwyn nodi pa gefnogaeth y gellir ei chynnig i gynorthwyo darparu cynnig mwy cyson i bawb.

Canlyniadau ac effaith y cymorth

- 8.27 Mae cyfraddau canlyniadau cadarnhaol ar y rhaglen wedi gwella'n gyson dros amser, gyda'r rhaglen yn rhagori ar dargedau yn erbyn y nifer sy'n cofrestru arni. Yn y data cyhoeddedig, fodd bynnag, ychydig iawn o wahaniaethu sydd rhwng canlyniadau dilyniant (lle mae unigolyn yn trosglwyddo o un llinyn TSC+ i un arall) a chanlyniadau terfynol (eu canlyniad ar adeg gadael y rhaglen). Er bod symud cadarnhaol rhwng llinynnau'r rhaglen yn garreg filltir bwysig i'w chydabod, gall hyn yn anfwriadol fod yn camarwain canfyddiadau o raddfa'r ymgysylltiad a'r cyrchfannau ar ôl gadael y rhaglen.

Argymhelliad 10: Dylid cofnodi symudiadau cadarnhaol rhwng llinynnau a chanlyniadau terfynol ar gyfer unigolion unigryw fel dangosyddion ar wahân wrth adrodd ar berfformiad y rhaglen.

- 8.28 Gwelir cryn amrywio daearyddol pellach yn y canlyniadau cadarnhaol a gâi cyfranogwyr, gyda'r rhai ym Mhowys a Sir Benfro dair gwaith yn fwy tebygol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r rhai yn Nhorfaen. Yn yr un modd, mae'r rheiny sy'n byw yng Nghaerdydd bron dair gwaith yn fwy tebygol o adael gyda chanlyniad negyddol na'r rhai sy'n byw yn Wrecsam neu Sir y Fflint.
- 8.29 Mae'r rhaglen wedi bod yn allweddol wrth helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau a datblygu sgiliau meddal a chyflogaeth hanfodol. Canmolwyd y rhaglen gan ddysgwyr am egluro a rhoi arweiniad gwerthfawr ynghylch eu hopsiynau gyrfa.

- 8.30 Y tu hwnt i gyflogadwyedd, cafodd y rhaglen effaith sylweddol ar lesiant ac iechyd meddwl dysgwyr, a hwythau yn arbennig wedi canmol arweiniad y tiwtoriaid a'r staff am eu dull cefnogol a deallus.
- 8.31 Dywedodd dysgwyr mai cynnydd yn eu hyder a lles cyffredinol gwell oedd y canlyniadau mwyaf trawsnewidiol yn eu profiad. Roeddent hefyd yn aml yn nodi gwelliannau yn eu gallu i reoli heriau personol fel gorbryder cymdeithasol. I'r rhai a oedd yn wynebu heriau iechyd meddwl cyn ymuno â TSC+, roedd y gwelliannau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd mynd i'r afael â datblygiad personol a lles fel elfennau sylfaenol cyn mynd ar drywydd amcanion penodol yn gysylltiedig â chyflogaeth.
- 8.32 Cynhaliwyd asesiad cychwynnol a chymharol fras o gost-ffeithlonrwydd (asesu'r gost fesul ymgysylltiad). Pan ystyrir effeithiau chwyddiant, amcangyfrifir bod TSC+ yn cynrychioli cynnydd o 10% ar y gost fesul ymgysylltiad o'i gymharu â TSC2.
- Argymhelliad 11:** Dylid cynnal dadansoddiad cost-budd cymdeithasol cynhwysfawr o TSC+ i gofnodi'n llawn y costau a'r buddion cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o'r rhaglen er mwyn helpu i asesu enillion ar fuddsoddiad y rhaglen.
- 8.33 Gwelir gallu'r rhaglen i addasu ac ymateb i anghenion unigol cyfranogwyr yn y gwahaniaeth cymharol fach yn y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd yn ôl nodwedd. Ymhlith y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, sicrhodd 57% ganlyniad cadarnhaol, o'i gymharu â 62% heb ADY, tra bod 55% o'r rhai â chymwysterau is (Lefel 1 neu is) wedi sicrhau canlyniad cadarnhaol o'i gymharu â 65% o'r rhai a oedd â chymwysterau Lefel 2.
- 8.34 Mewn patrwm tebyg i'r un a welwyd yn y gwerthusiad interim, mae'r rheiny sydd â rhyw fath o allu yn y Gymraeg yn fwy tebygol yn ystadegol o sicrhau canlyniad cadarnhaol na'r rhai heb hynny.
- 8.35 Mae maint y rhaglen a'r graddau yr ymddengys ei bod yn ymgysylltu â'r garfan gymwys yn golygu ei bod hi'n bosibl bod TSC+ yn dylanwadu ar ddangosyddion perfformiad economaidd-gymdeithasol yng Nghymru. Mae data diweddar ar gyfraddau diweithdra ymhlith y garfan 16 i 19 oed yn dangos cwymp a gwahaniaeth amlwg (pan fo data cymharol ar gael) o gymharu â thueddiadau yn Lloegr. Mae angen archwilio pellach ar y data hwn (fel rhan o werthusiad crynodol). Yn ogystal, mae angen manylion am y nifer sy'n economaidd anweithgar ynghyd â'r rhai sy'n ddi-waith er mwyn deall yn gliriach yr effaith y gallai'r rhaglen fod yn ei chael.

- 8.36 Ymhlith y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11, nid yw'r effaith na'r gwerth ychwanegol yn glir, gyda chyfraddau NEET neu statws anhysbys yn aros yn sefydlog ar ôl cynyddu o 2021 i 2022. Mae'r arwyddion hyn, ochr yn ochr â thueddiadau amrywiol eraill (fel y'u hamlygwyd yn gynharach yn yr adran hon), yn awgrymu bod lefelau is o ychwanegolrwydd yn digwydd i'r rhai sydd wedi cofrestru ar TSC+ ym mis Gorffennaf (yn benodol y rhai sy'n pontio o Flwyddyn 11) na'r rhai sy'n cofrestru ar TSC+ ym misoedd eraill y flwyddyn.

Argymhelliad 12: Dylid cynnal archwiliad pellach gyda Chontractwyr a'r Cydlynwyr Ymgysylltiad a Chynnydd (EPC) i edrych ar nodweddion a sefyllfaoedd penodol y rhai sy'n cofrestru ar y rhaglen ym mis Gorffennaf bob blwyddyn.

Argymhelliad 13: Dylai gwaith maes â chyfranogwyr TSC+ yn y dyfodol ymgysylltu â charfan sydd wedi cofrestru ar y rhaglen ledled y flwyddyn galendr i liniaru unrhyw ddylanwad posibl o ran tueddiadau misol.

Cyfeiriadau

Brown, C., Rueda, P., Batlle, I. & Sallán, J. (2021) Introduction to the special issue: a conceptual framework for researching the risks to early leaving, Journal of Education and Work, 34:7–8, 723–739.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (dim dyddiad) Cymru Can: strategaeth ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 2023-2030 (aethpwyd iddo: 17 Rhagfyr 2024).

Gyrfa Cymru (dim dyddiad) Cyrchfannau Disgyblion (aethpwyd iddo: 26 Tachwedd 2024).

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) Diogelu lles meddyliol cenedlaethau'r dyfodol: dysgu o COVID-19 ar gyfer y tymor hir: Dull Asesu Effaith Lles Meddyliol. Crynodeb Gweithredol (aethpwyd iddo: 26 Ionawr 2025).

Ipsos MORI, Wavehill & Wiserd (2016) Gwerthusiad o Twf Swyddi Cymru – Adroddiad Terfynol (aethpwyd iddo: 1 Rhagfyr 2024).

Medr (2025) Sta/Medr/04/2025: Dilyniant o Flwyddyn 11 i addysg drydyddol, Awst 2017 i Ionawr 2025 (aethpwyd iddo: 7 Ionawr 2025).

NAO: Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2021) Cymorth Cyflogaeth DWP (aethpwyd iddo: 5 Mawrth 2025).

NHS Digital (2023) Mental Health of Children and Young People in England, 2023: Wave 4 Follow-Up to the 2017 Survey (aethpwyd iddo: 27 Tachwedd 2024).

Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin / Commons Library (2024) Understanding statistics on employment, unemployment and earnings (aethpwyd iddo: 24 Tachwedd 2024).

Llywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid: Asesiad Effaith (aethpwyd iddo: 16 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Yr Hanfodion (aethpwyd iddo: 1 Chwefror 2025).

Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg (aethpwyd iddo: 26 Rhagfyr 2024).

Llywodraeth Cymru (2019) Cynllun Cyflogadwyedd (aethpwyd iddo: 12 Rhagfyr 2024).

